

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 24/06/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau I'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)  
[1. Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[4. Dadl ar Araith y Frenhines](#)  
[4. Debate on the Queen's Speech](#)

[5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Darlledu yn yr Iaith Gymraeg](#)  
[5. Welsh Liberal Democrats Debate: Welsh-language Broadcasting](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:29 **1. Cwestiynau I'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

The first item this afternoon is questions to the Minister for Health and Social Services, and question 1 is from John Griffiths.

**1. Questions to the Minister for Health and Social Services**  
**Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a daw cwestiwn 1 gan John Griffiths.

**Y** [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

#### Gofal Iechyd Cymunedol

#### Community Healthcare

13:29 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal iechyd cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0619(HSS)*

*1. Will the Minister make a statement on community healthcare in Wales? OAQ(4)0619(HSS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:29 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Stabilising current provision, diversifying the workforce for the future, and providing more healthcare in the community are the key priorities of the Welsh primary care national plan.

Sefydlogi'r ddarpariaeth bresennol, arallgyfeirio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol, a darparu mwy o ofal iechyd yn y gymuned yw blaenoriaethau allweddol y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:29 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. I wonder whether you would agree with me—I'm sure you will—that it's very important to get the community infrastructure in place before more acute services are pulled out of the hospitals, and elsewhere. And, in that context, we need health centres in place, in key priority areas in Wales, to ensure that those community services are available and that no gaps exist as configuration is changed.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Tybed a fydddech yn cytuno â mi—rwy'n siŵr y byddwch—ei bod yn bwysig iawn cael y seilwaith cymunedol yn ei le cyn diddymu gwasanaethau mwy aciwt o'r ysbytai, ac o fannau eraill. Ac yn y cyd-destun hwnnw, mae arnom angen canolfannau iechyd ar waith mewn ardaloedd blaenoriaeth allweddol yng Nghymru i sicrhau bod y gwasanaethau cymunedol hynny ar gael ac nad oes unrhyw fylchau wrth ad-drefnu.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I absolutely agree with that. I was very pleased to see the recent opening of the Buckley health centre in north Wales. I receive advice on developments in other parts of Wales too. If we want to see more provision in the community, it's essential that we have the facilities available through which those activities can be carried out.
- Cytunaf yn llwyr â hynny. Roeddwn yn falch iawn o weld agoriad canolfan iechyd Bwcle yn y Gogledd yn ddiweddar. Rwy'n derbyn cyngor ar ddatblygiadau mewn rhannau eraill o Gymru hefyd. Os ydym am weld mwy o ddarpariaeth yn y gymuned, mae'n hanfodol bod y cyfleusterau er mwyn cyflawni'r gweithgareddau hynny ar gael.
- 13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, community healthcare services are designed to keep people as independent as possible. For dementia sufferers, early diagnosis of their condition is vital for this to happen. What plan does the Minister have to ensure that GPs check more closely for signs of dementia, so that sufferers can remain in their own homes for as long as possible in Wales?
- Weinidog, mae gwasanaethau gofal iechyd cymunedol wedi eu cynllunio i gadw pobl mor annibynnol â phosibl. Ar gyfer dioddefwyr dementia, mae diagnosis cynnar o'u cyflwr yn hanfodol er mwyn i hyn ddigwydd. Pa gynllun sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod meddygon teulu yn edrych yn fwy gofalus am arwyddion o ddementia, er mwyn i ddioddefwyr allu aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl yng Nghymru?
- 13:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I thank the Member for that question? We had a very good debate on dementia services here in the Assembly only last week, and the focus on diagnosis, but not simply diagnosis, but a sense, with diagnosis, that services are in place in order to respond to that person's needs and the journey that they will then be on. In the recent announcement I've been able to make on extra investment for adult mental health services, there is specific new provision for a team of people to diagnose dementia in care homes in Wales, and that's answering one of the key recommendations of the Commissioner for Older People in Wales's report. But also a new service, so that, when people have that diagnosis, there's then somebody alongside them, to guide them through that first 12 months in the first instance, to make sure that they know that it is possible to go on living well with dementia, provided people are aware of the services available and get the help that they need.
- A gaf fi ddiolch i'r Aelod am y cwestiwn? Cawsom ddadl dda iawn ynghylch gwasanaethau dementia yma yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf, a'r ffocws ar ddiagnosis, ac nid diagnosis yn unig, ond y teimlad bod gwasanaethau ar waith, wrth gael diagnosis, i allu ymateb i anghenion yr unigolyn a'r daith yr aiff arni wedyn. Yn y cyhoeddiad diweddar a wneuthum ar fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, ceir darpariaeth newydd benodol i dîm o bobl fynd ati i wneud diagnosis o ddementia mewn cartrefi gofal yng Nghymru, ac mae hynny'n ateb un o'r argymhellion allweddol yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Ond gwasanaeth newydd hefyd, er mwyn sicrhau, pan fydd pobl yn cael y diagnosis, fod rhywun gyda hwy, i'w harwain drwy'r 12 mis cyntaf yn y lle cyntaf, i sicrhau eu bod yn gwybod bod modd parhau i fyw'n dda gyda dementia, cyn belled ag y bo pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael, ac yn cael yr help sydd ei angen arnynt.
- 13:32 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, y tro diwethaf yr es i i lawr i'r feddygfa leol, fe ges i wybod bod yr apwyntiad cyntaf a oedd ar gael ymhen 14 diwrnod. Fe wnes i ddweud y bydden i'n ceisio bod yn anhwylyd mewn 14 diwrnod, i gyd-fynd â'r apwyntiad. A ydych chi'n credu bod hynny'n dderbyniol? Ac, mewn sefyllfaoedd felly, oni ddylai meddygfeydd fod yn cynnig gwasanaeth heblaw gwasanaeth y meddyg teulu os nad yw'r meddyg teulu yn gallu bod ar gael am 14 diwrnod?
- Minister, the last time I attended the local surgery, I was told that the first available appointment would be 14 days hence. I said that I would try to be unwell in 14 days' time in order to correspond with the appointment. Do you believe that that's acceptable? And, in such situations, should surgeries not offer services other than GP services if a GP can't be available for 14 days?

13:33

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the things we know is that access arrangements to primary care provision vary from place to place, and that there are some practices that do better at organising the services that they provide so that people can have access to them in a timely fashion. One of the things that we will be discussing with the Welsh General Practitioners Committee, as part of our new contract arrangements, is trying to make sure that those arrangements that work most successfully and provide patients with timely access to the service they need, and places that arrange their affairs in ways that do not meet patients' needs so successfully, can learn from one another, and so that we can do the best everywhere. And I think there is room for improvement, but the improvement is improvement learnt from within the health service, and from those practices that already manage their affairs in this way very successfully.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Un o'r pethau a wyddom yw bod trefniadau mynediad at ofal sylfaenol yn amrywio o le i le, a bod rhai practisau'n gwneud yn well o ran trefnu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu fel y gall pobl gael mynediad iddynt mewn da bryd. Un o'r pethau y byddwn yn eu trafod gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, yn rhan o'n trefniadau contract newydd, yw ceisio sicrhau bod y trefniadau sy'n gweithio'n fwyaf llwyddiannus ac sy'n darparu mynediad amserol i gleifion at y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, a'r llefydd sy'n trefnu eu gwaith mewn ffyrdd nad ydynt yn llwyddo i ddiwallu anghenion eu cleifion cystal, yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd, ac er mwyn i ni allu gwneud ein gorau ym mhob man. A chredaf fod lle i wella, ond mae'r gwelliant yn welliant a ddysgir o fewn y gwasanaeth iechyd, a chan y practisau sydd eisoes yn trefnu eu gwaith yn llwyddiannus iawn yn y modd hwn.

13:34

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, clearly, the GP is pivotal in the delivery of community healthcare, and, as Rhodri Glyn Thomas has just simply asked, what else is happening in the community services? So, can you tell us what the Welsh Government is doing to diversify the primary care workforce?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, yn amlwg, mae'r meddyg teulu yn allweddol o ran darparu gofal iechyd cymunedol, ac fel y gofynnodd Rhodri Glyn Thomas yn awr, beth arall sy'n digwydd yn y gwasanaethau cymunedol? Felly, a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i arallgyfeirio'r gweithlu gofal sylfaenol?

13:34

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank David Rees for that question, because I think it goes to the very heart of the plan that we have here in Wales for stabilising and then improving primary care health services for the future? We know that GPs are difficult to recruit in some parts of Wales, and that the GPs of the future are not attracted to work in models that have served their predecessors well. What we have to do is to diversify the workforce, so that GPs are able to concentrate on those patients whom only GPs are able to provide for. We need to recognise the contribution that other health workers are able to make; we need to train the workforce, to maximise their skills for the future; we need to ensure that everybody makes the most of the clinical skills they possess, working at the top of their clinical licence; and we need to apply that approach with imagination. For example, in west Wales now, we have paramedics working as part of a primary care team. There are other people who are able to make a contribution alongside GPs. We need to maximise the contribution that they can make, freeing up GPs to do the things that only GPs can do.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddiolch i David Rees am ei gwestiwn, oherwydd credaf ei fod yn mynd at wraidd y cynllun sydd gennym yma yng Nghymru ar gyfer sefydlogi gwasanaethau iechyd gofal sylfaenol a'u gwella ar gyfer y dyfodol? Gwyddom fod meddygon teulu yn anodd eu recriwtio mewn rhai rhannau o Gymru, ac nad yw meddygon teulu'r dyfodol yn cael eu denu i weithio mewn modelau a fu o fudd i'w rhagflaenwyr. Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw arallgyfeirio'r gweithlu, er mwyn i feddygon teulu allu canolbwyntio ar y cleifion na all neb ond meddygon teulu ddarparu ar eu cyfer. Mae angen i ni gydnabod y cyfraniad y gall y gweithwyr iechyd eraill ei wneud; mae angen i ni hyfforddi'r gweithlu, i fanteisio i'r eithaf ar eu sgiliau ar gyfer y dyfodol; mae angen i ni sicrhau bod pawb yn gwneud y mwyaf o'r sgiliau clinigol sydd ganddynt, gan weithio hyd eithaf yr hyn y'u trwyddedwyd i'w wneud yn glinigol; ac mae angen i ni weithredu'r ymagwedd honno gyda dychymyg. Er enghraifft, yng ngorllewin Cymru bellach, mae gennym barafeddygon sy'n gweithio'n rhan o dîm gofal sylfaenol. Mae yna bobl eraill sy'n gallu gwneud cyfraniad yn ogystal â meddygon teulu. Mae angen i ni fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y gallant ei wneud, er mwyn rhyddhau meddygon teulu i wneud y pethau na all neb ond meddygon teulu eu gwneud.

**Arolygu Gofal Cymdeithasol**

**Social Care Inspection**

13:35

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella'r broses o reoleiddio'r gwaith o arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)0605(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*2. How is the Welsh Government improving the regulation of social care inspection in Wales? OAQ(4)0605(HSS)*

- 13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Care and Social Services Inspectorate Wales carries out the functions of Welsh Ministers in terms of inspection of social care. These functions are the subject of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill, currently undergoing scrutiny in the National Assembly.
- Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran arolygu gofal cymdeithasol. Mae'r swyddogaethau hyn yn cael sylw ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n destun craffu ar hyn o bryd yn Cynulliad Cenedlaethol.
- 13:35 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, as you know, the overwhelming majority of care is provided in the independent sector, in addition to which health boards are increasingly talking about discharging people into care home beds to reduce pressure on hospitals. How, therefore, do you respond, and what action have you taken following the warning by the chair of Care Forum Wales that your proposals to strengthen regulation and inspection of social care in Wales won't work without a fundamental change of culture to ensure that everybody's working together 'in collaboration', particularly health and the social care system, where he says that we're not harnessing the resources that we already have at our disposal?
- Wrth gwrs, fel y gwyddoch, mae'r mwyafrif llethol o ofal yn cael ei ddarparu yn y sector annibynnol, ac mae'r byrddau iechyd yn siarad yn gynyddol am ryddhau pobl i welyau cartrefi gofal er mwyn lleihau'r pwysau ar ysbytai. Sut, felly, rydych chi'n ymateb, a pha gamau a roesoch ar waith yn dilyn y rhybudd gan gadeirydd Fforwm Gofal Cymru na fydd eich cynigion i gryfhau rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio heb newid sylfaenol yn y diwylliant i sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd 'yn gydweithredol', yn enwedig y system iechyd a gofal cymdeithasol, lle y mae'n dweud nad ydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni eisoes?
- 13:36 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I entirely agree that a collaborative approach to providing social care services and residential care services for older people is essential. I believe that is the model that is at the heart of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. I have been very encouraged by the very positive engagement in the development of the regulation and inspection Bill that we have had from Care Forum Wales. I want a system that regulates for success, that regards the contribution that is made by private providers as something to be valued, that we improve it where we are able to work alongside them, and that they are regarded as full partners in the way that these services are provided in Wales.
- Cytunaf yn llwyr fod dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal preswyl i bobl hŷn yn hanfodol. Credaf mai dyna'r model sydd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan yr ymgysylltiad cadarnhaol iawn yn natblygiad y Bil rheoleiddio ac arolygu a gawsom gan Fforwm Gofal Cymru. Rwyf am weld system sy'n rheoleiddio er mwyn sicrhau llwyddiant, sy'n ystyried y cyfraniad a wneir gan ddarparwyr preifat yn rhywbeth i'w werthfawrogi, ein bod yn ei wella lle bo hynny'n bosib er mwyn gallu gweithio ochr yn ochr â hwy, a'u bod yn cael eu hystyried yn bartneriaid llawn yn y ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yng Nghymru.
- 13:37 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Does the Minister intend to introduce quality ratings for care homes and local authority services as part of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill?
- A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno graddau ansawdd ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau awdurdodau lleol fel rhan o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)?
- 13:37 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Christine Chapman for that question. The Bill will allow Welsh Ministers power through the inspectorate to assign quality ratings to services and to local authorities as well in their provision of social services. Ratings are a widely used tool amongst regulators—Estyn, for example, and the Care Quality Commission in England use quality ratings. I think they can be a powerful tool for levering up quality in the sector and, as I say, as part of our ambition to regulate for success. However, I am clear, Llywydd, that we will not rush to introduce a quality rating system. I want to work with the sector in the way that Mark Isherwood suggested so that when we do implement quality ratings, we can be confident that the judgments that are being expressed are reliable and are consistent across Wales.
- Diolch i Christine Chapman am ei chwestiwn. Bydd y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy'r arolygiaeth i bennu graddau ansawdd ar gyfer gwasanaethau, ac awdurdodau lleol hefyd, am y modd y maent yn darparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae graddau yn offeryn a ddefnyddir yn all ymysg rheoleiddwyr—mae Estyn, er enghraifft, a'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr yn defnyddio graddau ansawdd. Credaf y gallant fod yn offeryn pwerus ar gyfer gwella ansawdd yn y sector, ac fel y dywedais, fel rhan o'n huchelgais i reoleiddio ar gyfer llwyddiant. Fodd bynnag, rwy'n glir, Llywydd, na fyddwn yn rhuthro i gyflwyno system raddio ansawdd. Rwyf am weithio gyda'r sector yn y ffordd yr awgrymodd Mark Isherwood er mwyn i ni allu bod yn hyderus, pan fyddwn yn rhoi graddau ansawdd ar waith, bod y farn sy'n cael ei mynegi yn ddibynadwy a chyson ledled Cymru.

13:38

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, last year, the then deputy Minister referred to our unique lay-led workforce regulation approach and stressed her desire to actively engage citizens within our regulation and inspection regimes. What decision have you come to about the involvement of lay inspectors in the regulation and inspection regime?

Weinidog, y llynedd, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd at ein dull unigryw o reoleiddio'r gweithlu o dan arweiniad pobl leyg a phwysleisiodd ei hawydd i fynd ati i ymgysylltu â dinasyddion o fewn ein cyfundrefnau rheoleiddio ac arolygu. Pa benderfyniad a wnaethoch ynglŷn â chynnwys arolygwyr lleig yn y gyfundrefn reoleiddio ac arolygu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very keen indeed to involve people who are from outside the professional ambit in social care in the inspection of social care. One of the things that I think we know about regulation is that you need people who come to settings with completely fresh eyes, who are not just habituated to what goes on somewhere, and who see what's happening and ask the questions that people who are there every day have forgotten to ask because they've just become used to seeing what they see. The regulation and inspection Bill will place new duties on the inspectorate to involve lay people and to report annually on the way that people have been involved. I don't want to be prescriptive with the regulator about how that should be done. It seems to me that how you would involve lay people in the inspection of a learning disability service, for example, might be different to the way that you would involve lay people in the inspection of a fostering service. So, I'm very keen on the principle. I think it's important to allow latitude to the regulator to involve lay people in the way that is right for the piece of work that they are carrying out at that time.

Rwy'n awyddus iawn yn wir i gynnwys pobl o'r tu allan i gwmpas proffesiynol y maes gofal cymdeithasol wrth arolygu gofal cymdeithasol. Un peth y credaf ein bod yn ei wybod am reoliadau yw bod angen pobl sy'n dod i leoliadau gyda llygaid hollol newydd, sydd heb arfer â'r hyn sy'n digwydd yn rhywle, ac sy'n gweld beth sy'n digwydd ac yn gofyn y cwestiynau y mae pobl sydd yno'n ddyddiol wedi anghofio eu gofyn am eu bod wedi dod i arfer â gweld yr hyn y maent yn ei weld. Bydd y Bil rheoleiddio ac arolygu yn gosod dyletswyddau newydd ar yr arolygiaeth i gynnwys pobl leyg ac i adrodd yn flynyddol ar y ffordd y mae pobl wedi cymryd rhan. Nid wyf am gyfarwyddo'r rheoleidiwr ynglŷn â sut y dylid gwneud hynny. Ymddengys i mi y byddai'r ffordd y byddech yn cynnwys pobl leyg wrth arolygu gwasanaeth anabledd dysgu, er enghraifft, yn wahanol efallai i'r ffordd y byddech yn cynnwys pobl leyg wrth arolygu gwasanaeth maethu. Felly, rwy'n frwd iawn ynglŷn â'r egwyddor. Credaf ei bod yn bwysig rhoi penrhyddid i'r rheoleidiwr gynnwys pobl leyg yn y ffordd sy'n briodol ar gyfer y gwaith y maent yn ei gyflawni ar y pryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from Party Spokespeople**

13:40

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Darren Millar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau a llfarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, I'm sure you'll be as concerned as I was to read the findings of a British Medical Association Cymru survey this week, which concluded that hospital doctors who have raised patient safety concerns are feeling bullied and harassed. Up to 60 per cent of those respondents who had raised concerns expressed that sentiment. What action are you taking, as Minister, to ensure that medical staff across the country do feel comfortable in raising concerns and calling out on bad practice?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yr un mor bryderus ag yr oeddwn innau wrth ddarllen canfyddiadau arolwg Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) yr wythnos hon, a ddaeth i'r casgliad fod meddygon ysbytai sydd wedi codi pryderon ynghylch diogelwch cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio a'u herlid. Cafodd y teimlad hwnnw ei fynegi gan hyd at 60 y cant o'r ymatebwyr a oedd wedi lleisio pryderon. Pa gamau rydych chi'n eu cymryd, fel Gweinidog, i sicrhau bod staff meddygol ledled y wlad yn teimlo'n gyfforddus yn lleisio pryderon a thynnu sylw at arferion gwael?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly want to achieve the same ambition that Darren Millar has just outlined. I think it's absolutely important that people who work in our services know that when they have concerns to raise, that those concerns are valued, that they are respected for raising them, and that they get a proper response from those authorities with whom those concerns have been raised.

Rwy'n sicr yn awyddus i gyflawni'r uchelgais ag yr amlinellodd Darren Millar. Credaf ei bod yn hollbwysig fod pobl sy'n gweithio yn ein gwasanaethau yn gwybod y bydd eu pryderon yn cael eu gwerthfawrogi pan fyddant yn eu lleisio, eu bod yn cael eu parchu am eu lleisio, a'u bod yn cael ymateb priodol gan yr awdurdodau y maent yn lleisio'r pryderon hynny wrthynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The law has been significantly strengthened to enhance the legal protections that people have in those circumstances. Law was taken through the House of Commons just before the general election that will apply in Wales to provide further protections to whistleblowers in the national health service. But it isn't just a matter of the law, as we have surely learned; it's a matter of culture as well. I'm very grateful to the BMA in Wales for the work that they are doing jointly with us and the health service to try and create a culture around raising concerns that makes it clear to people that when they have things to say, they should say them, and then the people who have a responsibility for hearing those concerns take those things seriously and respond to them respectfully.

Mae'r gyfraith wedi cael ei chryfhau'n sylweddol i wella'r amddiffyniadau cyfreithiol sydd gan bobl yn yr amgylchiadau hynny. Aethpwyd â chyfraith drwy Dŷ'r Cyffredin cyn yr etholiad cyffredinol a fydd yn gymwys i Gymru i ddarparu rhagor o ddiogelwch i chwythwyr chwiban yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Ond nid mater o gyfraith yn unig yw hyn, fel rydym wedi'i ddysgu; mae'n fater o ddiwylliant hefyd. Rwy'n ddiolchgar iawn i BMA Cymru am y gwaith y maent yn ei wneud ar y cyd gyda ni a'r gwasanaeth iechyd i geisio creu diwylliant ynghylch lleisio pryderon sy'n ei gwneud yn glir i bobl, pan fo ganddynt bethau i'w dweud, y dylent eu dweud, a bod y bobl sy'n gyfrifol am wrando ar y pryderon hynny'n eu hystyried o ddifrif ac yn ymateb iddynt yn barchus.

13:42

### **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased, Minister, to hear you recognising that there is an issue with culture, which needs to change in the national health service. I think the most alarming finding in the survey was that, of those who had raised concerns, 40 per cent had said that no action whatsoever had been taken to address those concerns or that they were not aware of any action having been taken. Clearly, if the NHS is going to learn from concerns and learn from complaints, particularly those from its own workforce, there has to be some feedback to staff who raise legitimate concerns. We know, from some of the situations in north Wales, with GP out-of-hours services, and on the Tawel Fan ward, that people were actively being discouraged from making complaints. Given that there was an alarming rate in the survey of people who said that they were actively being discouraged from reporting concerns about patient safety, what are you going to do specifically to encourage health boards to take their responsibilities seriously when it comes to these things and take appropriate action and feed that action back to those individuals who raise the concerns?

Weinidog, rwy'n falch iawn o'ch clywed yn cydnabod bod problem gyda'r diwylliant, sydd angen ei newid yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Credaf mai canfyddiad mwyaf brawychus yr arolwg oedd bod 40 y cant o'r rhai a oedd wedi lleisio pryderon wedi dweud na roddwyd unrhyw gamau o gwbl ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, neu nad oeddent yn ymwybodol fod unrhyw gamau wedi'r rhoi ar waith. Yn amlwg, os yw'r GIG yn mynd i ddysgu o bryderon a dysgu o gwynion, yn enwedig y rhai a wneir gan ei weithlu ei hun, mae'n rhaid rhoi rhywfaint o adborth i staff sy'n mynegi pryderon dilys. Gwyddom, o rai o'r sefyllfaoedd yng ngogledd Cymru, gyda gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, ac ar ward Tawel Fan, fod pobl yn cael eu hannog i beidio â gwneud cwynion. O gofio bod cyfradd frawychus o bobl yn yr arolwg wedi dweud eu bod yn cael eu hannog i beidio â mynegi pryderon ynghylch diogelwch cleifion, beth yn benodol rydych chi'n mynd i'w wneud i annog y byrddau iechyd i fod o ddifrif ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran y pethau hyn, a chymryd camau priodol a bwydo'r camau hynny'n ôl i'r unigolion sy'n lleisio pryderon?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

### **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is indeed concerning to hear that people felt that their concerns had not been acted upon. It's an endemic issue in many public services—that people have something reported to them and do get on and do something about it, but they don't complete the loop by going back to the person who raised it in the first place to explain to them the actions that had been taken. I agree with you entirely that closing that loop is very important in order to give confidence in the system that, when concerns are raised, action does follow.

Mae clywed bod pobl yn teimlo nad aethpwyd i'r afael â'u pryderon yn destun gofid gwirioneddol. Mae'n broblem endemig mewn llawer o wasanaethau cyhoeddus—fod pobl yn cael pryderon wedi'i mynegi wrthynt ac yn mynd ati i wneud rhywbeth am y peth, ond heb gwblhau'r ddolen drwy fynd yn ôl at y sawl a fynegodd y broblem yn y lle cyntaf i esbonio iddynt pa gamau a gymerwyd. Cytunaf yn llwyr â chi fod cau'r ddolen honno'n bwysig iawn er mwyn cadw'r hyder yn y system, pan fo pryderon yn cael eu lleisio, y bydd camau gweithredu yn dilyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I've been looking at the resolutions that are in front of the BMA's conference this week and on which that particular piece of work was developed. The things that were said in the piece of work in Wales are repeated in motions for debate from all parts of the United Kingdom, which is why I say that it's as much a cultural as a legislative matter. But, I have in the past and will continue to raise, with chairs and chief executives of local health boards, their responsibility to ensure that, when people have things to say to them, not only are they heard, but that when action is taken it is communicated back to the person who raised the concern in the first place.

Rwyf wedi bod yn edrych ar y cynigion gerbron cynhadledd y BMA yr wythnos hon ac a oedd yn sail i ddatblygiad y gwaith penodol hwnnw. Mae'r pethau a ddywedwyd yn y gwaith yng Nghymru wedi eu hailadrodd mewn dadleuon ymhob rhan o'r Deyrnas Unedig, a dyna pam y dywedaf ei fod yn fater diwylliannol iawn cymaint ag y mae'n fater deddfwriaethol. Ond yn y gorffennol, rwyf wedi tynnu sylw cadeiryddion a phrif weithredwyr y byrddau iechyd lleol at eu cyfrifoldeb i sicrhau, pan fo gan bobl bethau i'w dweud wrthynt, nid yn unig y cânt eu clywed, ond y bydd y camau sy'n cael eu cymryd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r sawl a fynegodd y pryder yn y lle cyntaf, a byddaf yn parhau i dynnu eu sylw at hyn.

13:44

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I'm very grateful for that response too, Minister. Again, one of the major causes of concern around patient safety was the difficulty expressed in the clinical staffing of services in Wales. We know that there have been significant recruitment challenges in recent years in Wales and, unfortunately, that those recruitment challenges appear to be more significant here than across the border in England. Given that there has been concern that the Welsh Government has not been providing, through the deanery, sufficient numbers of training places for doctors, what action are you going to take to ensure that the Welsh NHS has a sufficient staff complement, going forward, to meet the future needs of the population?

Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ymateb hwnnw hefyd, Weinidog. Unwaith eto, achos pryder sylweddol ynghylch diogelwch cleifion oedd yr anhawster a fynegwyd o ran staff clinigol mewn gwasanaethau yng Nghymru. Gwyddom fod heriau recriwtio sylweddol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru, ac yn anffodus, mae'n ymddangos bod yr heriau recriwtio hynny'n fwy sylweddol yma na thros y ffin yn Lloegr. O gofio bod pryder wedi bod nad yw Llywodraeth Cymru, drwy'r ddeoniaeth, wedi bod yn darparu digon o leoedd hyfforddi ar gyfer meddygon, pa gamau rydych chi'n mynd i'w cymryd i sicrhau bod gan y GIG yng Nghymru ddigon o gyflenwad o staff, wrth symud ymlaen, i fodloni anghenion y boblogaeth yn y dyfodol?

13:45

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I think it's important to put a few things on the record. Llywydd, there are nearly 1,000 more consultants in the Welsh NHS today than when this National Assembly was founded; there are more than 2,000 GPs working in the Welsh NHS last year as there were the year before; and the numbers of nurses in the Welsh NHS have been rising while they've been falling across our border. The people who work in our NHS are very busy people and the pressure of dealing with the level of demand and the nature of demand that they face is very real. We work very hard with the professions to attract people to come to work in Wales and to grow our own. The £80 million that we will invest this year in training professions allied to medicine, I think, gives us some confidence that we are growing today the people who will be needed to work in our health service tomorrow.

Wel, credaf ei bod yn bwysig cofnodi ychydig o bethau. Lywydd, mae bron i 1,000 yn fwy o feddygon ymgynghorol yn y GIG yng Nghymru heddiw na phan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol; roedd dros 2,000 o feddygon teulu yn gweithio yn y GIG yng Nghymru y llynedd fel yn y flwyddyn flaenorol; ac mae nifer y nyrsys yn y GIG yng Nghymru wedi bod yn codi wrth i'r niferoedd ostwng dros y ffin. Mae'r bobl sy'n gweithio yn ein GIG yn bobl brysur iawn ac mae'r pwysau i ymdrin â lefel a natur y galw a wynebant yn real iawn. Rydym yn gweithio'n galed iawn gyda'r proffesiynau i ddenu pobl i ddod i weithio yng Nghymru ac i ddatblygu ein gweithwyr ein hunain. Credaf fod yr £80 miliwn y byddwn yn ei fuddsoddi eleni yn hyfforddi proffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth yn rhoi rhywfaint o hyder i ni ein bod heddiw'n datblygu'r bobl y bydd eu hangen i weithio yn ein gwasanaeth iechyd yfory.

13:46

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Kirsty Williams.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:46

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. Minister, we saw from the events in Tawel Fan that poor care can happen in the open in a public institution. If it's hard to spot there, it can be even harder to spot when care is being delivered in the privacy of an individual's home.

Diolch yn fawr, Lywydd. Weinidog, gwelsom o'r digwyddiadau ar ward Tawel Fan y gall gofal gwael ddigwydd yn agored mewn sefydliad cyhoeddus. Os yw'n anodd sylwi arno yno, gall fod yn anos fyth sylwi arno pan fo gofal yn cael ei ddarparu ym mhreifatrydd cartref yr unigolyn.

A recent 'Week In Week Out' documentary highlighted some shocking examples of domiciliary care being delivered by a company in the Vale of Glamorgan. That company is also delivering care in Cardiff and Pembroke. Despite those shocking revelations, that care company continues to deliver care for people today. In one example, a care worker was ordered to leave a 92-year-old lady on the floor and to attend her next call, before an ambulance or a relative was able to arrive. Minister, how confident are you in the quality of domiciliary care across Wales?

Amlygodd rhaglen ddogfen ddiweddar 'Week In Week Out' rai enghreifftiau brawychus o ofal cartref a ddarparwyd gan gwmni ym Mro Morgannwg. Mae'r cwmni hwnnw hefyd yn darparu gofal yng Nghaerdydd a Phenfro. Er gwaethaf y datgeliadau arswydus hyn, mae'r cwmni gofal hwnnw'n parhau i ddarparu gofal i bobl heddiw. Mewn un enghraifft, cafodd gweithiwr gofal orchymyn i adael dynes 92 oed ar y llawr a mynychu ei galwad nesaf, cyn i ambiwlans neu berthynas allu cyrraedd. Weinidog, faint o hyder sydd gennych yn ansawdd gofal cartref ledled Cymru?

13:47

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, that is a very good question and it was a shocking example that was highlighted in the programme, and clearly not acceptable in any possible sense of the word.

Domiciliary care services are fragile, in some ways. As a society, we expect people to be carrying out these duties with the minimum level of remuneration and we don't value them socially, either. Our ambition in Wales, through the training that we can provide, through the sort of validation of the work that people do, is, at the very least, to create a climate in which people who are carrying out essential care in people's own homes, know how much we value the work that they do and know that if they are willing to carry on doing that work, their career prospects will be enhanced for them in the future. The regulator is very alert to these issues, local authorities have responsibilities themselves and I don't believe that the instances that were reported in that programme are typical in any way, of domiciliary care services in Wales, but that does not, for a minute, mean that we do not need to be fully alert to the need to safeguard the interests of people who find themselves in their own homes with people coming in to provide care for them.

Llywydd, mae hwnnw'n gwestiwn da iawn ac roedd yr enghraifft a amlygwyd yn y rhaglen yn arswydus, ac yn amlwg yn annerbyniol ym mhob ffordd bosibl.

Mae gwasanaethau gofal cartref yn fregus mewn rhai ffyrdd. Fel cymdeithas, rydym yn disgwyl i bobl gyflawni'r dyletswyddau hyn ar y lefel isaf o gyflog ac nid ydym yn eu gwerthfawrogi'n gymdeithasol chwaith. Ein huchelgais yng Nghymru, drwy'r hyfforddiant y gallwn ei ddarparu, drwy'r math o ddilysiad o'r gwaith y mae pobl yn ei wneud, yw creu hinsawdd, fan lleiaf, lle y mae pobl sy'n darparu gofal hanfodol yng nghartrefi pobl yn gwybod cymaint rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith y maent yn ei wneud ac yn gwybod, os ydynt yn barod i barhau i wneud y gwaith hwnnw, y bydd eu rhagolygon gyrfa yn cael eu gwella ar gyfer y dyfodol. Mae'r rheoleiddwr yn effro iawn i'r materion hyn, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau eu hunain ac nid wyf yn credu bod yr achosion yr adroddwyd amdanynt yn y rhaglen honno'n nodweddiadol mewn unrhyw ffordd o wasanaethau gofal cartref yng Nghymru, ond nid yw hynny'n golygu am funud nad oes angen i ni fod yn gwbl effro i'r angen i ddiogelu buddiannau pobl sydd yn eu cartrefi eu hunain gyda phobl yn dod i mewn i ddarparu gofal ar eu cyfer.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:48

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I'm glad you mentioned the responsibilities of local authorities. Last year, I put in a freedom of information request to every single local authority across Wales and I was shocked by the enormous variation in how missed calls or late calls are monitored. In some cases, some local authorities don't monitor missed or late calls at all. What is your expectation of those commissioning services to ensure that the services that they've commissioned are actually delivered on the ground and care is being provided in a way that should be being done?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n falch i chi grybwyll cyfrifoldebau awdurdodau lleol. Y llynedd, cyflwynais gais rhyddid gwybodaeth i bob awdurdod lleol yng Nghymru a chefais fy synnu gan yr amrywio enfawr o ran y modd y caiff galwadau hwyr neu alwadau a fethwyd eu monitro. Mewn rhai achosion, nid yw rhai awdurdodau lleol yn monitro galwadau hwyr neu alwadau a fethwyd o gwbl. Beth yw eich disgwyliadau chi o'r gwasanaethau comisiynu i sicrhau bod y gwasanaethau y maent wedi eu comisiynu yn cael eu darparu ar lawr gwlad a bod gofal yn cael ei ddarparu yn y modd y dylai fod yn cael ei ddarparu?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:49

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, the first responsibility lies with the organisation that has been commissioned. We must be careful not to imply that those people do not have responsibilities themselves. As Kirsty Williams will be aware, the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill strengthens lines of accountability to the board level of organisations that have one contract and now are responsible for providing the services for which they are being paid. But the Bill will also strengthen, and as it goes through the National Assembly I think there is some scope for further strengthening, the way in which local authorities discharge their commissioning responsibilities. Where local authorities are contracting with others to provide care, then I think it is a reasonable expectation of them that they will collect information that will allow them to know whether the money they are spending is being put to good use.

Llywydd, mae'r cyfrifoldeb cyntaf ar y sefydliad sydd wedi cael ei gomisiynu. Rhaid i ni ofalu rhag awgrymu nad oes gan y bobl hynny gyfrifoldebau eu hunain. Fel y bydd Kirsty Williams yn gwybod, mae Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cryfhau llinellau atebolrwydd i lefel byrddau sefydliadau sydd ag un contract ac sydd yn awr yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau y maent yn cael eu talu amdanynt. Ond bydd y Bil hefyd yn cryfhau, ac wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol credaf fod lle i gryfhau ymhellach, y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau comisiynu. Lle y mae awdurdodau lleol yn contractio gydag eraill i ddarparu gofal, credaf ei bod yn rhesymol disgwyl iddynt gasglu gwybodaeth a fydd yn caniatáu iddynt wybod a yw'r arian y maent yn ei wario yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



13:50

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. You're absolutely right; there is no excuse for care companies to be scheduling calls in such a way that it makes it impossible for an individual carer to spend the time they're supposed to spend with an individual if their next call is a number of miles away and they're supposed to reach it in a matter of minutes. It's inevitable then that care calls are skipped or shortened. But, Minister, commissioning is absolutely vital. We know that local authorities' budgets are being squeezed. In terms of commissioning, it was described to the committee that you can't plant a daffodil bulb and expect an exotic orchid to grow. If we don't get the commissioning right, then the care won't be right. Will you commit to look again at whether the role of commissioning, and the inspection of commissioning, should be a key part of regulation, inspection and quality assurance in our social care system, and take the opportunity of the new Bill to implement that in Welsh law?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rydych yn hollol gywir; ni ellir esgusodi'r modd y mae cwmnïau gofal yn trefnu galwadau yn y fath fodd nes ei gwneud yn amhosibl i ofalwr unigol dreulio'r amser y maent i fod i'w dreulio gydag unigolyn os yw eu galwad nesaf nifer o filltiroedd i ffwrdd a'u bod i gyrraedd yno mewn mater o funudau. Mae'n anochel, felly, bod galwadau gofal yn cael eu hepgor neu eu cwtogi. Ond Weinidog, mae comisiynu yn gwbl hanfodol. Rydym yn gwybod bod cyllidebau awdurdodau lleol dan bwysau. O ran comisiynu, fe'i disgrifiwyd i'r pwyllgor fel hyn: ni allwch blannu bwlb cennin Pedr a disgwyl i degeirian egsotig dyfu. Os nad ydym yn comisiynu'n gywir, yna ni fydd y gofal yn gywir. A wneuch chi ymrwymo i edrych eto i weld a ddylai rôl comisiynu, ac arolygu comisiynu, fod yn rhan allweddol o reoleiddio, arolygu a sicrhau ansawdd yn ein system gofal cymdeithasol, a manteisio ar gyfle'r Bil newydd i weithredu hynny yng nghyfraith Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Llywydd, I believe that the Bill already strengthens the obligations on commissioners, both in the discharge of their duties and the way they will be inspected against that discharge, and in the way that that inspection will be reported in ways that members of the public will be able to see, but I'm alert to the debate that has gone on already and will be further pursued in the Health and Social Care Committee. As I said in my earlier answer, I don't want to suggest this afternoon that I don't think there are ways in which that could be further strengthened.

Wel, Lywydd, rwy'n credu bod y Bil eisoes yn cryfhau'r rhwymedigaethau ar gomisiynwyr o ran y modd y cyflawnant eu dyletswyddau, y ffordd y caiff eu cyflawniad o'r dyletswyddau hynny eu harolygu, ac yn y modd y cyflwynir adroddiadau ar yr arolygiadau mewn ffyrdd y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld, ond rwy'n effro i'r ddadl a gafwyd eisoes ac a fydd yn parhau eto yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fel y dywedais yn fy ateb cynharach, nid wyf am awgrymu'r prynhawn yma nad wyf yn meddwl bod yna ffyrdd y gellid cryfhau hynny ymhellach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a oes gennych chi unrhyw ffigur penodol o'r nifer o nyrsys yng Nghymru a fydd yn gorfod gadael y Deyrnas Gyfunol unwaith y daw rheolau mewnfudo newydd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i rym, sy'n golygu na fydd neb sy'n ennill llai na £35,000 y flwyddyn yn cael aros yn y Deyrnas Gyfunol, ac sy'n gweithio i'n NHS ni? Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi amcangyfrif y gall hyn olygu rhyw 1,000 o nyrsys yng Nghymru'n gorfod gadael dros gyfnod. A oes gennych chi ffigur penodol rydych chi'n gwybod amdano?

Minister, do you have any specific figures on the number of nurses in Wales who will have to leave the UK once the new rules on immigration, imposed by the UK Government, come into force, which will mean that no-one earning less than £35,000 per annum will be able to stay in the UK, working for our NHS? The Royal College of Nursing has estimated that this could mean around 1,000 nurses in Wales having to leave over a period of time. Do you have a specific figure that you are aware of?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, I'm very happy to publish a figure for Members to see. I do have figures from most health boards around Wales. They don't at the moment suggest anything like the number that the Royal College of Nursing has suggested. For that reason, I've asked my officials to go back to our local health boards and to ask them to interrogate the data again to ensure that we can be confident in what they say. It's important, Llywydd, to be clear that it is not only health boards that will be employing nurses in this position. The care home sector that we've just been discussing may well be more vulnerable to this absurd rule that we are facing. It makes absolutely no sense at all, Llywydd, it seems to me, for nurses who've committed themselves to working here in Wales, who've often been trained by the Welsh NHS in new skills, to find themselves arbitrarily at a six-year period with the threat of deportation hanging over their heads, when we need to go on using their skills here and they are prepared to go on offering them.

Llywydd, rwy'n hapus iawn i gyhoeddi ffigur i'r Aelodau ei weld. Mae gennyf ffigurau gan y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd ledled Cymru. Nid ydynt ar hyn o bryd yn awgrymu unrhyw beth tebyg i'r nifer y mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi'i awgrymu. Am y rheswm hwnnw, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion ddychwelyd at ein byrddau iechyd lleol i ofyn iddynt archwilio'r data eto i sicrhau y gallwn fod yn hyderus ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddweud. Mae'n bwysig, Llywydd, i ni fod yn glir nad byrddau iechyd yn unig a fydd yn cyflogi nyrsys yn y sefyllfa hon. Efallai bod y sector cartrefi gofal rydym newydd fod yn ei drafod yn fwy agored i niwed yn sgil y rheol hurt rydym yn ei hwynebu. Llywydd, mae'n ymddangos i mi nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl fod nyrsys sydd wedi ymrwmo i weithio yma yng Nghymru, sy'n aml iawn wedi cael hyfforddiant mewn sgiliau newydd gan y GIG yng Nghymru, ar ôl cyfnod o chwe blynedd yn wynebu bygythiad mympwyol o gael eu hanfon o'r wlad, pan fo angen i ni barhau i ddefnyddio eu sgiliau yma a hwythau'n barod i barhau i'w cynnig.

13:53

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, diolch am yr ateb. Rwy'n gobeithio y byddwch chi mewn sefyllfa i fod yn cyhoeddi ffigurau sydd â rhywfaint o hyder yn y ffigurau hynny er mwyn i ni gael deall maint y broblem. Rwy'n cytuno gyda chi'n llwyr ei bod hi'n gyfan gwbl anghyfrifol i chi fel Llywodraeth, a ninnau fel Cynulliad Cenedlaethol fan hyn, i fod yn colli nyrsys sydd wedi penderfynu eu bod nhw eisiau gwasanaethu yn ein NHS ni drwy benderfyniad Llywodraeth San Steffan. Wrth gwrs, mae yna angen am fwy o nyrsys yng Nghymru hyd yn oed heb y broblem yma—2,500 yw ffigwr yr RCN ar hynny. Rwy'n gwybod eich bod chi wedi cyhoeddi rhywfaint yn barod o lefydd hyfforddiant ychwanegol, ond nid yw'n mynd i gwrdd o gwbl â'r ffigwr hwnnw o 2,500 penodol sydd eu hangen yn ychwanegol. Felly, beth yw'ch cynlluniau chi i fynd i'r afael â maint y dasg o hyfforddi mwy o nyrsys yma yng Nghymru?

Minister, thank you for the answer. I hope you're in a position to publish figures with a degree of confidence in those figures so that we have to understand the scale of the problem. I agree with you completely that it is completely irresponsible for you as a Government, and we as the National Assembly here, to be losing nurses who have decided that they want to serve in our NHS by Westminster Government decision. Of course, there is a need for more nurses in Wales even without this problem—the RCN's figure there on is 2,500. I know that you've already published some additional training places, but it is not going to meet at all with that figure of 2,500 specific needed in addition. So, what are your plans to tackle the scale of the task of training more nurses in Wales?

13:54

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n cydnabod y ffaith bydd yn rhaid i ni hyfforddi mwy o bobl i weithio yn yr NHS yma yng Nghymru. Rwy'n mynd i godi'r nifer o bobl sy'n mynd mewn i'r colegau i ddechrau ar y broses o nyrsio gan fwy na 20 y cant yn y flwyddyn nesaf.

I acknowledge the fact that we will have to train more people to work in the NHS here in Wales. I will increase the number of people entering the colleges to start the process of nursing by more than 20 per cent in the next year.

Yr ail beth yr ydym wedi ei wneud yma yng Nghymru yw rhoi mwy o bwyslais ar beth maen nhw'n ei alw'n 'return to practice'. Rwyf wedi dweud wrth bob prifysgol yma yng Nghymru sydd yn rhedeg cyrsiau o'r math—. Rwyf wedi codi'r cap ar y cyrsiau hynny i gyd. Os ydynt yn gallu recriwtio unrhyw berson sydd â diddordeb mewn dod yn ôl i weithio yn yr NHS, maen nhw'n gallu recriwtio unrhyw berson sy'n fodlon gwneud hynny.

The second thing that we have done here in Wales is to place greater emphasis on what they call 'return to practice'. I have told every university here in Wales that run such courses—. I've raised the cap on all those courses and if they can recruit any person who is interested in returning to work within the NHS, then they can recruit any person who's willing to do that.

- 13:55 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Lle mae'r angen am nyrsys ar ei fwyaf aciwt yw yn y sector gymunedol, ac yn y sector honno hefyd lle mae nyrsys yn gweithio mewn meddygfeydd lleol. Rwy'n credu bod angen rhaglen benodol ar gyfer recriwtio a denu nyrsys yn y sector yma, ac mae'r RCN yn dweud hynny hefyd. A oes gennych chi unrhyw fwrriad i edrych yn benodol ar gynyddu nifer y nyrsys yn y sector gymunedol, gan gofio, wrth gwrs, y bydd y Cynulliad hwn, o bosibl, yn pasio Deddf yn y dyfodol agos a fydd yn rhoi gofyniad ar fyrdau iechyd i gael lefel ddiogel o staffio mewn ysbytai, a allai gael sgil-effaith ar nyrsys yn y gymuned?
- Where the need for nurses is most acute is in the community sector, and in that sector also where nurses work in local surgeries. I think we need a specific recruitment programme to attract nurses to this sector, and the RCN reinforced that. Do you have any intention of looking specifically at enhancing the number of nurses in the community sector, bearing in mind of course that this Assembly may pass legislation in the near future that will provide a requirement for health boards to have a safe staffing level in hospitals, which could have an impact on community nurses?
- 13:56 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Lwydd, rwyf wedi darllen beth mae'r RCN wedi'i ddweud. Rwyf yn gallu gweld yr achos y maen nhw'n ei greu. Yn y cynllun yr ydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer gofal sylfaenol, mae lot o gyfleoedd yn y cynllun i dyfu nifer y nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned ac i adeiladu ar y sgiliau sydd gan bobl sy'n gweithio yno yn barod, ac i greu mwy o gyfleoedd i bobl sy'n gweithio yn y maes hwn yn awr mewn ysbytai, er enghraifft, i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt yn barod yn y gymuned ac mewn gofal sylfaenol. Nid wyf wedi meddwl eto am gynllun arbennig i wneud hynny, ond rwyf yn hapus i feddwl am y pwynt y mae'r Aelod wedi'i wneud y prynhawn yma.
- Presiding Officer, I've read what the RCN have stated and I can see the case that they make. In the scheme that we have announced for primary care, there are many opportunities in the scheme to grow the number of nurses working within the community and also to build on the skills that people already working in that sector have, and to create more opportunities for people working in this field now, in hospitals, for example, to use the skills they already have in the community and in primary care. I haven't yet thought of a particular scheme to do that, but I'm happy to consider the point that the Member has made this afternoon.
- 13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Elin Jones.
- Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Elin Jones.
- Brechiad yn erbyn yr Eryr** **The Shingles Vaccine**
- 13:57 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canran o bobl gymwys sydd wedi cael brechiad yn erbyn yr eryr? OAQ(4)0615(HSS)*
- 3. Will the Minister provide an update on what percentage of eligible people have been vaccinated against shingles? OAQ(4)0615(HSS)*
- 13:57 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr am y cwestiwn. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 51.6 y cant o'r bobl cymwys 70 oed ar draws Cymru wedi cael brechiad yn erbyn yr eryr yn ystod y flwyddyn 2014-15.
- Thank you very much for this question. The latest available data indicate that 51.6 per cent of eligible people aged 70 years had received the shingles vaccination across Wales during the year 2014-15.
- 13:57 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae eich ffigyrau chi yn fwy diweddar na'n rhai i achos 41 y cant oedd y ffigwr a oedd gyda fi. Beth bynnag am hynny, mae yna yn dal 49 y cant o bobl cymwys heb gael y brechiad hwn. Y gwendid yn y system bresennol, y byddwn i'n dweud, yw nad yw llythyrau penodol yn cael eu hanfon at unigolion i ddenu nhw i apwyntiadau mewn meddygfeydd lleol i gael y brechiad hwn, o ran y bobl sy'n gymwys. Felly, a wnewch chi gael trafodaeth gyda'r byrdau iechyd i'w hannog i fod yn fwy systematig ynglŷn â sut y maen nhw'n denu pobl i fod yn ymwybodol eu bod yn gymwys ar gyfer y brechiad pwysig hwn?
- Your figures are more up to date than mine because 41 per cent was the figure that I had. But, disregarding that, there are still 49 per cent of eligible people who haven't received this vaccination. The weakness in the current system, I would say, is that specific letters aren't issued to individuals to encourage them to come to appointments at local surgeries to have this vaccination, for those eligible. So, will you have a discussion with the health boards to encourage them to be more systematic in the way they attract people and make people aware of their eligibility for this important vaccination?

13:58	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Wrth gwrs, rwy'n hapus i siarad â'r byrddau iechyd ar y pwnt hwnnw. Beth maen nhw'n dweud wrthyf i yw bod nifer fawr o bobl sy'n fwy na 70 oed yn dod mewn i weld y meddygon teulu yn barod, heb orfod anfon llythyrau atynt am y 'shingles vaccine' yn arbennig. Mae mwy na hanner y bobl wedi cael y 'vaccine' yn barod. Rydym yn gwneud yn well yma yng Nghymru nag y maen nhw'n ei wneud yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Mae'r cyngor yr wyf i'n ei gael yn awgrymu, dros y flwyddyn sydd i ddod, pan fydd pobl yn fwy ymwybodol bod rhywbeth ar gael nawr am y 'shingles', bydd y nifer yn codi.</p>	<p>Of course, I'm happy to speak to the health boards on that point. What they tell me is that a great number of people over the age of 70 come in to see their GPs already, without having to be issued letters telling them about the shingles vaccine specifically. More than half the people have already received the vaccine. We are doing better here in Wales than in Scotland, England or Northern Ireland. The advice that I've received suggests that, over the ensuing year, when people will be more aware that something is now available for shingles, the number will rise.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:59	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, on the subject of new additions to the vaccination programme, will you confirm the arrangements for the new meningitis B vaccine and when it would start in Wales?</p>	<p>Weinidog, ynglŷn â'r ychwanegiadau newydd i'r rhaglen frechu, a wnewch chi gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y brechlyn llid yr ymennydd B newydd, a phryd y byddai'n dechrau yng Nghymru?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:59	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Yes, I'm happy to do that, Llywydd. I announced back in April that we would introduce the new meningitis B vaccination from this autumn, expecting it to begin in September, and making it available to infants of two, four and 12 months of age.</p>	<p>Gwnaf, rwy'n hapus i wneud hynny, Lywydd. Cyhoeddais yn ôl ym mis Ebrill y byddem yn cyflwyno'r brechiad llid yr ymennydd B newydd o hydref eleni, gan ddisgwyl iddo ddechrau fis Medi, a sicrhau ei fod ar gael i fabanod dau, pedwar a 12 mis oed.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:59	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Janet Haworth.	Janet Haworth.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:59	<b>Janet Haworth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Withdrawn.	Tynnwyd yn ôl.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:59	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Mike Hedges.	Mike Hedges.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:00	<b>Mike Hedges</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I speak as someone who very strongly supports vaccination, and I remember what happened with the measles outbreak in the Swansea area recently. Just like shingles and meningitis B, a new vaccine has been introduced for the rotavirus. What success has been demonstrated to date in getting people to take that up?</p>	<p>Rwy'n siarad fel rhywun sy'n cefnogi brechu'n gryf iawn, ac rwy'n cofio beth ddigwyddodd gyda'r achosion o'r frech goch yn ardal Abertawe yn ddiweddar. Yn union fel yr eryr a llid yr ymennydd B, mae brechlyn newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer y rotafirws. Pa lwyddiant a welwyd hyd yn hyn o ran cael pobl i'w dderbyn?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:00	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Well, Llywydd, Mike Hedges is very right to remind us of the risks that are run when vaccination programmes do not succeed in the way we would like them to, but the rotavirus vaccine in fact, which was introduced in 2013, has been a remarkable success. Uptake of it is well over 90 per cent now. There's been a dramatic reduction, an 88 per cent reduction, in confirmed rotavirus infections in children aged younger than one year and a substantial reduction, about 20 per cent, in average weekly GP consultations for gastroenteritis in children aged one to four years. This has resulted in fewer children needing to be admitted to hospital, which, at that very young age, brings all sorts of other difficulties with it, and it's a very good example indeed of what a new vaccination can provide.</p>	<p>Wel, Lywydd, mae Mike Hedges yn iawn i'n hatgoffa o'r risgiau a wynebier pan nad yw rhaglenni brechu yn llwyddo yn y ffordd y byddem yn hoffi iddynt ei wneud, ond mae'r brechlyn rotafirws, a gyflwynwyd yn 2013, wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae'r nifer sy'n ei gael ymhell dros 90 y cant nawr. Gwelwyd gostyngiad dramatig o 88 y cant yn nifer yr achosion a gadarnhawyd o heintiad rotafirws mewn plant iau na blwydd oed a gostyngiad sylweddol, tua 20 y cant, yn y nifer wythnosol o ymgynghoriadau meddygon teulu yn ymwneud â gastro-enteritis mewn plant rhwng blwydd a phedair blwydd oed. Mae hyn wedi arwain at lai o blant yn gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty, sy'n creu pob math o anawsterau eraill yn ei sgil yn achos plant mor ifanc ac mae'n enghraifft dda iawn o'r hyn y gall brechiad newydd ei wneud.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

## Asesiadau a Thriniaeth Iechyd Meddwl

## Mental Health Assessment and Treatment

- 14:01 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*4. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau a thriniaeth iechyd meddwl yng Nghymru?* OAQ(4)0618(HSS) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:01 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*  
I thank the Member for the question. We introduced waiting times for assessment and treatment by local primary mental health support services in 2012. From April 2013 to March 2015, the all-Wales performance against our 28-day measure for referral to assessment has improved from 50 per cent to over 80 per cent, and, against the 56-day assessment measure, from 82 per cent to 87 per cent. Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:01 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that answer, Deputy Minister. You highlight there primary care as an issue, and Gofal and the Royal College of General Practitioners have both recently produced reports on patient and practitioner experiences in primary care mental health services, and they both identified barriers existing there on waiting times. They've also called, therefore, for more support for GPs and professionals in primary care so that they have confidence and support, knowledge and capability, to actually help patients with mental health issues. What's the Welsh Government doing to actually support that call and to ensure that there is a continuing improvement in primary care mental health services? Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 14:02 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank the Member for the follow-up question. We have a constructive relationship with the Royal College of General Practitioners in properly equipping GPs with knowledge and up-to-date expertise in providing support to their patients. This is a broader point about the whole primary care team, and, in fact, in Wales, we have a very positive story to tell, that each party in this Chamber can take some credit for following the passage of the Measure and its implementation, on mental health. Recently, the NHS in England has been talking about needing to step up their own performance on this measure. But, actually, they need to catch up with Wales, because Gofal and a range of other charities recognise that we are in a much better position in Wales. We're seeing improvement in performance in Wales, but there is certainly no complacency about the challenge yet to come about how we continue to invest in, and improve, mental health services across Wales. Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 4. What action is being taken to reduce waiting times for mental health assessment and treatment in Wales?* OAQ(4)0618(HSS)
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Cyflwynasom amserau aros ar gyfer asesiadau a thriniaeth gan wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn 2012. O fis Ebrill 2013 i fis Mawrth 2015, mae perfformiad Cymru gyfan yn erbyn ein mesur 28 diwrnod ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio ac asesu wedi gwella o 50 y cant i dros 80 y cant, ac yn erbyn y mesur asesu 56 diwrnod o 82 y cant i 87 y cant.
- Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Rydych yn tynnu sylw at ofal sylfaenol fel problem, ac mae Gofal a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi cynhyrchu adroddiadau ar brofiadau cleifion ac ymarferwyr ym maes gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol yn ddiweddar, ac mae'r ddau adroddiad wedi nodi rhwystrau'n ymwneud ag amseroedd aros. Felly, maent hefyd wedi galw am fwy o gefnogaeth i feddygon teulu a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal sylfaenol, i sicrhau bod ganddynt hyder a chefnogaeth, gwybodaeth a gallu, i helpu cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r galw a sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol?
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn dilynol. Mae gennym berthynas adeiladol gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol o ran cymhwyso meddygon teulu'n briodol â'r wybodaeth a'r arbenigedd cyfredol ar gyfer darparu cymorth i'w cleifion. Mae hwn yn bwynt ehangach am y tîm gofal sylfaenol cyfan ac yn wir, yng Nghymru, mae gennym stori gadarnhaol iawn i'w hadrodd, a gall pob plaid yn y Siambr hon gymryd peth clod amdani yn dilyn taith y Mesur iechyd meddwl a'i weithrediad. Yn ddiweddar, bu'r GIG yn Lloegr yn siarad am yr angen i wella eu perfformiad eu hunain ar y mesur hwn. Ond mewn gwirionedd, maent yn llusgo ar ôl Cymru, gan fod Gofal ac amryw o elusennau eraill yn cydnabod ein bod mewn sefyllfa lawer gwell yng Nghymru. Rydym yn gweld gwelliant yn y perfformiad yng Nghymru, ond yn sicr ni cheir hunanfodddhad ynglŷn â'r her sydd eto i ddod o ran sut y gallwn barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru, a sut i'w gwella.

- 14:03 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll know that some of the lower-level interventions can be the most effective, particularly for those people who have low-level mental health issues. One of the very useful tools, which is expanding in popularity, is mindfulness. It's been found to be extremely effective—more so than drugs in many respects. What action is the Welsh Government taking to ensure that there is equal access to mindfulness in all parts of Wales for those who could benefit from it?
- Weinidog, fe wyddoch y gall rhai o'r ymyriadau lefel is fod yn fwy effeithiol na dim, yn enwedig i bobl â lefel isel o broblemau iechyd meddwl. Un o'r offer defnyddiol iawn, sy'n cynyddu yn ei boblogrwydd, yw ymwybyddiaeth ofalgar. Canfuwyd ei fod yn hynod o effeithiol—yn fwy felly na chyffuriau mewn sawl ffordd. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod mynediad cyfartal i ymwybyddiaeth ofalgar ym mhob rhan o Gymru ar gyfer y rhai a allai elwa ohono?
- 14:03 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the question. I think you make a sensible and constructive point about the difference between pharmaceutical intervention and talking therapies, and how we support people to cope with mental health challenges at lower levels to try and avoid further intervention. I've actually had an invite to go and visit the mindfulness centre in Bangor to see the work that they're doing, and I look forward to visiting that institution to see more of their work.
- Diolch am y cwestiwn. Rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt synhwyrol ac adeiladol ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng ymyrraeth fferyllol a therapïau siarad, a sut rydym yn cynorthwyo pobl i ymdopi â heriau iechyd meddwl ar lefelau is i geisio osgoi ymyrraeth bellach. Rwyf wedi derbyn gwahoddiad i fynd i ymweld â'r ganolfan ymwybyddiaeth ofalgar ym Mangor i weld y gwaith y maent yn ei wneud, ac edrychaf ymlaen at ymweld â'r sefydliad i weld mwy o'u gwaith.
- 14:04 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I've raised before the issue of a constituent of mine whose son waited 15 months for his first appointment, and it's since emerged that he is on the autistic spectrum. The reason for this delay, say Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, is that Cwm Taf Local Health Board is in charge of child and adolescent mental health services, but they've had recruitment issues of their own. I wrote to ABMU on 24 March with further questions from my constituent, and I still haven't had a reply, bar a holding reply on 5 May. What is your Government doing if ABMU and other potential health boards are not responding to concerns from Assembly Members about very real issues with regard to mental health?
- Weinidog, rwyf wedi sôn yn flaenorol am un o fy etholwyr y bu'n rhaid i'w mab aros 15 mis am ei apwyntiad cyntaf, ac ers hynny daeth yn amlwg ei fod ar y sbectrwm awtistig. Y rheswm am yr oedi, yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yw mai Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod, ond maent wedi cael problemau recriwtio eu hunain. Ysgrifennais at Brifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 24 Mawrth gyda chwestiynau pellach gan fy etholwr, ac rwy'n dal i aros am ateb, ar wahân i ateb dros dro ar 5 Mai. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud os nad yw Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a byrddau iechyd eraill o bosibl, yn ymateb i bryderon gan Aelodau'r Cynulliad am broblemau go iawn gyda'r ddarpariaeth iechyd meddwl?
- 14:04 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for the question. There are two points there, I think. One is the point about the service itself and what we want to do to see the service improve, and the second is a point about responding to concerns that are raised. If you want to forward me the correspondence, I'll happily take that up with Cwm Taf, who are leading on this particular area.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae dau bwynt yno, rwy'n meddwl. Un yw'r pwynt am y gwasanaeth ei hun a'r hyn rydym am ei wneud i weld y gwasanaeth yn gwella, a'r ail yw'r pwynt ynglŷn ag ymateb i bryderon sy'n codi. Os ydych am anfon yr ohebiaeth ataf, byddaf yn hapus i godi'r mater gyda Chwm Taf, sy'n arwain ar y maes penodol hwn.

But, on the challenge about the service itself, we've recently announced—the Minister announced—extra investment in this area, so we're recognising the need to provide more support in this particular area, and the priority it has. There's also a challenge about how the service is used, because we recognise that about 30 per cent of CAMHS referrals don't need any support of any kind at all, and about 35 per cent need fairly low-level intervention that's provided outside CAMHS. So, there's a challenge about how the service is used, and about how we use the proper resources that exist there. If we took out those inappropriate referrals, I think you, and myself and other Members, would find fewer concerns and complaints raised about the timeliness of the service that CAMHS provides for those people who do really need it.

Ond o ran yr her ynglŷn â'r gwasanaeth ei hun, rydym wedi cyhoeddi'n ddiweddar— cyhoeddodd y Gweinidog— fuddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn, felly rydym yn cydnabod yr angen i roi mwy o gymorth i'r maes, a'r flaenoriaeth a roddir iddo. Mae yna her hefyd o ran y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio, gan ein bod yn cydnabod nad oes angen cefnogaeth o unrhyw fath o gwbl ar 30 y cant o atgyfeiriadau gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod (CAMHS), ac ymyriad lefel isel a ddarperir y tu allan i CAMHS sydd ei angen ar oddeutu 35 y cant o atgyfeiriadau. Felly, mae yna her ynglŷn â sut y caiff y gwasanaeth ei ddefnyddio, ac ynglŷn â sut y defnyddiwn yr adnoddau priodol sydd ganddo. Pe baem yn diystyru'r atgyfeiriadau amhriodol, rwy'n meddwl y byddech chi a minnau a'r Aelodau eraill yn gweld llai o bryderon a chwynion yn cael eu mynegi ynghylch amseroldeb y gwasanaeth y mae CAMHS yn ei ddarparu ar gyfer y bobl sydd ei angen mewn gwirionedd.

14:05 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych chi wedi cyfeirio at gyfeiriadau amhriodol i CAMHS o ryw 65 y cant. A gaf i ofyn i chi, felly, wrth feddwl am arolwg ATL yr wythnos yma, sy'n dweud bod 90 y cant o athrawon yn gweld cynnydd o ran problemau iechyd meddwl yn y dosbarth, a 32 y cant ohonyn nhw'n dweud nad ydyn nhw wedi cael unrhyw fath o hyfforddiant ynglŷn â chynabod rhai o'r problemau yna—. Mi wnaeth y Gweinidog addysg ddoe ddatganiad ar hyfforddiant athrawon. A ydych chi neu'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw fath o drafodaethau ynglŷn â chynnwys cydnabod afiechydon iechyd meddwl o fewn hyfforddiant athrawon er mwyn i ni fynd i'r afael efo'r broblem yma o gyfeiriadau amhriodol i CAMHS yn y lle cyntaf?

You've referred to inappropriate referrals to CAMHS of some 65 per cent. May I ask you, therefore, in considering the Association of Teachers and Lecturers' review this week, which says that 90 per cent of teachers have seen an increase in terms of mental health problems in the classroom, and 32 per cent say that they have not had any sort of training in terms of identifying some of those problems—. The education Minister made a statement yesterday on teacher training. Have you or the Minister held any discussions on including identifying mental health problems within teacher training so that we can tackle this problem of inappropriate referrals to CAMHS in the first place?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:06 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think you raise an interesting point. It's partly about how we equip people to deal with challenges when they're presented. As you know, we've invested in a school counselling service. It has a significant spread across schools in every community across Wales, and that's about trying to deal with those referrals at an earlier level. In terms of how we equip the teaching staff themselves to recognise and identify problems, there are a range of solutions already that exist. I've seen them myself. I've had discussions with headteachers about the value they place on the school counselling service and how that's helped them in dealing with the whole family, because many of the concerns that are then raised are about whole-family problems and not simply about individual issues for individual children, separated out from that context. But we'll continue to have discussions with the education Minister about what is the most effective way to have a service that is school-based, to identify problems at an earlier stage to avoid those inappropriate referrals to CAMHS that you refer to.

Rwy'n meddwl eich bod yn crybwyll pwynt diddorol. Mae'n ymwneud yn rhannol â'r ffordd rydym yn cyfarparu pobl i ddelio â'r heriau wrth iddynt ddod yn amlwg. Fel y gwyddoch, rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion. Mae ganddo gyrhaeddiad sylweddol ar draws ysgolion ym mhob cymuned ledled Cymru, ac mae hynny'n ymwneud â cheisio ymdrin â'r atgyfeiriadau hynny ar lefel gynharach. O ran sut yr awn ati i sicrhau bod y staff addysgu eu hunain yn gallu adnabod a nodi problemau, ceir amrywiaeth o atebion sy'n bodoli eisoes. Rwyf wedi eu gweld fy hun. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda phenaethiaid ynghylch y gwerth y maent yn ei osod ar y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a sut y mae wedi'u helpu i ymdrin â'r teulu cyfan, gan fod llawer o'r pryderon sy'n codi yn ymwneud â'r teulu cyfan ac nid yn broblemau unigol gan blant unigol, mewn cydestun ar wahân. Ond byddwn yn parhau i gael trafodaethau gyda'r Gweinidog Addysg ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o gael gwasanaeth wedi'i leoli yn yr ysgol ar gyfer nodi problemau yn gynharach i osgoi'r atgyfeiriadau amhriodol i CAMHS y cyfeiriwch atynt.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## **Amseroedd Ymateb Ambiwllansys (Gorllewin De Cymru)**

## **Ambulance Response Times (South Wales West)**

- 14:07 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- 5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0609(HSS)*
- 14:07 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I thank the Member for the question. We have been encouraged by general improvements in responsiveness in South Wales West, although we recognise there is variation in performance. I expect health boards to continue to work with the ambulance service and partners to deliver timely and quality care to patients across Wales. We should not forget, however, that the response times do not tell us about the quality of care provided by ambulance staff.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydym wedi ein calonogi gan welliannau cyffredinol yn yr amseroedd ymateb yng Ngorllewin De Cymru, er ein bod yn cydnabod bod y perfformiad yn amrywio. Rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd barhau i weithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans a phartneriaid i ddarparu gofal amserol ac o safon i gleifion ledled Cymru. Fodd bynnag, ni ddylem anghofio nad yw'r amseroedd ymateb yn dweud wrthym ynglŷn ag ansawdd y gofal a ddarperir gan staff ambiwlans.
- 14:08 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Well, thank you for that answer, Minister. I agree with you in terms of the quality of the ambulance staff in this particular regard. Morrision accident and emergency department currently has the worst waiting times in Wales, with 61 per cent of patients seen within four hours, against the 95 per cent target. This is having an impact on ambulance response times in the Swansea area, which is down to 61 per cent in the current May figures. I've also had casework where people have had to wait several hours for ambulances because of ambulances stacking up outside Morrision Hospital. Can I ask you what action is being taken to deal with that particular problem?
- Wel, diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Rwy'n cytuno â chi o ran ansawdd y staff ambiwlans yn hyn o beth. Ar hyn o bryd, adran ddamweiniau ac achosion brys Treforys sydd â'r amseroedd aros gwaethaf yng Nghymru, gyda 61 y cant o gleifion yn cael eu gweld o fewn pedair awr, yn erbyn y targed o 95 y cant. Mae hyn yn cael effaith ar amseroedd ymateb ambiwlans yn ardal Abertawe, sydd i lawr i 61 y cant yn y ffigurau cyfredol ar gyfer mis Mai. Rwyf hefyd wedi cael gwaith achos lle y mae pobl wedi gorfod aros sawl awr am ambiwlans oherwydd bod ambiwlansys yn pentyrru y tu allan i Ysbyty Treforys. A gaf fi ofyn i chi pa gamau sydd ar waith i ddelio â'r broblem hon?
- 14:08 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I thank the Member for the question, and again, you recognise part of a system issue about where we have handover challenges in some of our hospitals. I'm pleased to see that the handover guidance introduced at the end of February/start of March is having an impact across Wales, and we've seen handover delays fall consistently since that guidance was introduced. There is a particular challenge around Morrision, and I met with the health board on Monday this week to run through some of those challenges and to understand the expected action that they will take, their understanding of the challenge, and what that then means in terms of the rest of the care system, both scheduled care as well as unscheduled care, if they're not able to resolve that system, and, in particular, its impact on neighbouring health board areas that are not able to promptly release ambulances at Morrision. So, this is a matter I am already taking action on, and I will be going back to that health board in coming weeks to make sure they are taking the progress they've outlined they would take.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn, ac unwaith eto, rydych yn cydnabod rhan o broblem gyda'r system lle y mae rhai o'n hysbytai yn wynebu heriau gyda throsglwyddo cleifion. Rwy'n falch o weld bod y canllawiau trosglwyddo a gyflwynwyd ddiwedd mis Chwefror/ddechrau mis Mawrth yn cael effaith ledled Cymru, ac rydym wedi gweld lefelau oedi wrth drosglwyddo cleifion yn gostwng yn gyson ers cyflwyno'r canllawiau. Mae Treforys yn creu her arbennig, a chyfarfûm â'r bwrdd iechyd ddydd Llun yr wythnos hon i fynd drwy rai o'r heriau ac i ddeall y camau y disgwylir iddynt eu cymryd, eu dealltwriaeth o'r her, a beth y mae hynny'n ei olygu wedyn o ran gweddill y system ofal, gofal wedi'i drefnu yn ogystal â gofal heb ei drefnu, os nad ydynt yn gallu datrys y broblem, ac yn benodol, ei heffaith ar ardaloedd byrddau iechyd cyfagos nad ydynt yn gallu rhyddhau ambiwlansys yn brydlon yn Nhreforys. Felly, mae'n fater rwyf eisoes yn gweithredu yn ei gylch, a byddaf yn dychwelyd at y bwrdd iechyd yn ystod yr wythnosau nesaf i sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd y maent wedi dweud y byddent yn ei wneud.
- 14:09 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Morrision Hospital far too regularly has ambulances waiting outside. You only have to look at my Facebook page to see the copies of it that people are putting out. Obviously ambulance response times are slowed down by ambulances waiting outside hospitals. Why is inter-hospital movement of patients taking place when there is no available bed at the receiving hospital?
- Mae gan Ysbyty Treforys ambiwlansys yn aros y tu allan yn llawer rhy rheolaidd. Nid oes ond angen i chi edrych ar fy nhudalen Facebook i weld y copïau ohono y mae pobl yn eu dosbarthu. Yn amlwg, mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn cael eu harafu gan ambiwlansys yn aros y tu allan i ysbytai. Pam y caiff cleifion eu symud rhwng ysbytai pan nad oes gwely ar gael yn yr ysbyty sy'n eu derbyn?



14:10

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. The point about inter-hospital moves is broadly about people who need a step up in care or a step down in care but still need hospital-based care. What should happen is that the hospitals that are transferring patients should have a conversation at an early stage to make sure that a bed is available. However, if someone is taken in an emergency situation, then we recognise that people are taken to the most appropriate place for that care to be provided. I don't think this particular issue has a significant impact on improving ambulance response times or on the quality of care provided by the ambulance service, but it is something I'll pay particular attention to if there are specific examples you want to raise with me.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'r pwynt ynglŷn â symud cleifion rhwng ysbytai yn ymwneud yn fras â phobl sydd angen mwy o ofal, neu lai o ofal, ond sy'n dal i fod angen gofal mewn ysbyty. Yr hyn a ddylai ddigwydd yw bod yr ysbytai sy'n trosglwyddo cleifion yn cael sgwrs yn gynnar er mwyn sicrhau bod gwely ar gael. Fodd bynnag, os caiff rhywun ei symud mewn sefyllfa o argyfwng, yna rydym yn cydnabod bod pobl yn cael eu symud i'r lle mwyaf priodol ar gyfer darparu gofal o'r fath. Nid wyf yn meddwl bod y mater penodol hwn yn cael effaith sylweddol ar wella amseroedd ymateb ambiwlansys nac ar ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth ambiwlans, ond mae'n rhywbeth y byddaf yn rhoi sylw penodol iddo os oes gennych enghreifftiau penodol rydych am eu dwyn i fy sylw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I heard your answer to Peter Black, Deputy Minister, but I don't think the existence of guidance comes as much comfort to the 71-year-old woman who went into shock after waiting more than three hours for an ambulance in Swansea after she'd fallen and broken her arm, at a time when there were five ambulances queueing outside Morriston. That news, of course, coincided with the A&E stats that we heard from Peter Black. We've spent millions on the building development at Morriston hospital, and I'm not saying that some improvement wasn't needed, but can you explain to my constituents how coffee, fast food and stationary outlets help reduce A&E and ambulance waiting times?

Clywais eich ateb i Peter Black, Ddirprwy Weinidog, ond nid wyf yn credu bod bodolaeth canllawiau yn rhoi llawer o gysur i'r ddynes 71 oed a aeth i gyflwr o sioc ar ôl aros mwy na thair awr am ambiwlans yn Abertawe ar ôl iddi syrthio a thorri ei braich, ar adeg pan oedd pum ambiwlans yn ciwio y tu allan i Ysbyty Treforys. Mae'r newyddion hwnnw, wrth gwrs, yn cyd-daro â'r ystadegau ynghylch adrannau damweiniau ac achosion brys a glywsom gan Peter Black. Rydym wedi gwario miliynau ar y datblygiad yn Ysbyty Treforys, ac nid wyf yn dweud nad oedd angen rhywfaint o welliant, ond a allwch esbonio wrth fy etholwyr sut y mae coffi, bwyd cyflym a siopau papurau newydd yn helpu i leihau amseroedd aros adrannau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it's important we don't trivialise the issue here, and we recognise there's a really significant challenge in addressing the system issues around Morriston and the broader healthcare system in south-west Wales. That's why I met with the health board on Monday. I met not just with the chair and the chief executive, but with clinicians and members from the Welsh Ambulance Service NHS Trust, to ensure there's a proper understanding of the challenges they all face. It's partly about the back door as well, of course—about how people leave the hospital system. It's also about the appropriateness of people going in through the front door, through A&E, in any event.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni beidio â bychanu'r mater yma, ac rydym yn cydnabod bod yna her wirioneddol bwysig yn gysylltiedig â mynd i'r afael â'r problemau system yn Ysbyty Treforys a'r system gofal iechyd ehangach yn ne-orllewin Cymru. Dyna pam y cyfarfûm â'r bwrdd iechyd ddydd Llun. Cyfarfûm â'r cadeirydd a'r prif weithredwr, a hefyd gyda chlinigwyr ac aelodau o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, er mwyn sicrhau bod yna ddealltwriaeth briodol o'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'n ymwneud yn rhannol â'r drws cefn yn ogystal, wrth gwrs, â sut y mae pobl yn gadael system yr ysbyty. Mae hefyd yn ymwneud â pha mor briodol yw hi i bobl fynd i mewn drwy'r drws blaen, drwy'r adran ddamweiniau ac achosion brys, yn y lle cyntaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

This is a challenge that the health board recognise and they recognise they'll have regular contact with me until there is significant and sustained improvement. I'm pleased to say they recognise the scale of the challenge. The task now is to deliver the improvement they recognise needs to take place.

Mae'n her y mae'r bwrdd iechyd yn ei chydabod ac maent yn cydnabod y byddaf mewn cysylltiad rheolaidd â hwy hyd nes y ceir gwelliant sylweddol a pharhaus. Rwy'n falch o ddweud eu bod yn cydnabod maint yr her. Y dasg yn awr yw sicrhau'r gwelliannau y maent yn cydnabod sydd angen eu gwneud.

14:12

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

O edrych ar y data, mae'n edrych fel mae ardaloedd y Cymoedd ac ardaloedd mwy gwledig Gorllewin De Cymru sy'n dioddef fwyaf o beidio â chael ambiwlans mewn da bryd i gyrraedd yr ysbyty. A ydych wedi gwneud mwy o ymchwil i sut y gallwn fod yn fwy hyblyg gydag anfon cerbydau eraill i'r ardaloedd yma, er enghraifft, os nad yw'n rhy ddifrifol, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y driniaeth maen nhw ei angen mewn da bryd?

In looking at the data, it appears that Valleys areas and more rural areas in Wales are suffering more in terms of timely access to ambulances to get to hospital. Have you carried out any further research into how we can be more flexible in sending other vehicles to these areas, for example, if the case isn't too serious, so that we can ensure that people do get the treatment they need in time?

14:12

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I thank the Member for the question. I don't think it's as simple as saying that Valleys areas and rural areas have the most significant challenges. In some parts of rural Wales, the actual response times are significantly higher than the current target. On Red 1 performance, we've got really impressive performance on Red 1 calls, which are the most critical, having response rates of over 70 per cent across Wales. We are, however, looking at what can work. So, for example, the pilot work that is taking place in every local health board area is giving us different sorts of learning that will be assessed by the emergency ambulance services committee to understand its usefulness and its transferability.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Nid wyf yn credu ei fod mor syml â dweud mai ardaloedd y Cymoedd ac ardaloedd gwledig sy'n wynebu'r heriau mwyaf sylweddol. Mewn rhai rhannau o gefn gwlad Cymru, mae'r amseroedd ymateb yn sylweddol uwch na'r targed ar hyn o bryd. Ar berfformiad Coch 1, mae ein perfformiad o ran galwadau Coch 1, sef y lefel fwyaf difrifol, yn wirioneddol drawiadol gyda chyfraddau ymateb dros 70 y cant ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar yr hyn a all weithio. Felly, er enghraifft, mae'r gwaith peilot sy'n digwydd ym mhob ardal bwrdd iechyd lleol yn dysgu pethau gwahanol i ni a fydd yn cael eu hasesu gan y pwyllgor gwasanaethau ambiwlans brys i ddeall eu defnyddioldeb a'r modd y gellid eu trosglwyddo.

A good example is the work in Cwm Taf, which is not simply about return-to-footprint, but is actually about the different relationship they have with primary care and with other health professionals. So, those calls that are not Red 1 and Red 2 calls, how they're managed, made a real difference to the resource that's available. That's why that's been rolled out on an early basis, for example, in Carmarthen unitary authority, to try and ensure that some of that practice, and having a different relationship with those clinicians outside of the unscheduled care system, can actually lead to really significant improvements, getting the right patient to the right care at the right time. So, I'm positive about what that learning already tells us and to seeing the formal evaluation and then seeing that improvement, if it is a real and sustainable improvement, rolled out right across Wales.

Un enghraifft dda yw'r gwaith yng Nghwm Taf, nad yw'n fater syml o ddilyn yr un trywydd ag o'r blaen, ond sy'n ymwneud yn hytrach â'r berthynas wahanol sydd ganddynt â gofal sylfaenol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Felly, roedd y galwadau nad oeddent yn rhai Coch 1 a Coch 2, a'r modd y cânt eu rheoli, yn gwneud gwahaniaeth go iawn o ran yr adnoddau sydd ar gael. Dyna pam y cafodd hynny ei gyflwyno'n gynnar, er enghraifft, yn awdurdod unedol Caerfyrddin, er mwyn ceisio sicrhau bod rhai o'r arferion, a chael perthynas wahanol â'r clinigwyr y tu allan i'r system gofal heb ei drefnu, yn gallu arwain at welliannau gwirioneddol arwyddocaol, a mynd â'r claf cywir at y gofal cywir ar yr adeg gywir. Felly, rwy'n gadarnhaol ynghylch yr hyn y mae'r pethau a ddysgwyd eisoes yn ei ddweud wrthym ac yn edrych ymlaen at weld y gwerthusiad ffurfiol a gweld y gwelliant hwnnw, os yw'n welliant real a chynaliadwy, yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:14.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:14.*

## Gwasanaethau Gofal Cynradd

## Primary Care Services

14:14

**Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau gofal cynradd yng Nghymru? OAQ(4)0616(HSS)

6. Will the Minister outline Welsh Government plans to improve primary care services in Wales? OAQ(4)0616(HSS)

14:14 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the question. The Welsh national plan for primary care has been underpinned by £40 million-worth of new and recurrent funding from this financial year onwards to help achieve service sustainability, improve access and move services out of hospital and into the community. I intend to publish the supporting primary care workforce plan within the next few weeks.

Diolch am y cwestiwn. Mae cynllun cenedlaethol Cymru ar gyfer gofal sylfaenol wedi'i gefnogi gan £40 miliwn o arian newydd a rheolaidd o'r flwyddyn ariannol hon ymlaen, er mwyn helpu i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau, gwella mynediad a symud gwasanaethau allan o'r ysbyty i'r gymuned. Rwy'n bwriadu cyhoeddi'r cynllun ategol ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol yn yr wythnosau nesaf.

14:14 **Altat Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, GPs have a major role to play in reducing the burden on our hospitals' lab techs. Direct access to diagnostic services cuts the number of referrals, which, in turn, has a major impact on waiting times. What plans does your Government have to roll out direct access to GPs across Wales, knowing that some of the GPs' surgeries have access to CT and MRIs, but they have no say when they are referring urgent cancer patients who are downgraded by the clinicians?

Weinidog, mae gan feddygon teulu rôl bwysig i'w chwarae yn lleihau'r baich ar dechnegwyr labordy ein hysbytai. Mae mynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnostig yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau, sydd yn ei dro yn cael effaith fawr ar amseroedd aros. Pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i gyflwyno mynediad uniongyrchol i feddygon teulu ledled Cymru, gan wybod bod rhai meddygfeydd meddygon teulu â mynediad at domograffeg gyfrifiadurol ac MRI, ond nid oes ganddynt unrhyw lais pan fyddant yn atgyfeirio cleifion cancer brys sy'n cael eu hisraddio gan y clinigwyr?

14:15 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I understand the point that the Member makes about GPs having direct access to diagnostics. We do this on a once-for-Wales basis. We have a national informatics programme. I chair the national informatics board for Wales. We have had considerable success over the last 12 months in bringing on-stream a whole series of national infrastructure programmes. Amongst those are new ways in which GPs are able to use electronic means of referral, ordering tests and getting access to diagnostics. We share his ambition of making sure that GPs have better access to these services in the future.

Rwy'n deall y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud am feddygon teulu sydd â mynediad uniongyrchol at ddiagnosteg. Rydym yn gwneud hyn ar sail 'unwaith i Gymru'. Mae gennym raglen wybodeg genedlaethol. Rwy'n cadeirio bwrdd gwybodeg cenedlaethol Cymru. Rydym wedi cael cryn lwyddiant dros y 12 mis diwethaf yn dod â chyfres gyfan o raglenni seilwaith cenedlaethol yn weithredol. Ymhlith y rhain y mae ffyrdd newydd i feddygon teulu allu defnyddio dulliau electronig o atgyfeirio, archebu profion a chael mynediad at ddiagnosteg. Rydym yn rhannu ei uchelgais i sicrhau bod meddygon teulu yn cael gwell mynediad at y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

14:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Diolch yn fawr, Weinidog.

#### 4. Dadl ar Araith y Frenhines

*Deitholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones.*

#### 4. Debate on the Queen's Speech

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones.*

14:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Item 4 is the debate on the Queen's Speech, and I call on a member of the Business Committee to move the motion. Eitem 4 yw'r ddatl ar Araith y Frenhines, ac rwy'n galw ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5792 Rosemary Butler Motion NDM5792 Rosemary Butler

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru: The National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2015/2016. Notes the content of the UK Government's legislative programme 2015/2016.

*Cynigiwyd y cynnig.* *Motion moved.*

14:16	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Yn ffurfiol.	Formally.
14:16	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Thank you. It's my pleasure to welcome the Secretary of State for Wales to the Chamber this afternoon, and I now invite him to open the debate.	Diolch yn fawr. Mae'n bleser gennyf groesawu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Siambr y prynhawn yma, ac rwy'n ei wahodd yn awr i agor y ddadl.
14:16	<b>Stephen Crabb</b>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>Ysgrifennydd Gwladol Cymru / The Secretary of State for Wales</i>	
	Diolch, Mr Deputy Presiding Officer. May I begin by saying what a huge privilege it is for me to be here in this wonderful Senedd building this afternoon for this debate on the new UK Government's first legislative programme—a one-nation programme that seeks to strengthen the whole United Kingdom? This is my first opportunity to participate in Assembly proceedings and, in fact, it's my first ever time being in this Chamber. I'm pleased to bring with me the very good wishes of my two Parliamentary Under-Secretaries of State at the Wales Office, both formerly of this parish and who will be well-known to you all.	Diolch, Mr Dirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddweud cymaint o ffrind yw hi i fod yma yn adeilad gwych y Senedd y prynhawn yma ar gyfer y ddadl ar raglen ddeddfwriaethol gyntaf Llywodraeth newydd y DU—rhaglen un genedl sy'n ceisio cryfhau'r Deyrnas Unedig gyfan? Dyma fy nghyfle cyntaf i gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad ac yn wir, dyma'r tro cyntaf erioed i mi fod yn y Siambr. Rwy'n falch o gyfleu dymuniadau da iawn fy nau Is-ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru, y ddau gynt o'r parthau hyn ac yn gyfarwydd i bawb ohonoch.
	It's almost a year since I was appointed Secretary of State for Wales. At that time, members of both the UK coalition Government and the Welsh Government, not least the First Minister, were engaged in the campaign to encourage Scotland to stay within the United Kingdom. I appreciate that not every Member of this place who went up to Scotland to campaign last summer was on the same side of the argument. I'll never forget, a few days before the vote, on one of my visits up there, standing in the Parliament at Holyrood with Ruth Davidson. I was watching school groups being taken around on tours of the Parliament Chamber there and reflecting on the remarkable moment that we were in. I was struck with the thought that, whatever the outcome of the vote that Thursday, there was absolutely no doubt that the place of that Parliament would become ever more important in the life of the Scottish nation, and that the authority and the role of that Parliament as a law-making body and as a forum of national debate and argument and resolution would only grow. I believe that that is the destiny of this National Assembly, too: to be a Parliament.	Mae bron i flwyddyn ers i mi gael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ar y pryd, roedd aelodau Llywodraeth glymblaid y DU a Llywodraeth Cymru, yn enwedig y Prif Weinidog, yn rhan o'r ymgyrch i annog yr Alban i aros yn y Deyrnas Unedig. Rwy'n sylweddoli nad oedd pob Aelod o'r lle hwn a aeth i fyny i'r Alban i ymgyrchu yr haf diwethaf ar yr un ochr i'r ddadl. Ond byddaf yn cofio am byth sefyll yn y Senedd yn Holyrood gyda Ruth Davidson ar un o fy ymweliadau yno ychydig ddyddiau cyn y bleidlais. Roeddwn yn gwyllo grwpiau ysgol yn cael eu tywys ar deithiau o amgylch Siambr y Senedd yno ac yn myfyrio ar y foment ryfeddol roeddem yn rhan ohoni. Fe'm trawodd nad oedd amheuaeth o gwbl y byddai lle'r Senedd honno yn dod yn fwyfwy pwysig ym mywyd cenedl yr Alban beth bynnag fyddai canlyniad y bleidlais y dyddiau hwnnw, ac y byddai awdurdod a rôl y Senedd honno fel corff deddfu ac fel fforwm trafod a dadlau a datrys cenedlaethol yn siŵr o dyfu. Dyna dynged y Cynulliad Cenedlaethol hwn hefyd, mi gredaf. bod yn Senedd.
	This Senedd is, after all, a place my own children visit on their school and their Urdd trips to learn about democracy in Wales—they got here before I did. It's the place where the First Minister and I stood side by side with Cardiff schoolchildren last September and watched that remarkable fly-past to mark the closing of the NATO summit. It's the place where members of the French community in Wales gathered with Wales's senior rabbi and the secretary general of the Muslim Council of Wales days after the Charlie Hebdo terrorist atrocities in Paris, when this place became a place of grief of solidarity. It is also to this Senedd that communities from across Wales will come to protest over changes to their hospital services, because a parliament without protests is barely a parliament at all. Increasingly and unquestionably, this is an important gathering place, a place of deliberation and decision making, a symbol of Welsh national life.	Mae'r Senedd hon, wedi'r cyfan, yn fan y mae fy mhlant fy hun yn ymweld â hi ar eu tripiâu gyda'r ysgol a'r Urdd i ddysgu am ddemocratiaeth yng Nghymru—daethant yma cyn i mi ddod. Dyma'r fan y safodd y Prif Weinidog a minnau ochr yn ochr â phlant ysgol o Gaerdydd fis Medi diwethaf a gwyllo'r arddangosiad rhyfeddol hwnnw yn yr awyr i nodi diwedd uwchgynhadledd NATO. Dyma'r fan lle daeth aelodau o'r gymuned Ffrengig yng Nghymru ynghyd gydag uwch rabi Cymru ac ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Mwslimiaid Cymru ddiwrnodau ar ôl erchyllterau terfysgol Charlie Hebdo ym Mharis, pan ddaeth y fan hon yn lle i alaru a sefyll gyda'n gilydd. I'r Senedd hon y daw cymunedau o bob rhan o Gymru i brotestio ynghylch newidiadau i'w gwasanaethau ysbty, oherwydd go brin fod senedd heb brotestiadau yn senedd o gwbl. Yn gynyddol ac yn ddiarnheuol, mae hwn yn fan ymgynnull pwysig, yn lle trafod a gwneud penderfyniadau, yn symbol o fywyd cenedlaethol Cymru.

I stand here this afternoon, Mr Deputy Presiding Officer, recognising that this very procedure that I'm complying with—to come here and speak about Her Majesty's Gracious Speech, envisaged and legislated for in the days when a strong law-making Assembly for Wales seemed a long way off—well, this is something of an anachronism, an overhang from another era. This is something that the Presiding Officer and I have spoken about on numerous occasions, and I'm sure she will be pleased to hear that I intend to abolish this procedure as part of the forthcoming Wales Bill, which was announced in the Gracious Speech last month. I'm sure you can find a far better use for the Secretary of State's seat, which is somewhere in this Chamber. I'll return to the Wales Bill shortly.

Mr Deputy Presiding Officer, the mission statement of this new UK Government is to help working people, to champion social justice, and to unite all the peoples of the nations. Through the Queen's Speech last month, we announced our legislative programme to build on the important work we started five years ago, to improve the lives of everyone in our country, and I'd like to summarise what I believe this means for Wales.

Firstly, I am proud to be part of a Government that has overseen remarkable falls in unemployment across the UK and particularly here in Wales since 2010. It is absolutely central to our programme in this Parliament to see that continue. So, we will bring forward our full employment and welfare benefits Bill to help more people seize the work and life opportunities that new employment brings, and to make full employment an achievable national goal. Compared to 2010, there are now 34,000 fewer children in Wales growing up in homes where no parent works. That's absolutely transformative for those lives, for those individuals and families growing up seeing a role model go out to work and bringing home a wage, smashing down barriers to social mobility. So, in this Parliament, we will continue to reform welfare: encouraging employment by capping benefits, requiring young people to earn or learn, and rewarding ambition by supporting those unemployed people who want to be part of the next generation of entrepreneurs.

We will continue to reward hard work by helping people keep more of the money they earn. Through the finance Bill, we will raise the tax-free personal allowance to £10,600 next year and to £12,500 by the end of this Parliament. Let's be clear about what that means: it means people on the lowest incomes paying less tax, and more money going back to the people who need it most. We will also legislate to make sure that those people working 30 hours a week on the national minimum wage do not pay any income tax at all. We will pass law to ensure that there are no rises in income tax rates, value-added tax or national insurance for the duration of this Parliament.

Rwy'n sefyll yma y prynhawn yma, Mr Dirprwy Lywydd, yn cydnabod bod y drefn hon rwy'n cydymffurfio â hi—dod yma i siarad am Araith Rasol ei Mawrhydi, a ragwelwyd ac y deddfwyd ar ei chyfer yn y dyddiau pan oedd Cynulliad deddfwriaethol cryf i Gymru yn ymddangos yn bell i ffwrdd—wel, mae hyn yn dipyn o anacroniaeth, bargod o gyfnod arall. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Llywydd a minnau wedi siarad amdano droeon, ac rwy'n siŵr y bydd yn falch o glywed fy mod yn bwriadu diddymu'r drefn hon fel rhan o'r Bil Cymru arfaethedig a gyhoeddwyd yn yr Araith Rasol fis diwethaf. Rwy'n siŵr y dowch o hyd i lawer gwell defnydd ar gyfer sedd yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd yn rhywle yn y Siambr hon. Dychwelaf at Fil Cymru yn y man.

Mr Dirprwy Lywydd, datganiad o fwriad Llywodraeth newydd y DU yw helpu pobl sy'n gweithio, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ac uno holl bobloedd y cenhedloedd. Drwy Araith y Frenhines fis diwethaf, cyhoeddom ein rhaglen ddeddfwriaethol i adeiladu ar y gwaith pwysig y bu i ni ddechrau arno bum mlynedd yn ôl, i wella bywydau pawb yn ein gwlad, a hoffwn grynhoi'r hyn rwy'n credu y mae hyn yn ei olygu i Gymru.

Yn gyntaf, rwy'n falch o fod yn rhan o Lywodraeth sydd wedi goruchwylio sawl cwymp nodedig mewn diweithdra ar draws y DU ac yn enwedig yma yng Nghymru ers 2010. Rhan gwbl ganolog o'n rhaglen yn y Senedd hon yw gweld hynny'n parhau. Felly, byddwn yn cyflwyno ein Bil cyflogaeth lawn a budd-daliadau lles i helpu rhagor o bobl i fanteisio ar y cyfleoedd gwaith a bywyd a ddaw yn sgil gwaith newydd, ac i wneud cyflogaeth lawn yn nod cenedlaethol cyraeddadwy. O'i gymharu â 2010, erbyn hyn mae 34,000 yn llai o blant yng Nghymru yn cael eu magu mewn cartrefi lle nad oes yr un rhiant yn gweithio. Mae hynny'n hollol drawsnewidiol i'r bywydau hynny, i'r unigolion a'r teuluoedd hynny sy'n cael eu magu yn gweld model rôl yn mynd i weithio ac yn dod â chyflog adref, gan chwalu rhwystrau symudedd cymdeithasol. Felly, yn y Senedd hon, byddwn yn parhau i ddiwygio lles, yn annog cyflogaeth drwy gapio budd-daliadau a'i gwneud yn ofynnol i bobl ifanc ennill cyflog neu ddysgu, ac yn gwobrwyo uchelgais drwy gefnogi'r bobl ddi-waith sydd am fod yn rhan o'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid.

Byddwn yn parhau i wobrwyo gwaith caled drwy helpu pobl i gadw rhagor o'r arian y maent yn ei ennill. Drwy'r Bil cyllid, byddwn yn codi lwfans personol di-dreth i £10,600 y flwyddyn nesaf ac i £12,500 erbyn diwedd y Senedd hon. Gadewch i ni fod yn glir ynghylch yr hyn y mae hynny'n ei olygu: mae'n golygu bod pobl ar yr incwm isaf yn talu llai o dreth, a bod rhagor o arian yn mynd yn ôl at y bobl sydd ei angen fwyaf. Byddwn hefyd yn deddfu i wneud yn siŵr nad yw'r bobl hynny sy'n gweithio 30 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol yn talu unrhyw dreth incwm o gwbl. Byddwn yn pasio deddf i sicrhau nad oes unrhyw godiad mewn cyfraddau treth incwm, treth ar werth nac yswiriant gwladol yn ystod cyfnod y Senedd hon.

Key to our plan to help working people are the measures we will bring forward to back businesses in Wales. They are, after all, the real job creators and the true heroes of this economic recovery. There are around 230,000 small and medium-sized enterprises in Wales today. That's up 26,000 since 2010. I want to see that number grow well past 0.25 million by 2020 with each new start-up delivering new jobs, new opportunities and new wealth for our nation. So, through the enterprise Bill, we will cut £10 billion from the cost to business of red tape and regulation, helping firms to grow and create jobs, and making sure that Britain remains one of the most competitive economies in which to do business.

Aside from measures that will strengthen our support for working people and deliver social justice by breaking down cycles of dependency, our legislative programme will also strengthen the ties that bind different parts of our United Kingdom together. There is no question, Mr Deputy Presiding Officer, that one of the key strategic political challenges of our times, alongside the need to rebuild our national finances and reduce the deficit, is the constitution and how we hang together as a family of nations. So, an absolutely core objective of the Government in Westminster is to seek to strengthen the United Kingdom as one nation. That means meeting the challenge of nationalism head on, because we believe passionately in the union, for all of the benefits and the pooling of risk and opportunity that it offers us all. We know that this United Kingdom hasn't had its day.

It also means delivering on devolution, not because we think we should meet the nationalists halfway, but because a core part of our philosophy is recognising, especially in the twenty-first century, that, as the forces of globalisation shape and re-shape our world, the key to economic success for developed nations will be to push power downwards and to decentralise. It means recognising that the old-style model of a highly centralised Victorian nation state does not provide for the dispersal of power and decision making needed in an age when information, knowledge and capital move at lightning speeds.

Coupled with that is the increased recognition that there has been for decades now that we simply cannot carry on with the UK economy becoming ever more lopsided, with London and the south-east being the primary generator of wealth and growth for the UK and increasingly looking like a city state in its own right. As a Government, we will continue to respond to the urgent practical need to rebalance our economy, so that wealth is created and distributed much more evenly and fairly across the United Kingdom.

Rhan allweddol o'n cynllun i helpu pobl sy'n gweithio yw'r mesurau y byddwn yn eu cyflwyno i gefnogi busnesau yng Nghymru. Wedi'r cyfan, dyma'r crewyr swyddi go iawn a gwir arwyr adferiad economaidd hwn. Mae tua 230,000 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru heddiw. Dyna gynnydd o 26,000 ers 2010. Rwyf eisiau gweld y ffigur hwnnw'n codi ymhell dros 0.25 miliwn erbyn 2020 gyda phob busnes newydd yn cyflwyno swyddi newydd, cyfleoedd a chyfoeth newydd i'n cenedl. Felly, drwy'r Bil menter, byddwn yn torri £10 biliwn oddi ar gostau biwrocraiaeth a rheoleiddio i fusnesau, gan helpu cwmnïau i dyfu a chreu swyddi, a sicrhau bod Prydain yn parhau i fod yn un o'r economïau mwyaf cystadleuol lle gellir cynnal busnes.

Ar wahân i fesurau a fydd yn cryfhau ein cefnogaeth i bobl sy'n gweithio a sicrhau cyfiawnder cymdeithasol drwy dorri cylchoedd dibyniaeth, bydd ein rhaglen ddeddfwriaethol hefyd yn cryfhau'r cysylltiadau sy'n rhwymo gwahanol rannau ein Teyrnas Unedig ynghyd. Nid oes unrhyw gwestiwn, Mr Dirprwy Lywydd, mai un o brif heriau gwleidyddol strategol ein cyfnod ni, ochr yn ochr â'r angen i ailadeiladu ein cyllid cenedlaethol a lleihau'r diffyg, yw'r cyfansoddiad a sut rydym yn cyd-fyw fel teulu o genhedloedd. Felly, amcan hollol greiddiol gan y Llywodraeth yn San Steffan yw ceisio cryfhau'r Deyrnas Unedig yn un genedl. Mae hynny'n golygu ymateb i her cenedlaetholdeb yn uniongyrchol, oherwydd ein bod yn credu'n gryf yn yr undeb, ar gyfer yr holl fudd a chyfuno risg a'r cyfle y mae'n ei gynnig i bawb ohonom. Rydym yn gwybod nad yw hi wedi darfod ar y Deyrnas Unedig hon.

Mae hefyd yn golygu cyflawni ar ddatganoli, nid am ein bod yn meddwl y dylem gwrdd â chenedlaetholwyr hanner ffordd, ond oherwydd mai rhan greiddiol o'n hathroniaeth yw cydnabod, yn enwedig yn yr unfed ganrif ar hugain wrth i rymoedd globaleiddio lunio ac ail-lunio ein byd, mai'r hyn fydd yn allweddol i lwyddiant economaidd ar gyfer cenedloedd datblygedig yw gwrthio pŵer am i lawr a datganoli. Mae'n golygu cydnabod nad yw'r model hen ffasiwn o genedl-wladwriaeth Fictoraidd wedi ei chanoli'n helaeth yn darparu'r modd i wasgaru grym a gwneud penderfyniadau sydd ei angen mewn oes pan fo gwybodaeth, deallusrwydd a chyfalaf yn symud ar garlam.

Ynghyd â hynny mae rhagor o gydnabyddiaeth ers degawdau bellach na allwn barhau gydag economi'r DU yn mynd yn gynyddol anghytwys, gyda Llundain a de-ddwyrain Lloegr yn brif gynhyrchydd cyfoeth a thwf ar gyfer y DU ac yn edrych yn gynyddol fel dinas-wladwriaeth ynddi ei hun. Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i ymateb i'r angen ymarferol ar frys i adfer cydbwysedd ein heconomi, fel bod cyfoeth yn cael ei greu a'i ddsbarthu yn llawer mwy cyfartal a theg ar draws y Deyrnas Unedig.

We will honour the commitments we made to Wales, Scotland and Northern Ireland in the last Parliament. In Scotland, we will follow through on our promises to devolve substantial further powers to the Scottish Parliament, in line with the recommendations of the Smith Commission. In Northern Ireland, we will take forward the Stormont House agreement to help create a more prosperous, stable and secure future for people there. Crucially, for this Chamber, we will implement the St David's Day agreement, to set about fundamentally rewiring the devolution settlement for Wales, to make it clearer, stronger and fairer. This was an explicit commitment in our manifesto, and one which we will deliver on in full.

Back last October, when I was asked by the Prime Minister in the hours after the Scottish referendum to look again at the Welsh devolution settlement, I knew there were some in this Chamber who doubted where the St David's Day process would lead, but from the moment the ink was drying on the 'Powers for a Purpose' document that we published for St David's Day, I assembled a team of officials at the Wales Office to begin drafting the new legislation.

So, I intend to publish the Wales Bill in draft this autumn for pre-legislative scrutiny, before introducing it to Parliament early next year. It will be what we call a 'carry-over Bill', which will need to complete its passage during the second year of this Parliament and receive Royal Assent by early 2017. To those voices who expressed concern that the Wales Bill somehow isn't moving as fast as the Scottish legislation, well, let's be absolutely clear about the scale of what we are doing here. This isn't merely an appendix to existing arrangements for Wales, or some kind of bolt-on extra; what we're embarking upon is a fundamental rewriting of the devolution settlement, and, I believe, the most far-reaching and significant package of powers ever devolved to Wales. I've been clear from day one that we'll take the time necessary to get this legislation right.

When we talk about a clearer, stronger and fairer model of devolution, which is at the very heart of our St David's Day commitment, we mean clearer by clarifying responsibility through a new reserved powers model, stronger by providing this place and Ministers with new powers and competencies, and, crucially, fairer by taking forward our commitment to implement a funding floor, in the expectation that Welsh Government will call an income tax referendum. Mr Deputy Presiding Officer, I'm proud to be the first Secretary of State for Wales to secure that historic commitment to a funding floor, but I believe now is the time that Welsh Government demonstrates its own commitment to the whole package by making progress on the income tax powers that are already available to it. There is no other Parliament in the world that does not have responsibility for raising money as well as spending it.

Byddwn yn anrhydeddu'r ymrwymadau a wnaethom i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y Senedd ddiwethaf. Yn yr Alban, byddwn yn cadw at ein haddewidion i ddatganoli rhagor o bwerau sylweddol i Senedd yr Alban, yn unol ag argymhellion Comisiwn Smith. Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn yn bwrw ymlaen â chytundeb Tŷ Stormont er mwyn helpu i greu dyfodol mwy llwyrchus, sefydlog a diogel ar gyfer pobl yno. Yn hollbwysig ar gyfer y Siambr hon, byddwn yn gweithredu cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, ac yn mynd ati i ailysgrifennu'r setliad datganoli ar gyfer Cymru yn sylfaenol, i'w wneud yn gliriach, yn gryfach ac yn decach. Roedd hwn yn ymrwymiad clir yn ein manifest, ac yn un y byddwn yn ei gyflawni'n llawn.

Yn ôl ym mis Hydref, pan ofynnodd y Prif Weinidog i mi, yn ystod yr oriau ar ôl refferendwm yr Alban, i edrych eto ar setliad datganoli Cymru, roeddwn yn gwybod bod rhai yn y Siambr hon a oedd yn amau lle y byddai proses Dydd Gŵyl Dewi yn arwain, ond o'r eiliad y sychodd yr inc ar y ddogfen 'Pwerau at Bwrpas' a gyhoeddwyd gennym ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, cynullais dîm o swyddogion yn Swyddfa Cymru i ddechrau drafftio'r ddeddfwriaeth newydd.

Felly, rwy'n bwriadu cyhoeddi Bil Cymru ar ffurf drafft yn ystod yr hydref eleni ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu, cyn ei gyflwyno i'r Senedd yn gynnar y flwyddyn nesaf. Bydd yn rhywbeth a alwn yn 'Fil parhad' y bydd angen iddo gwblhau ei daith yn ystod ail flwyddyn y Senedd hon a chael Cydsyniad Brenhinol erbyn dechrau 2017. I'r lleisiau hynny a fynegodd bryder nad yw Bil Cymru rywsut yn symud mor gyflym â deddfwriaeth yr Alban, wel, gadewch i ni fod yn gwbl glir ynghylch graddfa'r hyn rydym yn ei wneud yma. Nid atodiad i'r trefniadau presennol ar gyfer Cymru yw hwn, na rhyw fath o ategyn ychwanegol; mae'r hyn rydym yn dechrau arno yn golygu ailysgrifennu'r setliad datganoli yn sylfaenol ac yn fy marn i, dyma'r pecyn mwyaf pellgyrhaeddol ac arwyddocaol o bwerau a ddatganolwyd i Gymru erioed. Rwyf wedi bod yn glir o'r diwrnod cyntaf y byddwn yn rhoi'r amser sydd ei angen i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn iawn.

Pan fyddwn yn sôn am fodel cliriach, cryfach a thecach o ddatganoli, sy'n ganolog i'n hymrwymiad Dydd Gŵyl Dewi, rydym yn golygu cliriach o ran egluro cyfrifoldebau drwy fodel cadw pwerau newydd, cryfach drwy ddarparu pwerau a chymwyseddau newydd i'r lle hwn ac i'r Gweinidogion, ac yn hollbwysig, yn decach drwy fwrw ymlaen â'n hymrwymiad i weithredu cyllid gwaelodol, gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn galw refferendwm ar dreth incwm. Mr Dirprwy Lywydd, rwy'n falch mai fi yw Ysgrifennydd Gwladol cyntaf Cymru i sicrhau'r ymrwymiad hanesyddol hwnnw i gyllid gwaelodol, ond rwy'n credu ei bod yn bryd yn awr i Lywodraeth Cymru ddangos ei hymrwymiad ei hun i'r pecyn cyfan drwy wneud cynnydd ar y pwerau treth incwm sydd ar gael iddi'n barod. Nid oes Senedd arall yn y byd nad yw'n gyfrifol am godi arian yn ogystal â'i wario.

In 1773, the Sons of Liberty smashed up the tea ships in the Boston harbour with the rallying cry, 'No taxation without representation'. Well, here in Wales, we have something of a reverse situation: we have representation, full law-making powers, but without responsibility for significant taxation. At the root of the emergence of democracy was that conjoined relationship between legislating and the raising of money in support of that legislation, which, of course, forms the very core of democratic accountability.

Mr Deputy Presiding Officer, this is a package of devolution for Wales, and if anybody thinks that somehow this package can be broken up, or that you can play political cat and mouse with any part of it, then we risk gravely misunderstanding what it is that we're trying to achieve here, and what the opportunity is for us in Wales. It's the opportunity to establish a devolution settlement that, yes, might not go as far as what Plaid Cymru and others want, but that I believe absolutely reflects the centre of gravity of where Welsh public opinion is at. It's to fulfil the outcome of our own referendum in 2011 when, by a majority of two to one, the people of Wales said 'yes' to a full law-making Assembly, but recognising, too, that support for independence and break-up of the union is at a near-record low in Wales. I firmly believe the Welsh public are hungry for us to move forward as a nation, and for this place—this National Assembly, this Parliament—to become a true forum of debate resolution with a sense of purpose and action, the articulator of our national ambition for economic growth, wealth creation, educational achievement and health outcomes, for it to provide the solutions on all the issues that really matter to the people it serves, not a vehicle for a never-ending conversation about more powers, or the generator of some dull consensus that settles on mediocrity, where funding is always deployed as the great national excuse for not achieving our potential.

It may come as something of a surprise, Mr Deputy Presiding Officer, that, during the recent election campaign, not once—not on one single occasion on any doorstep across Wales—was I asked about more powers or devolution. Actually, we know what it is that the voters want to talk about, and the disconnect and the gulf between their concerns and what the Welsh commentariat chooses to focus on every single day is enormous.

And because all the while we in Wales spend talking about devolving more powers to the Assembly, we risk actually missing out on the exciting opportunities that are transforming the economic and social prospects of other parts of the United Kingdom. I think in Wales we're in danger of getting hung up on an old, twentieth-century model of devolution, while, all across the rest of the UK, we are seeing localism and decentralisation, sub-national devolution flourishing in ways very few people predicted could be delivered from Whitehall. And our new decentralisation and localism Bill, announced in the Gracious Speech, will take that radical approach to a new level.

Yn 1773, chwalodd y 'Meibion Rhyddid' y llongau te yn harbwr Boston gyda'r alwad i uno, 'Dim trethiant heb gynrychiolaeth'. Wel, yma yng Nghymru, mae gennym sefyllfa i'r gwrthwyneb: mae gennym gynrychiolaeth, pŵerau deddfu llawn, ond heb gyfrifoldeb am drethiant arwyddocaol. Rhan greiddiol o ddatblygiad democratiaeth oedd y berthynas gyfunedig rhwng deddfu a chodi arian i ategu'r ddeddfwriaeth honno, a dyna, wrth gwrs, yw craidd atebolrwydd democrataidd.

Mr Dirprwy Lywydd, mae hwn yn becyn o ddatganoli i Gymru, ac os oes unrhyw un yn credu y gellir datgymalu'r pecyn hwn rywsut, neu fod modd chwarae gemau gwleidyddol gydag unrhyw ran ohono, yna rydym mewn perygl o gamddeall yn ddybryd yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yma, a beth yw'r cyfle i ni yng Nghymru. Mae'n gyfle i sefydlu setliad datganoli na fydd yn mynd mor bell â'r hyn y mae Plaid Cymru ac eraill ei eisiau, efallai, ond credaf yn bendant ei fod yn adlewyrchu lle y mae barn gyhoeddus Cymru ar hyn o bryd. Mae'n cyflawni canlyniad ein refferendwm ein hunain yn 2011 pan ddywedodd pobl Cymru 'ie', drwy fwyafrif o ddau i un, i Gynulliad â phŵerau deddfu llawn, ond gan gydnabod hefyd fod cefnogaeth i annibyniaeth a chwalu'r undeb yn agos at fod ar lefel is nag erioed yng Nghymru. Credaf yn gryf fod y cyhoedd yng Nghymru yn dyheu i ni symud ymlaen fel cenedl, ac i'r lle hwn—y Cynulliad Cenedlaethol hwn, y Senedd hon—ddod yn fforwm go iawn ar gyfer datrys dadleuon gydag ymdeimlad o bwrpas a gweithredu, yn fynegiant o'n huchelgais cenedlaethol ar gyfer twf economaidd, creu cyfoeth, cyflawniadau addysgol a chanlyniadau iechyd, er mwyn iddo ddarparu atebion ar yr holl faterion sy'n wirioneddol bwysig i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, nid yn gyfrwng ar gyfer trafodaeth ddi-ddiwedd am ragor o bwerau, neu gynhyrchu consensws diflas sy'n bodloni ar gyffredinedd, lle y mae cyllid yn cael ei ddefnyddio bob amser fel yr esgus cenedlaethol mawr dros beidio â chyflawni ein potensial.

Efallai y bydd yn syndod i chi, Mr Dirprwy Lywydd, na ofynnwyd i mi unwaith yn ystod yr ymgyrch etholiadol yn ddiweddar—ar unrhyw achlysur ar yr un garreg drws ledled Cymru—ynghylch rhagor o bwerau neu ddatganoli. Mewn gwirionedd, gwyddom beth y mae pleidleiswyr eisiau ei drafod, ac mae'r datgysylltiad a'r gagendor rhwng eu pryderon a'r hyn y mae sylwedyddion Cymru yn dewis canolbwyntio arno bob dydd yn enfawr.

Ac oherwydd ein bod ni yng Nghymru yn treulio'r holl amser yn siarad am ddatganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad, rydym mewn perygl o golli'r cyfleoedd cyffrous sy'n trawsnewid rhagolygon economaidd a chymdeithasol rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rwy'n meddwl ein bod ni yng Nghymru mewn perygl o ddrysu ein pennau ar hen fodel ugeinfed ganrif o ddatganoli, ond ar draws gweddill y DU, rydym yn gweld lleoliaeth a datganoli, datganoli is-genedlaethol, yn ffynnu mewn ffyrdd na fyddai llawer iawn o bobl wedi gallu ei ragweld yn cael ei ddarparu o Whitehall. A bydd ein Bil datganoli a lleoliaeth newydd, a gyhoeddwyd yn yr Araith Rasol yn mynd â'r dull radical hwnnw i lefel newydd.



So, Mr Deputy Presiding Officer, when I see strong, Labour-run councils striking deals with the Chancellor of the Exchequer and the Treasury, in places like Manchester and Newcastle, or in Glasgow, all these metro areas with populations that are not dissimilar to Wales, unlocking their potential to drive forward new innovation, growth and productivity for their regions, I don't want to see Wales get left behind. Because that same spirit of decentralisation, empowerment, pushing powers downwards to communities, should be a characteristic of this place, too.

And so I think the Cardiff city deal will be a litmus test of two things for us as politicians in Wales. It will reveal whether we in Wales understand the decentralisation agenda, and the exciting opportunities it presents for economic and civic renewal here in Wales. And, crucially, it will also be a test of our political pragmatism. We're a small nation, and I believe we pack a much bigger punch when we work together. I don't believe that the old-school, tribal warfare of Welsh politics has served Wales well over the years, and I don't actually believe it's what Welsh people want from their politicians. That's certainly a message I get loud and clear from the business community in Wales. We want to see pragmatism and collaboration become a hallmark of Welsh politics, and that approach is certainly one that I'm trying to deliver during my tenure as Welsh Secretary.

So, after the Wales Bill is passed, the burden will fall to this place to press ahead with the dynamic localism agenda that is transforming the economic prospects of cities, regions and counties in England. But I can announce today that, as a first step, we will devolve decision making on applications for on-shore windfarms down to the local level, through the energy Bill and related legislation, including here in Wales. This change will give local people in Wales a greater say on whether windfarms should be built in their areas, and, in line with the spirit of the St David's Day agreement, it will be then for this Assembly, and the Welsh Government, to determine how these applications should be treated in future, and whether they should stay at the local level.

Mr Deputy Presiding Officer, I believe that every single one of us in this Chamber shares a common vision for Wales, a Wales that is confident, outward looking, and punching well above its weight in the global economy. The UK Government is embarking upon an exciting legislative programme that will help make that aspiration a reality. But for Wales to truly succeed, this must be a shared enterprise, at both ends of the M4.

I don't want to see Wales fall behind, and so I've come here today to say that it's time to put an end to the incessant discussion about further powers that has characterised Welsh politics for the last 16 years. I reject the notion that devolution is some never-ending journey. The people of Wales have rejected independence, and they're tired of the political disconnect that they see between the issues that matter to them, and the seemingly endless debate about devolution they see us all engaged in.

Felly, Mr Dirprwy Lywydd, pan fyddaf yn gweld cynghorau cryf dan arweiniad Llafur yn taro bargeinion gyda Changhellor y Trysorlys a'r Trysorlys, mewn llefydd fel Manceinion a Newcastle, neu yn Glasgow, yr holl ardaloedd metro hynny sydd â phoblogaethau nad ydynt yn annhebyg i Gymru, gan ddatgloi eu potensial i sbarduno arloesi, twf a chynhyrchiant newydd ar gyfer eu rhanbarthau, nid wyf am weld Cymru yn cael ei gadael ar ôl. Oherwydd dylai'r un ysbryd o ddatganoli, grymuso, a gwthio pwerau i lawr i gymunedau, fod yn nodwedd o'r lle hwn, hefyd.

Ac felly rwy'n credu y bydd cytundeb dinas Caerdydd yn brawf litmws o ddau beth i ni wleidyddion Cymru. Bydd yn datgelu a ydym ni yng Nghymru yn deall yr agenda ddatganoli, a'r cyfleoedd cyffrous y mae'n eu cyflwyno o ran adnewyddiad economaidd a dinesig yma yng Nghymru. Ac yn hanfodol, bydd hefyd yn brawf o'n pragmatiaeth wleidyddol. Rydym yn genedl fach, ac rwy'n credu bod gennym rym mwy na'n maint pan fyddwn yn cydweithio. Nid wyf yn credu bod rhyfela llwythol hen ffasiwn gwleidyddiaeth Cymru wedi bod o fudd mawr i Gymru dros y blynyddoedd, ac nid wyf yn credu mai dyna y mae pobl Cymru ei eisiau gan eu gwleidyddion mewn gwirionedd. Yn sicr, dyna'r neges rwy'n ei chlywed yn glir ac yn groyw gan y gymuned fusnes yng Nghymru. Rydym am weld pragmatiaeth a chydweithio yn dod yn nodwedd o wleidyddiaeth Cymru, ac mae'r ymagwedd honno'n bendant yn un rwy'n ceisio ei chyflwyno yn ystod fy nghyfnod fel Ysgrifennydd Cymru.

Felly, ar ôl i Fil Cymru gael ei basio, bydd y baich yn disgyn ar y lle hwn i fwrw ymlaen â'r agenda leoliaeth ddeinamig sy'n trawsnewid rhagolygon economaidd dinasoedd, rhanbarthau a siroedd yn Lloegr. Ond gallaf gyhoeddi heddiw, fel cam cyntaf, y byddwn yn datganoli'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir i lawr i'r lefel leol drwy'r Bil ynni a deddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys yma yng Nghymru. Bydd y newid hwn yn rhoi rhagor o lais i bobl leol yng Nghymru ynghylch a ddylid adeiladu ffermydd gwynt yn eu hardaloedd, ac yn unol ag ysbryd cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, mater i'r Cynulliad hwn wedyn, a Llywodraeth Cymru, fydd penderfynu sut y dylid ymdrin â'r ceisiadau hyn yn y dyfodol, ac a ddylent aros ar y lefel leol.

Mr Dirprwy Lywydd, credaf fod pob un ohonom yn y Siambr hon yn rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru, Cymru sy'n hyderus, yn allblyg, ac yn fwy o rym nag y byddai ei maint yn awgrymu yn yr economi fyd-eang. Mae Llywodraeth y DU yn dechrau ar raglen ddeddfwriaethol gyffrous i helpu i wireddu'r dyhead hwnnw. Ond er mwyn i Gymru lwyddo o ddifrif, rhaid i hon fod yn fenter ar y cyd, ar y naill ben a'r llall i'r M4.

Nid wyf am weld Cymru ar ei hôl hi, ac felly deuthum yma heddiw i ddweud ei bod yn bryd rhoi terfyn ar y drafodaeth ddi-baid am ragor o bwerau sydd wedi nodwedu gwleidyddiaeth Cymru am yr 16 mlynedd ddiwethaf. Rwy'n gwrthod y syniad bod datganoli'n daith ddiddiwedd o ryw fath. Mae pobl Cymru wedi gwrthod annibyniaeth, ac maent wedi blino ar y diffyg cysylltiad gwleidyddol a welant rhwng y materion sy'n bwysig iddynt hwy, a'r ddadl ymddangosiadol ddiddiwedd am ddatganoli y maent yn gweld pawb ohonom ni yn ei chael.

And what will consolidate the role of this Assembly in Welsh national life will be more than just changing its name to a parliament—which you'll have the power to do in the future—more than any package of new competencies devolved from London to Cardiff, more than enabling 16 and 17-year-olds to vote in Wales—which, again, you will have the power to do in future—and more, even, than putting an end to the Secretary of State for Wales turning up each year here to debate the Queen's Speech. No, it'll be when people in all parts of Wales, especially those who feel most distant from Cardiff, in north Wales, and in the west, recognise that this Assembly is absolutely crucial to tackling the central issues that matter to their lives, not just as a forum for grievance, but as a cockpit of resolution and action, too.

Mr Deputy Presiding Officer, I believe the new Wales Bill, announced in Her Majesty's Speech last month, supported by fair funding, and new tax powers, will provide the opportunity for Wales to move on from the debate about powers, and to look outwards, and to look upwards. Thank you for the opportunity to speak.

A bydd yr hyn a fydd yn atgyfnerthu rôl y Cynulliad yn mywyd cenedlaethol Cymru yn fwy na dim ond newid ei enw i Senedd—a bydd gennych bŵer i wneud hynny yn y dyfodol—yn fwy nag unrhyw becyn o gymwyseddau newydd a ddatganolir o Lundain i Gaerdydd, yn fwy na galluogi rhai 16 a 17 oed i bleidleisio yng Nghymru—ac unwaith eto, bydd gennych bŵer i wneud hynny yn y dyfodol—ac yn fwy, hyd yn oed, na rhoi diwedd ar gael yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yma i drafod Araith y Frenhines bob blwyddyn. Na, bydd hynny'n digwydd pan fydd pobl ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig y rhai sy'n teimlo bellaf o Gaerdydd, yn y gogledd ac yn y gorllewin, yn cydnabod bod y Cynulliad hwn yn gwbl allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sydd o bwys canolog i'w bywydau—nid dim ond fforwm ar gyfer cwyno, ond talwrn penderfynu a gweithredu hefyd.

Mr Dirprwy Lywydd, rwy'n credu y bydd y Bil Cymru newydd, a gyhoeddwyd yn Araith ei Mawrhydi fis diwethaf, wedi ei gefnogi gan gyllid teg a phwerau trethu newydd, yn cynnig cyfle i Gymru symud ymlaen o'r ddadl am bwerau ac edrych tuag allan, ac at i fyny. Diolch i chi am y cyfle i siarad.

14:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

On behalf of the Welsh Government, I welcome the Secretary of State for Wales to the Assembly today and thank him for setting out the UK Government's legislative programme. I've written to the Presiding Officer with the Welsh Government's initial assessment of the UK Government's legislative programme and its implications for Assembly business. We welcome the promise of a Wales Bill to give us a reserved powers model of devolution, further legislative powers for the Assembly and executive powers for Welsh Ministers. We've yet to see the draft Bill, but I welcome today the Secretary of State's confirmation that this will be published for pre-legislative scrutiny. Indeed, we are pleased to see the commitment to a Wales Bill in the Queen's Speech. The Assembly's legislative consent will be required when it's introduced, and that may only happen shortly before the Assembly's dissolved ahead of the 2016 elections, and we will then need to consider how to handle the legislative consent process.

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n croesawu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Cynulliad heddiw a diolch iddo am nodi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Rwyf wedi ysgrifennu at y Llywydd gydag asesiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a'i goblygiadau i waith y Cynulliad. Rydym yn croesawu'r addewid o Fil Cymru i roi model datganoli sy'n cadw pwerau, pwerau deddfu pellach i'r Cynulliad a phwerau gweithredol i Weinidogion Cymru. Rydym eto i weld y Bil drafft, ond heddiw rwy'n croesawu cadarnhad yr Ysgrifennydd Gwladol y caiff ei gyhoeddi ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu. Yn wir, rydym yn falch o weld yr ymrwymiad i Fil Cymru yn Araith y Frenhines. Bydd gofyn cael cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad pan gaiff ei gyflwyno, a gall hynny ddigwydd ychydig cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu cyn etholiadau 2016, ac yna bydd angen i ni ystyried sut i ymdrin â phroses cydsyniad deddfwriaethol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The legislative consent motion process does reflect an important constitutional principle—where the Assembly has legislative powers, Parliament should not legislate without the Assembly's consent, nor should Parliament legislate to modify the Assembly's legislative competence unless the Assembly consents. The Welsh Government is committed to ensuring the Assembly has its say whenever the UK Government's legislative programme proposes UK Bills that will make provision for Wales in devolved areas. It's impossible to say how many times we will need to ask the Assembly for its legislative consent in the coming year. Apart from the Wales Bill, we think LCMs are likely for the enterprise Bill and for the UK Government's tentative proposals to repeal the Human Rights Act 1998 and bring in a new bill of rights, but there may be others.

Of course, this Queen's Speech contained a number of Bills of huge constitutional significance, including, as well as the Wales Bill, the European Union Referendum Bill and a possible bill of rights. The First Minister has already expressed our opposition to any plan to repeal and replace the Human Rights Act and to any decision to leave the EU against the wishes of the people of Wales. We do welcome the apparent decision not to hold the referendum on the same day as the Assembly elections.

The energy Bill will cover issues important to Wales, which are not currently devolved, including onshore wind consenting powers and the establishment of the Oil and Gas Authority as an independent regulator. We expect the Wales Bill to give Welsh Ministers consenting powers for energy developments in Wales up to 350 MW and to devolve the licensing of oil and gas exploration to Wales. And in the meantime, the energy Bill proposes that local planning authorities will have consenting powers for all onshore windfarms, removing the requirement for the Secretary of State to give consent for any onshore wind project over 50 MW. Planning is a devolved responsibility and we do need urgent clarification on how these proposals are intended to apply in Wales. Welsh Government officials are working closely with their counterparts in UK departments on this. The energy Bill also proposes to establish the Oil and Gas Authority as an independent regulator for the whole of the UK and we are engaging with the Department of Energy and Climate Change to understand the full implications of the proposal.

The UK Government's programme also contains a number of England-only Bills, including the education and adoption Bill, and these are unlikely to lead to LCMs unless there are cross-border issues. But the adoption provisions in the education and adoption Bill appear to have the same aim as our Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, already in force here, and that is to improve the efficiency and effectiveness of adoption services by requiring local authorities to group together to achieve economies of scale and to pool expertise. It is, I believe, a sign of the maturity of the Welsh Government and the Assembly that we've often tackled issues and improved outcomes for people living and working here in Wales ahead of our neighbours.

Mae proses y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn adlewyrchu egwyddor gyfansoddiadol bwysig—lle y mae gan y Cynulliad bwerau deddfwriaethol, ni ddylai'r Senedd ddeddfu heb gydsyniad y Cynulliad, ac ni ddylai'r Senedd ddeddfu i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad oni bai bod y Cynulliad yn cydsynio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod y Cynulliad yn cael lleisio barn pa bryd bynnag y bydd rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cynnig Biliu'r DU a fydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig. Mae'n amhosibl dweud sawl gwaith y bydd angen i ni ofyn i'r Cynulliad am ei gydsyniad deddfwriaethol yn y flwyddyn sydd i ddod. Ar wahân i Fil Cymru, credwn y bydd cynigion cydsyniad deddfwriaethol yn debygol ar gyfer y Bil menter ac ar gyfer cynigion petrus Llywodraeth y DU i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyflwyno bil hawliau dynol newydd, ond gallai fod eraill.

Wrth gwrs, roedd Araith y Frenhines y tro hwn yn cynnwys nifer o Filiau o arwyddocâd cyfansoddiadol enfawr, gan gynnwys, yn ogystal â Bil Cymru, Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a bil hawliau dynol posibl. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi mynegi ein gwrthwynebiad i unrhyw gynllun i ddiddymu a disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol ac i unrhyw benderfyniad i adael yr UE yn groes i ddmuniadau pobl Cymru. Rydym yn croesawu'r penderfyniad ymddangosiadol i beidio â chynnal y refferendwm ar yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad.

Bydd y Bil ynni yn ymdrin â materion sy'n bwysig i Gymru, nad ydynt wedi'u datganoli ar hyn o bryd, gan gynnwys pwerau cydsynio ar gyfer gwynt ar y tir a sefydlu Awdurdod Olew a Nwy fel rheoleiddiwr annibynnol. Rydym yn disgwyl i Fil Cymru i roi pwerau cydsynio i Weinidogion Cymru ar gyfer datblygiadau ynni yng Nghymru hyd at 350 MW ac i ddatganoli'r broses o drwyddedu gwaith chwilio am olew a nwy i Gymru. Ac yn y cyfamser, mae'r Bil ynni yn cynnig y bydd gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau cydsynio ar gyfer yr holl ffermydd gwynt ar y tir, gan ddileu'r gofyniad am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i unrhyw brosiect gwynt ar y tir dros 50 MW. Mae cynllunio yn gyfrifoldeb datganoledig ac rydym angen eglurhad ar frys ynglŷn â sut y bwriedir i'r cynigion hyn gael eu cymhwyso yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â'u cymheiriaid yn adrannau'r DU ar hyn. Mae'r Bil ynni hefyd yn cynnig sefydlu Awdurdod Olew a Nwy fel rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y DU gyfan ac rydym yn ymgysylltu â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i ddeall goblygiadau llawn y cynnig.

Mae rhaglen Llywodraeth y DU hefyd yn cynnwys nifer o Filiau ar gyfer Lloegr yn unig, gan gynnwys y Bil addysg a mabwysiadu, ac mae'r rhain yn annhebygol o arwain at gynnig cydsyniad deddfwriaethol oni bai bod materion trawsffiniol yn codi. Ond ymddengys mai'r un yw nod y darpariaethau mabwysiadu yn y Bil addysg a mabwysiadu â'n Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd eisoes mewn grym yma, sef gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau mabwysiadu drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol grwpio â'i gilydd i sicrhau arbedion maint ac i rannu arbenigedd. Rwy'n credu mai arwydd o aeddfedrwydd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yw ein bod yn aml wedi bwrw ati i ymdrin â materion a gwella canlyniadau i bobl sy'n byw ac yn gweithio yma yng Nghymru cyn i'n cymdogion wneud hynny.

Turning now to the five amendments that have been tabled, the Welsh Government supports amendments 1 and 3. We welcome the proposed Wales Bill as a step in the right direction, but we do recognise its shortcomings; it does not give us everything we or Silk asked for. We oppose amendment 2. Powers are needed to assist in combatting terrorism and other serious offences, including paedophile activities. However, we would hope that Parliament would press for essential safeguards, building on the recommendations of David Anderson's report, and work to ensure that the Bill protects both freedom and security. We support amendment 4. We oppose any attempt by the UK Government to abolish the Human Rights Act. The Act is a way for the people of Wales to challenge inequality and injustice. Repealing it would be a step backwards for equality and human rights. We're abstaining on amendment 5. We strongly support votes for 16 and 17-year-olds and cannot, therefore, vote against the amendment. We don't, however, believe that there could be a double-majority requirement in the referendum, under which withdrawal would require majority in all four nations as well as the UK as a whole, because a referendum will be a vote of a member state, not its separate parts. But a UK vote to withdraw against the wishes of the Welsh people would cause immense problems for Wales. The best way to avoid this is a determined UK-wide campaign for continued membership of the European Union, and Labour will take a leading role in making that case.

Dirprwy Lywydd, this debate today does provide an opportunity for us to consider the impact of the UK Government's legislative programme on Wales, to constructively feed back our views, but also to lay out our ambitions and goals for the people and economy of Wales, and the wider impact of UK Government policy on Wales.

Gan droi yn awr at y pum gwelliant sydd wedi'u cyflwyno, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwelliannau 1 a 3. Rydym yn croesawu'r Bil Cymru arfaethedig fel cam yn y cyfeiriad cywir, ond rydym yn cydnabod ei ddiffygion; nid yw'n rhoi popeth y gofynnwyd amdano gennym ni na Silk. Gwrthwynebwn welliant 2. Mae angen pwerau i gynorthwyo i frwydro yn erbyn terfysgaeth a throseddau difrifol eraill, gan gynnwys gweithgareddau pedoffiliaidd. Fodd bynnag, byddem yn gobeithio y byddai'r Senedd yn pwyso am fesurau diogelu hanfodol, gan adeiladu ar argymhellion adroddiad David Anderson, ac yn gweithio i sicrhau bod y Bil yn gwarchod rhyddid a diogelwch fel ei gilydd. Rydym yn cefnogi gwelliant 4. Rydym yn gwrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'r Ddeddf yn ffordd i bobl Cymru herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Byddai ei diddymu yn gam yn ôl o ran cydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym yn ymatal ar welliant 5. Rydym yn cefnogi pleidleisiau ar gyfer rhai 16 a 17 oed yn fawr ac felly, ni allwn bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y gallai fod gofyniad 'mwyafrif dwbl' yn y refferendwm, lle y byddai tynnu allan yn galw am fwyafrif yn y pedair gwlad yn ogystal â'r DU gyfan, gan y byddai refferendwm yn bleidlais aelod-wladwriaeth, nid ei rhannau ar wahân. Ond byddai pleidlais yn y DU i dynnu allan yn erbyn ewyllys pobl Cymru yn achosi problemau enfawr i Gymru. Y ffordd orau i osgoi hyn yw ymgyrch benderfynol ledled y DU dros barhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd, a bydd Llafur yn chwarae rhan flaenllaw yn cyflwyno'r achos hwnnw.

Ddirprwy Lywydd, mae'r ddadl hon heddiw yn rhoi cyfle i ni ystyried effaith rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar Gymru, i fwydo'n barn yn ôl yn adeiladol, ond hefyd i gyflwyno ein huchelgeisiau a'n nodau ar gyfer pobl ac economi Cymru, ac effaith ehangach polisi Llywodraeth y DU ar Gymru.

14:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the five amendments to the motion. I call on Kirsty Williams to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith nad yw'r Bil Cymru arfaethedig yn gweithredu yn llawn argymhellion y Comisiwn Silk trawsbleidiol ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu'r argymhellion llawn heb oedi.*

*Regrets that the proposed Wales Bill does not implement in full the recommendations of the cross-party Silk Commission and calls on the UK Government to implement the full recommendations without hesitation.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi â phryder ddychweliad y Bil Pwerau Ymchwilio, ffurf newydd ar y siarter fusnesu, fel y'i gelwir, a gafodd ei rwystro'n rheolaidd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn ystod Llywodraeth Glymblaid y DU; ac yn gwrthwynebu Llywodraeth y DU yn cael pwerau i fonitro data cyfathrebu unigolion.*

*Notes with concern the return of the Investigatory Powers Bill, a new form of the so-called 'Snooper's Charter' which was regularly blocked by Liberal Democrats during the UK Coalition Government, and opposes the UK Government having powers to monitor individuals' communications data.*

14:41

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Could I begin by welcoming the Secretary of State to the Chamber this afternoon and thank him for his speech?

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Siambr y prynhawn yma a diolch iddo am ei araith?

Of course, Deputy Presiding Officer, the election result wasn't one that any Welsh Liberal Democrat would welcome. It was an extremely difficult night, but I can tell you this, Deputy Presiding Officer: this Queen's Speech, devoid of fairness and intent on curbing our freedoms, was all that I and my party needed to get us back on our feet and stand up for what we believe in. As far as I'm concerned, the Queen's Speech was a clear sign that this Government will be less liberal and less compassionate than any in living memory.

Wrth gwrs, Ddirprwy Lywydd, nid oedd canlyniad yr etholiad yn un y byddai unrhyw un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei groesawu. Roedd yn noson hynod o anodd, ond gallaf ddweud hyn wrthyf, Ddirprwy Lywydd: Araith y Frenhines y tro hwn, sy'n amddifad o degwch a'i bwriad ar ffigu ein rhyddid, oedd y cyfan a oedd ei angen i gael fy mhlaid yn ôl ar ei thraed a sefyll dros yr hyn a gredwn. O'm rhan i, roedd Araith y Frenhines yn arwydd clir y bydd y Llywodraeth hon yn llai rhyddfrydig ac yn llai tosturiol nag unrhyw un o fewn cof.

There are a number of Labour AMs here today who spent the last five years bemoaning many of the decisions that the coalition took. Well, mark my words, I suspect we haven't seen anything yet. The coalition Government introduced a huge number of positive reforms that we could all be proud of: equal marriage, revolutionising the pension system, cutting taxes for the lowest paid, more resources for the poorest pupils in English schools, shared parental leave, 2 million new apprenticeships, ending child detention, and, of course, devolution to Wales that moved faster than it had in over a decade. I believe those things happened, in no small part, because the Liberal Democrats were in Government.

Mae yna nifer o ACau Llafur yma heddiw a dreuliodd y pum mlynedd diwethaf yn cwyno am lawer o benderfyniadau'r glymblaid. Wel, nodwch hyn, rwy'n amau nad ydym wedi gweld unrhyw beth eto. Cyflwynodd y Llywodraeth glymblaid nifer enfawr o ddiwygiadau cadarnhaol y gallem i gyd fod yn falch ohonynt: priodas gyfartal, chwyldroi'r system bensiwn, torri trethi ar gyfer y bobl ar y cyflogau isaf, mwy o adnoddau ar gyfer y disgyblion tlotaf mewn ysgolion yn Lloegr, rhannu absenoldeb rhieni, 2 filiwn o brentisiaethau newydd, rhoi diwedd ar osod plant dan gadwad, ac wrth gwrs, datganoli i Gymru a symudodd yn gyflymach nag a wnaeth ers dros ddegawd. Rwy'n credu bod y pethau hynny wedi digwydd, i raddau helaeth, am fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth.

I have to contrast that with what we have before us now. The human rights we hold dear, our right to privacy in an online age, our future as an open-minded, outward-looking country—all hanging in the balance, again, because of the measures announced in this Queen's Speech.

Mae'n rhaid i mi gyferbynnu hynny â'r hyn sydd gennym yn awr. Mae'r hawliau dynol sydd mor annwyl i ni, ein hawl i breifatrwydd mewn oes ar-lein, ein dyfodol fel gwlad â meddwl agored, sy'n edrych tuag allan—oll yn y fantol unwaith eto oherwydd y mesurau a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines eleni.

The Welsh Liberal Democrats recently hosted a debate on the Human Rights Act here in this Assembly. I was very pleased that our motion gained support across the Chamber in a majority. Our message is clear from that day: the National Assembly opposes any attempt to repeal the Human Rights Act. There are, of course, all sorts of issues and complications arising out of this ill-thought-out policy, which I believe undermine Welsh devolution settlements, and we need leadership from the Secretary of State. I would ask the Secretary of State here today to ensure that he will respect the Sewel convention when these matters are brought forward.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ddatl ar y Ddeddf Hawliau Dynol yma yn y Cynulliad. Roeddwn yn falch iawn fod ein cynnig wedi ennyn cefnogaeth y mwyafrif ar draws y Siambr. Mae ein neges yn glir o'r diwrnod hwnnw: mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Wrth gwrs, mae yna bob math o broblemau a chymhlethodau yn codi o'r polisi sâl hwn y credaf ei fod yn tansilio setliadau datganoli Cymru ac mae angen arweiniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Hoffwn ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol yma heddiw i sicrhau y bydd yn parhau confensiwn Sewel pan fydd y materion hyn yn cael eu cyflwyno.

It is also clear to me that the coalition Government's commitment to fairness has been weakened. Whilst I welcome very much the moves to take more of our lowest-paid workers out of paying income tax, the prospect of £12 billion of welfare cuts is a chilling one.

Mae hefyd yn amlwg i mi fod ymrwymiad y Llywodraeth glymblaid i degwch wedi ei wanhau. Er fy mod yn croesawu'n fawr y camau i sicrhau na fydd raid i ragor o'n gweithwyr ar y cyflogau isaf dalu treth incwm, mae'r posibilrwydd o £12 biliwn o doriadau lles yn un brawychus.

I appreciate the Secretary of State does not want to spend his time talking about additional powers, but it is inevitable in this debate that we must do just that. Our first amendment calls for more ambition. Whilst I welcome many of the measures that I would expect to see in the Bill, such as energy consents and a reserved powers model, I believe this Bill will be a missed opportunity. On this occasion, the cross-party approach has led to a race to the bottom—a combination of, let's face it, both Labour and Tory vetoes, means the number of key Silk recommendations will not be taken forward.

If possible, I would also like the Secretary of State to provide us with some clarity on some key issues. Firstly, when will we see this Bill become a reality? We were told by the Chancellor of the Exchequer that the Bill would be with us within 100 days. We now know that that won't happen. I'd like to have an understanding of why not. The Secretary of State says it's because it's such a big endeavour. I don't disagree with him, but the size of the endeavour was well known; it is not something that has recently appeared. Last night, Lord Bourne said the draft Wales Bill would be published in the autumn and that the Bill would be introduced in the Commons early next year, but it seems highly unlikely that it will have been through both Houses by May. Why so late? The delay simply isn't good enough. We have to move quicker. We're not demanding haste just for the sake of it. Political parties and the Welsh public need to know what kind of powers the Assembly will have following next year's elections. We need to know so we can put those powers and what we will, more importantly, do with those powers in our manifestos for next year's election. I would also like to hear reassurances from the Secretary of State today that, in devising the list of powers that is to be reserved, there will be no attempt, by the back door, to weaken the devolution settlement and repatriate things from this Chamber, from this Government, back to London.

On fair funding, I, of course, welcome the UK Government's commitment to introducing a funding floor. No ifs, no buts; Wales must have fair funding. We all know that Wales is no longer underfunded to the same extent it was when Gerry Holtham conducted his first analysis. However, Wales must have a fair level of funding, and that is simply an issue of fairness. And that goes beyond the funding floor. This needs to be sorted out as soon as possible, which is why the Welsh Liberal Democrats believe that it should be tackled head-on and that fair funding must be entrenched in the forthcoming Bill. But also, let's be honest, for far too long the Welsh Labour Government has used underfunding as an excuse for poor delivery of public services. Why are thousands of people waiting too long for an operation? Underfunding. Why are so many of our schools not performing in the way they should? Underfunding. Why does Wales's economy lag behind the rest of the UK? Underfunding. Secretary of State, not only is this a matter of fairness, but you need to deliver on this so that Labour's excuses of underfunding can no longer be used to defend poor performance.

Rwy'n derbyn nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn awyddus i dreulio ei amser yn siarad am bwerau ychwanegol, ond mae'n anochel yn y ddadl hon fod yn rhaid i ni wneud yn union hynny. Mae ein gwelliant cyntaf yn galw am fwy o uchelgais. Er fy mod yn croesawu llawer o'r mesurau y byddwn yn disgwyl eu gweld yn y Bil, fel caniatadau ynni a model cadw pwerau, rwy'n credu y bydd y Bil hwn yn gyfle a gollwyd. Ar yr achlysur hwn, mae'r dull trawsbleidiol wedi arwain at ras i'r gwaelod—mae cyfuniad, gadewch i ni ei wynebu, o fetoau Llafur a'r Ceidwadwyr fel ei gilydd yn golygu na fydd nifer o argymhellion allweddol Silk yn cael eu datblygu.

Os oes modd, hoffwn hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol roi rhywfaint o eglurder i ni ar rai materion allweddol. Yn gyntaf, pa bryd y gwelwn y Bil yn dod yn realiti? Dywedwyd wrthym gan Ganghellor y Trysorlys y byddai'r Bil gyda ni o fewn 100 diwrnod. Rydym bellach yn gwybod na fydd hynny'n digwydd. Hoffwn ddeall pam na fydd hynny'n digwydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud mai'r rheswm yw ei bod yn ymdrech mor fawr. Nid wyf yn anghytuno ag ef, ond roedd maint yr ymdrech yn hysbys; nid yw'n rhywbeth sydd wedi ymddangos yn ddiweddar. Neithiwr, dywedodd yr Arglwydd Bourne y byddai'r Bil Cymru drafft yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, ac y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin yn gynnar y flwyddyn nesaf, ond mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y bydd wedi bod drwy'r ddau Dŷ erbyn mis Mai. Pam mor hwyr? Yn syml, nid yw'r oedi'n ddigon da. Mae'n rhaid i ni symud yn gyflymach. Nid ydym yn gofyn am frys er ei fwyn ei hun yn unig. Mae angen i bleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd yng Nghymru wybod pa fath o bwerau a fydd gan y Cynulliad yn dilyn etholiadau'r flwyddyn nesaf. Mae angen i ni wybod er mwyn i ni allu rhoi'r pwerau hynny ac yn bwysicach, yr hyn y byddwn yn ei wneud â'r pwerau hynny, yn ein manifestos ar gyfer etholiad y flwyddyn nesaf. Hoffwn gael sicrwydd hefyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol heddiw na fydd unrhyw ymdrech drwy'r drws cefn, wrth lunio'r rhestr o bwerau sydd i'w cadw, i wanhau'r setliad datganoli a dychwelyd pethau o'r Siambr hon, gan y Llywodraeth hon, yn ôl i Lundain.

O ran cyllid teg, wrth gwrs, rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflwyno cyllid gwaelodol. Heb os nac oni bai, rhaid i Gymru gael cyllid teg. Mae pawb ohonom yn gwybod nad yw Cymru bellach yn cael ei thanariannu i'r un graddau â phan gynhaliodd Gerry Holtham ei ddadansoddiad cyntaf. Fodd bynnag, rhaid i Gymru gael lefel deg o gyllid, a mater o degwch yw hynny yn syml iawn. Ac mae hynny'n mynd y tu hwnt i'r cyllid gwaelodol. Mae angen i hyn gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl, a dyna pam y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y dylid mynd i'r afael yn iawn â hyn, a rhaid i gyllid teg gael ei ymgorffori yn y Bil sydd i ddod. Ond hefyd, gadewch ni fod yn onest, ers yn llawer rhy hir, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi defnyddio tanariannu fel esgus dros gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gwael. Pam y mae miloedd o bobl yn aros yn rhy hir am lawdriniaeth? Tanariannu. Pam y mae cymaint o'n hysgolion nad ydynt yn perfformio yn y ffordd y dylent? Tanariannu. Pam y mae economi Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU? Tanariannu. Ysgrifennydd Gwladol, nid mater o degwch yn unig yw hyn; mae angen i chi gyflawni fel na ellir defnyddio esgusodion Llafur ynghylch tanariannu mwyach i amddiffyn perfformiad gwael.

With regard to Plaid Cymru's amendment 3, we will not be supporting it. Rather than just being obsessed with all things Scottish, we want what is best for Wales. Wales must gain powers that Wales wants, not just mirror everything that Scotland does. Besides, it's just too important for that. This piecemeal approach to devolution across the UK has to end. We need to be looking at devolution so that it can finally deliver a truly federal system and the lasting system that the Secretary of State says he wants.

To conclude, Deputy Presiding Officer, this Queen's Speech worries me greatly. It's true—David Cameron no longer has to negotiate with Nick Clegg. Instead, he has to do so with John Redwood, and that's not good for Wales. The Queen's Speech makes it perfectly clear that the right-wing nationalistic Tory backbenchers are now the ones in the driving seat dictating terms to No. 10. We no longer have a Government that governs in the national interest. Instead, we have one concentrating on narrow party political interest. I'm afraid the next five years look grim, but I am determined that the Welsh Liberal Democrats will continue to fight for the values we believe in.

O ran gwelliant 3 Plaid Cymru, ni fyddwn yn ei gefnogi. Yn hytrach na bod ag obsesiwn â phob dim Albanaidd, rydym am yr hyn sydd orau i Gymru. Rhaid i Gymru gael y pwerau y mae Cymru eu heisiau, nid adlewyrchu pob dim y mae'r Alban yn ei wneud. Mae'n llawer rhy bwysig i hynny. Rhaid i'r ymagwedd dameidiog tuag at ddatganoli ar draws y DU ddod i ben. Mae angen i ni edrych ar ddatganoli fel y gall gyflwyno system wirioneddol ffederal o'r diwedd, a'r system barhaol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud ei fod ei heisiau.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, mae Araith y Frenhines y tro hwn yn fy mhoeni'n fawr. Mae'n wir—nid yw David Cameron yn gorfod trafod gyda Nick Clegg mwyach. Yn lle hynny, mae'n rhaid iddo drafod gyda John Redwood, ac nid yw hynny'n dda i Gymru. Mae Araith y Frenhines yn ei gwneud yn berffaith glir mai asgell dde genedlaetholgar meinciau cefn y Toriaid yn awr yw'r rhai sydd wrth y llyw yn datgan y telerau ar gyfer Rhif 10. Nid oes gennym bellach Lywodraeth sy'n llywodraethu'r er budd cenedlaethol. Yn lle hynny, mae gennym un sy'n canolbwyntio ar ddiddordeb gwleidyddol pleidiol cul. Ofnaf fod y pum mlynedd nesaf yn edrych yn bur enbyd, ond rwy'n benderfynol y bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i ymladd dros y gwerthoedd rydym yn credu ynddynt.

14:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Leanne Wood to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Leanne Wood i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith nad yw Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â chynnig pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i'r Alban, neu sy'n cael eu cynnig i'r Alban.*

*Regrets that the UK Government's proposed Wales Bill falls short of offering comparable powers as those available to, or on offer to, Scotland.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.*

*Regrets the UK Government's intention to bring forward proposals to abolish the Human Rights Act 1998.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y DU yn gwrthod cymal mwyafrif dwbl ym Mil Refferendwm yr UE a'r penderfyniad i atal pobl 16 a 17 oed rhag pleidleisio yn y refferendwm hwnnw.*

*Regrets the UK Government's rejection of a double-majority clause in the EU Referendum Bill and the decision to block 16 and 17-year-olds from voting in that referendum.*

*Cynigiwyd gwelliannau 3, 4 a 5.*

*Amendments 3, 4 and 5 moved.*

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. My colleagues will be covering amendments 4 and 5, but I would like to focus on the most significant aspect of today's debate, which, of course, is the announcement of another Wales Bill. Throughout Wales's devolution journey, Plaid Cymru has consistently sought the best possible deal for everyone who has chosen to make Wales their home. That has and always will be our driving motivation as Wales's national party. Core to our *raison d'être* is the principle that it is those who live in Wales who are best placed to make decisions about Wales, that it is those people who call Wales their home who best understand the needs of our country. I have said previously that the party of Wales will contest the next election on whatever devolution dispensation is in place, but that does not mean that we will stop doing everything we can for a better devolution settlement. Plaid Cymru recognises that not all parties share the view that decisions on matters that affect Wales should be made in Wales, and that is why we agreed to sign up to the Silk commission process. That was a cross-party commission with nominees from each of the four main political parties, along with academic experts and considerable public engagement. It was, in fairness, a truly representative commission, and the report that it produced represented real consensus. It was disappointing and frustrating then, to see the Government's response in the St David's Day command paper, which will now form the basis of the Wales Bill.

Far from being an agreement, as the Secretary of State likes to call it, it falls well short of the consensus that Silk worked so hard to achieve. More importantly, though, it falls short of what the people in Wales expect and deserve. All of the parties compromised during the Silk process, and that includes Plaid Cymru. We did not see, for example, why some minor transfers of fiscal responsibility should be subjected to a referendum, particularly when English cities are set to acquire far greater financial responsibility without having to go through an expensive and distracting referendum.

Silk's consensus has been torn apart by the UK Government's response. What happened to that consensus that Wales's natural resources should be in the hands of people here in Wales? What happened to the consensus that Wales's Welsh-language TV channel should be in the hands of the people who use it? What happened to the consensus that it is people in Wales who are best placed to understand our country's transport needs? We find ourselves with a cherry-picked menu that trusts people in Wales to set their own speed limits but considers drink-drive limits far too complicated; a menu that considers water too valuable a resource to be in the hands of people here, but, go on, they can have control of sewerage.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd fy nghyd-Aelodau yn ymdrin â gwelliannau 4 a 5, ond hoffwn ganolbwyntio ar yr agwedd fwyaf arwyddocaol o ddadl heddiw, sef cyhoeddi Bil Cymru arall, wrth gwrs. Drwy gydol taith ddatganoli Cymru, mae Plaid Cymru wedi ceisio'r fargen orau bosibl yn gyson ar gyfer pawb sydd wedi dewis byw yng Nghymru. Dyna a fu ac a fydd y cymhelliad sy'n ein hysgogi fel plaid genedlaethol Cymru. Yn greiddiol i'n *raison d'être* y mae'r egwyddor mai'r rhai sy'n byw yng Nghymru sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am Gymru, mai'r bobl sy'n galw Cymru'n gartref sy'n deall anghenion ein gwlad orau. Rwyf wedi dweud o'r blaen y bydd Plaid Cymru yn ymladd yr etholiad nesaf ar ba oddefeb ddatganoli bynnag a fydd ar waith, ond nid yw hynny'n golygu y byddwn yn rhoi'r gorau i wneud popeth a allwn i gael setliad datganoli gwell. Mae Plaid Cymru yn cydnabod nad yw pob plaid yn rhannu'r farn y dylai penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar Gymru gael eu gwneud yng Nghymru, a dyna pam rydym wedi cytuno i ymrwymo i broses comisiwn Silk. Roedd yn gomisiwn trawsbleidiol gydag enwebeion o bob un o'r pedair prif blaid wleidyddol, ynghyd ag arbenigwyr academaidd ac ymgysylltiad cyhoeddus sylweddol. A bod yn deg, roedd yn gomisiwn gwirioneddol gynrychiadol, ac mae'r adroddiad a gynhyrchodd yn darparu consensws go iawn. Testun siom a rhwystredigaeth, felly, oedd gweld ymateb y Llywodraeth yn y papur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi, a fydd yn awr yn sail i Fil Cymru.

Ymhell o fod yn gytundeb, fel y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn hoff o'i alw, mae'n brin iawn o'r consensws y gweithiodd Silk mor galed i'w sicrhau. Yn fwy pwysig, fodd bynnag, mae'n llai na'r hyn y mae pobl Cymru yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu. Cyfaddawdodd pob un o'r pleidiau yn ystod proses Silk, ac mae hynny'n cynnwys Plaid Cymru. Nid oeddem yn gweld, er enghraifft, pam y dylai trosglwyddo rhai mân gyfrifoldebau cyllido fod yn destun refferendwm, yn enwedig o ystyried bod dinasoedd Lloegr yn mynd i gael llawer mwy o gyfrifoldeb ariannol heb orfod mynd drwy refferendwm drud a drysol.

Mae consensws Silk wedi cael ei ddarnio gan ymateb Llywodraeth y DU. Beth a ddigwyddodd i'r consensws y dylai adnoddau naturiol Cymru fod yn nwylo'r bobl yma yng Nghymru? Beth a ddigwyddodd i'r consensws y dylai sianel deledu Cymraeg Cymru fod yn nwylo'r bobl sy'n ei defnyddio? Beth a ddigwyddodd i'r consensws mai pobl yng Nghymru sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion trafnidiaeth ein gwlad? Rydym wedi cael bwydlen wedi'i dewis a'i dethol sy'n ymddiried ym mhobl Cymru i bennu eu terfynau cyflymder eu hunain ond sy'n ystyried terfynau yfed a gyrru yn llawer rhy gymhleth; bwydlen sy'n ystyried dŵr yn adnodd rhy werthfawr i fod yn nwylo pobl yma, ond o'r gorau, fe gânt reoli carthffosiaeth.



Llywydd, the Secretary of State says in his foreword to the St David's Day command paper that he wants to establish a clear devolution settlement for Wales that stands the test of time. If the devolution dispensation is to last, it must reflect the will of the people and it must respect Wales as an equal partner, and it must live up to the mantra that Wales is one among a family of nations. Any devolution package that treats Wales as second rate is destined to fail. And, I'm afraid that if the St David's Day command paper forms the basis of the Wales Bill, it has already failed the test of time. It leaves Wales languishing behind Scotland and Northern Ireland and will continue to leave Wales worse off in terms of funding. How can it be justified that while the going rate of devolution is on offer to Scotland, Wales is offered a third-rate settlement?

We are not calling for the going rate of devolution for the sake of symmetry; we want it so that we have the ability to grow our economy; so that people's potential here can be unlocked; so that we can use our wealth of natural resources to drive down energy costs for the people here. I ask you this afternoon, Secretary of State, please give us that justification. Tell us why people in Wales should not have the same funding per head as people in Scotland. The same principle applies to responsibilities. I must ask why the Secretary of State believes that Scotland's natural resources should be in the hands of people in Scotland but that Wales's natural resources should remain in the hands of Westminster politicians. Would he argue that we are less able as a people?

The command paper sets an upper limit of 350 MW on the Welsh Government's responsibility over energy and makes clear that projects would make a strategic contribution to Britain's energy needs. So, while Scotland should be allowed to decide on all energy matters regardless of their significance to the rest of these islands, any Welsh energy matters that would have significance for the other side of the border must be for Westminster to decide. Dirprwy Lywydd, it is these Westminster puppet strings that have held Wales back for far too long.

I will conclude on a more positive note, for there are some positives to be found here. I welcome the commitment to devolve power over fracking. People in many of our communities have consistently fought against fracking. The National Assembly took a majority vote to prevent fracking from taking place in Wales, and the UK Government must now respect that vote. We want you to commit to ensuring that no licences are awarded in Wales until the necessary powers have been devolved.

Lywydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud yn ei ragair i bapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi ei fod am sefydlu setliad datganoli clir ar gyfer Cymru sy'n gallu gwrthsefyll prawf amser. Os yw'r oddefeb ddatganoli i bara, rhaid iddi adlewyrchu ewyllys y bobl, a rhaid iddi barchu Cymru fel partner cyfartal. Rhaid iddi wireddu'r mantra fod Cymru yn un ymhlith deulu o genhedloedd. Mae unrhyw becyn datganoli sy'n trin Cymru yn eiradd yn sicr o fethu. Ac yn anffodus, os yw papur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi yn sail i Fil Cymru, mae eisoes wedi methu â gwrthsefyll prawf amser. Mae'n gadael Cymru yn llusgo ar ôl yr Alban a Gogledd Iwerddon a bydd yn parhau i adael Cymru yn waeth ei byd o ran cyllid. Sut y gellir cyfiawnhau bod datganoli go iawn yn cael ei gynnig i'r Alban a Chymru'n cael cynnig setliad o'r drydedd radd?

Nid ydym yn galw am ddatganoli go iawn er mwyn sicrhau cymesuredd; rydym am ei gael er mwyn sicrhau y gallwn dyfu ein heconomi, er mwyn datgloi potensial pobl yma, er mwyn defnyddio ein cyfoeth o adnoddau naturiol i ostwng costau ynni i bobl yma. Gofynnaf i chi y prynhawn yma, Ysgrifennydd Gwladol, i gyfiawnhau hynny. Dywedwch wrthym pam na ddylai pobl yng Nghymru gael yr un cyllid y pen â phobl yr Alban. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i gyfrifoldebau. Mae'n rhaid i mi ofyn pam y cred yr Ysgrifennydd Gwladol y dylai adnoddau naturiol yr Alban fod yn nwylo pobl yr Alban, ond y dylai adnoddau naturiol Cymru barhau i fod yn nwylo gwleidyddion San Steffan. A fyddai'n dadlau ein bod yn llai galluog fel pobl?

Mae'r papur gorchymyn yn gosod terfyn uchaf o 350 MW ar gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros ynni ac yn ei gwneud yn glir y byddai prosiectau yn gwneud cyfraniad strategol at anghenion ynni Prydain. Felly, er y dylai'r Alban gael yr hawl i benderfynu ar yr holl faterion ynni beth bynnag y bo'u harwyddocâd i weddill yr ynysoedd hyn, rhaid i unrhyw faterion ynni yng Nghymru a fyddai ag arwyddocâd yr ochr arall i'r ffin fod yn faterion i San Steffan eu penderfynu. Ddirprwy Lywydd, y llinynnau pyped hyn o San Steffan sydd wedi dal Cymru yn ôl yn llawer rhy hir.

Hoffwn gloi ar nodyn mwy cadarnhaol, gan fod rhai pethau cadarnhaol i'w cael yma. Croesawaf yr ymrwymiad i ddatganoli grym dros ffracio. Mae pobl mewn llawer o'n cymunedau wedi ymladd yn gyson yn erbyn ffracio. Pleidleisiodd mwyafrif yn y Cynulliad Cenedlaethol dros atal ffracio rhag digwydd yng Nghymru, a rhaid i Lywodraeth y DU barchu'r bleidlais honno yn awr. Rydym am i chi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw drwyddedau yn cael eu dyfarnu yng Nghymru tan y bydd y pwerau angenrheidiol wedi cael eu datganoli.

I welcome, too, the move towards a reserved powers model of devolution. This change is important in ensuring clarity on where responsibility lies, and I hope that it will mean significantly fewer visits to the Supreme Court. It will also be important in terms of changing attitudes towards devolution. The onus will now be on the UK Government to justify why a particular area should be reserved rather than for the Welsh Government to justify why it should be devolved, and it's right that it should be that way. Decisions that affect the people of Wales should be made in Wales by democratically elected representatives unless there is very good reason for those decisions to be made elsewhere. I very much hope to see the Secretary of State changing his own approach to devolution and stop seeking arguments for devolving and, instead, look for arguments for reserving.

While the principle of reserved powers has been conceded, the mentality within the UK Government remains in need of updating. It now looks as though the work of the Silk commission is destined for the same bookshelf as the Holtham report and the Richard report, both of which continue to gather dust. Plaid Cymru will not stop doing whatever we can to empower people in Wales to run their own affairs. The party of Wales will not rest until we see this country and its people treated as an equal and not an afterthought.

14:57

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

It is a pleasure to welcome the Secretary of State here to address on the Gracious Speech that was given some weeks ago in the House of Commons and House of Lords, and, obviously, the speech that was put together by the first elected majority Conservative Government since 1992, something that these benches worked tirelessly for for many months and years to be able to be in that position. I'm sorry there is such an opinion on that side of the Chamber. The doom and gloom is striking. However, I do take the point from the leader of Plaid Cymru that she struck a note of optimism. I think that optimism might be coming off the sunny disposition that Leighton Andrews shows in the Rhondda, because I notice, on his Twitter feed, he's a man with a very sunny disposition, he says, which is most probably something that we've all learned when we read his Twitter handle. [Interruption.] It's nice to see that I've got a rise out of them, if nothing else.

It's also good to hear the Secretary of State outlining what people are looking for via this institution—the National Assembly for Wales. People are looking at it being the home of Welsh democracy. They are looking at it as a place for answers and solutions to many of the problems that are faced by the people of Wales in their day-to-day lives. It is vital that maturity now does take hold and, ultimately, the constant constitutional arguments and debates that are around are not used as an excuse for the failure to deliver a health service that actually works for the people of Wales, an education system that educates the children of Wales, and, ultimately, an economy that creates the jobs that people require in the twenty-first century.

Rwyf hefyd yn croesawu'r symudiad tuag at fodel datganoli sy'n cadw pwerau. Mae'r newid hwn yn bwysig i sicrhau eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol, a gobeithiaf y bydd yn golygu llawer llai o ymweliadau â'r Goruchaf Lys. Bydd hefyd yn bwysig o ran newid agweddau tuag at ddatganoli. Bydd y cyfrifoldeb yn awr ar Lywodraeth y DU i gyfiawnhau pam y dylai maes penodol gael ei gadw'n ôl yn hytrach nag ar Lywodraeth Cymru i gyfiawnhau pam y dylid ei ddatganoli, ac mae'n iawn mai felly y dylai fod. Dylai penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Cymru gael eu gwneud yng Nghymru gan gynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd oni fo rheswm da iawn dros wneud y penderfyniadau hynny mewn man arall. Rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn newid ei agwedd ei hun at ddatganoli ac yn rhoi'r gorau i chwilio am ddadleuon dros ddatganoli ac yn lle hynny, yn chwilio am ddadleuon dros gadw pwerau.

Er bod egwyddor cadw pwerau wedi cael ei haddef, mae'n dal i fod angen diweddarau meddylfryd Llywodraeth y DU. Mae bellach yn edrych fel pe bai gwaith comisiwn Silk wedi'i dyngeddu i'w gadw ar yr un silff lyfrau ag adroddiad Holtham ac adroddiad Richard, y ddau ohonynt yn dal i hel llwch. Ni fydd Plaid Cymru yn rhoi'r gorau i wneud beth bynnag a allwn i roi grym i bobl Cymru reoli eu materion eu hunain. Ni fydd Plaid Cymru yn gorffwys nes ein bod yn gweld y wlad hon a'i phobl yn cael eu trin yn gyfartal ac nid fel ôl-ystyriaeth.

Mae'n bleser cael croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol yma i annerch ar yr Araith Rasol a roddwyd rai wythnosau'n ôl yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, ac yn amlwg, yr araith a gafodd ei llunio gan y Llywodraeth Geidwadol gyntaf a etholwyd drwy fwyafrif ers 1992, rhywbeth y gweithiodd y meinciau hyn yn ddiffino dros fisoedd a blynyddoedd lawer i allu bod yn y sefyllfa honno. Mae'n ddrwg gennyf fod barn o'r fath ar yr ochr honno i'r Siambr. Mae'r och a'r gwae yn drawiadol. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwynt gan arweinydd Plaid Cymru ei bod wedi lleisio nodyn o optimistiaeth. Rwy'n meddwl efallai fod yr optimistiaeth honno'n adlewyrchu oddi ar y natur heulog y mae Leighton Andrews yn ei ddangos yn y Rhondda, gan fy mod yn sylwi ar ei borthiant Twitter ei fod yn ddyd o natur heulog iawn, meddai, sy'n rhywbeth rydym i gyd wedi'i ddysgu o ddarllen ei enw cyfrif Twitter, mae'n siŵr. [Torri ar draws.] Mae'n braf gweld fy mod wedi llwyddo i'w pryfocio, os nad dim byd arall.

Mae hefyd yn dda clywed yr Ysgrifennydd Gwladol yn amlinellu beth y mae pobl yn chwilio amdano gan y sefydliad hwn—Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae pobl yn disgwyl iddo fod yn gartref i ddemocratiaeth yng Nghymru. Maent yn edrych arno fel man i gael atebion ac i ddatrys llawer o'r problemau y mae pobl Cymru yn eu hwynebu yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'n hanfodol bod aeddfedrwydd yn awr yn gwreiddio ac yn y pen draw, nad yw'r dadleuon a'r trafodaethau cyfansoddiadol cyson sy'n cael eu gwyntyllu yn cael eu defnyddio fel esgus dros y methiant i ddarparu gwasanaeth iechyd sy'n gweithio i bobl Cymru mewn gwirionedd, system addysg sy'n addysgu plant Cymru, ac yn y pen draw, economi sy'n creu swyddi sydd eu hangen ar bobl yn yr unfed ganrif ar hugain.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I do think that it is vital to remember the background of the general election, which was a general election that was fought with a growing economy and record economic growth—26,000 new businesses were created, 1.2 million people were having a tax break and, ultimately, 150,000 people were taken out of tax altogether. It's an economic record that is something that needs to be reiterated time and time again, because, as we do go forward in this new term of the Westminster Government, there is still much work to do. From the people from the Vale of Clwyd, from Brecon and Radnor, from Gower and, in particular, the other seats that voted Conservative—and the 407,000 people across the whole of Wales that voted Conservative—we now have a Government that will continue to deliver a strong economic platform to create those jobs and opportunities that people want the length and breadth of this country. As to the dissenting voices from the other side of the Chamber, particularly the Member from Alyn and Deeside there, what message of hope was he offering in the general election? We know what they were offering. It was roundly rejected. The Queen's Speech clearly identifies the progress of 27 Bills—whether they are Bills in draft form or Bills that will be brought forward to be voted on in the chamber in the Commons. The European Union Referendum Bill is the first Bill that seems to have grabbed the imagination of many people, and it is the people, ultimately, who will decide whether we stay within Europe. It is not the politicians. It was only the Conservative Party that was offering the road map forward for the people to have that say. The first act of the Government was to bring that referendum Bill forward, and I'm sure that there will be widespread discussion and debate leading up to that referendum, when the people will decide which way this country goes—whether we stay in or whether we go out.

The immigration Bill and the policing and criminal justice Bill are all Bills and measures that will strengthen the safety and security of these islands. In particular, I do welcome the special reference in the policing and criminal justice Bill to addressing mental health issues and the custody issues that people find. Whether that's in England or Wales, it's something that I think we can all share and rally around the sentiments. Hopefully, if that Bill is enacted, it will make a radical improvement to the people who do find themselves in that horrendous situation of being in police custody and yet they have a known mental health problem. I do very much hope that the Welsh Government will interact extensively on that Bill because this Chamber, in particular, has a very noble record on mental health issues. As health spokesman, I was very pleased to take forward the Conservative response in the last Assembly to the Mental Health (Wales) Measure 2010 that the previous health Minister brought into this Chamber.

Rwy'n credu bod rhaid cofio cefndir yr etholiad cyffredinol, a oedd yn etholiad cyffredinol a ymladdwyd gydag economi sy'n tyfu a thwf economaidd na welwyd ei debyg—crëwyd 26,000 o fusnesau newydd, gwelodd 1.2 miliwn o bobl ostyngiad yn eu trethi ac yn fwy na dim, sicrhawyd y byddai 150,000 o bobl yn rhoi'r gorau i dalu treth yn gyfan gwbl. Mae'n record economaidd sydd angen ei hailadrodd dro ar ôl tro, oherwydd, wrth i ni wynebu tymor newydd yn Llywodraeth San Steffan, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Oherwydd pobl Dyffryn Clwyd, pobl Brycheiniog a Maesyfed, pobl Gŵyr ac yn arbennig y seddau eraill a bleidleisiodd i'r Ceidwadwyr—a'r 407,000 o bobl ar draws Cymru a bleidleisiodd i'r Ceidwadwyr—mae gennym bellach Lywodraeth a fydd yn parhau i gyflwyno sylfaen economaidd gref ar gyfer creu'r swyddi a'r cyfleoedd y mae pobl eu heisiau ar hyd a lled y wlad. O ran y lleisiau gwrthwynebus ar yr ochr arall i'r Siambr, yn enwedig yr Aelod dros Alyn a Glannau Dyfrdwy, pa neges o obaith a gynigai ef yn yr etholiad cyffredinol? Rydym yn gwybod beth roeddent hwy'n ei gynnig. Cafodd ei wrthod hallt. Mae Araith y Frenhines yn nodi cynnydd 27 o Ffiliau yn glir—naill ai'n Ffiliau ar ffurf drafft neu'n Ffiliau a fydd yn cael eu cyflwyno i siambr Tŷ'r Cyffredin bleidleisio arnynt. Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd yw'r Bil cyntaf sydd i'w weld wedi gafael yn nychymyg llawer o bobl, a'r bobl, yn y pen draw, a fydd yn penderfynu a ydym yn aros yn Ewrop. Nid y gwleidyddion. Y Blaid Geidwadol yn unig a gynigiodd fap ar gyfer y ffordd ymlaen i bobl gael llais yn hynny. Gweithred gyntaf y Llywodraeth oedd cyflwyno'r Bil refferendwm, ac rwy'n siŵr y bydd trafodaeth a dadlau eang yn arwain at y refferendwm, pan fydd y bobl yn penderfynu pa ffordd y bydd y wlad hon yn mynd—a ydym yn aros i mewn neu'n gadael.

Mae'r Bil mewnfudo a'r Bil plismona a chyfiawnder troseddol oll yn Ffiliau a mesurau a fydd yn cryfhau diogelwch a diogeled yr ynysoedd hyn. Yn benodol, rwy'n croesawu'r cyfeiriad arbennig yn y Bil plismona a chyfiawnder troseddol at fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a'r problemau'n ymwneud â chadw pobl yn y ddalfa. Boed hynny yng Nghymru neu Loegr, mae'n rhywbeth y credaf y gallwn oll ei rannu a'i gefnogi. Os daw'r Bil i rym, gobeithio y bydd yn gwneud gwelliannau radical i'r bobl yn y sefyllfa erchyll o fod yn y ddalfa er bod ganddynt broblem iechyd meddwl y gwyddys amdani. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio'n helaeth ar y Bil hwnnw, am fod gan y Siambr hon, yn arbennig, hanes anrhydeddus iawn ar faterion iechyd meddwl. Fel llefarydd iechyd, roeddwn yn falch iawn o gyflwyno ymateb y Ceidwadwyr yn y Cynulliad diwethaf i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a gyflwynodd y Gweinidog iechyd blaenorol i'r Siambr hon.

Childcare is an issue that is synonymous with the modern family, whether that be a single-parent family or whether that be a two-parent family. If people wish to get back into work, if people wish to get on with their lives, childcare is a huge issue. The Bill that is enabling 30 hours of childcare in England, in particular, is something that I very much hope that the Welsh Government will look at, to see whether that can be introduced here in Wales. If it can't be introduced in Wales, obviously, it'll be for parties to decide in their manifestos, before the Assembly election, how they will be helping many families the length and breadth of Wales to deal with one of the real challenges that many of them face on a day-to-day basis—how to reconcile their commitments, whether they be in work or other commitments, with the responsibility to provide that care for the family.

The energy Bill has to be welcomed as well, in particular the announcement that the Secretary of State has talked about today. In particular, it is about devolving that responsibility—which is a theme that the Secretary of State talked about in his opening remarks—about devolving responsibility down to the lowest common denominator. In this instance, that's communities the length and breadth of Wales or England or the rest of the United Kingdom, and that's a sentiment that we share. It shouldn't just stop here in Cardiff. It shouldn't stop in Cathays park. It should be empowering communities the length and breadth—. What that is is a challenge for this Government here, this institution and the people of Wales, as cities and regions across England gain more autonomy over the decision-making process. In south Wales here, we see it on a day-to-day basis with the competition with Bristol, for example, and the directly elected mayor in Bristol. That is something that we cannot turn our backs on and, actually, we should embrace it. We shouldn't look at it as a challenge; we should look at it as an opportunity to actually create that competitive edge that actually gives Wales a clear advantage in the economic debate and argument that we need to win to bring quality jobs here to Wales.

The housing Bill has created much discussion in this Chamber and divides us, clearly, along political lines. On this side of the Chamber, we happen to believe that the right to buy is a massive socially empowering tool that ultimately brings forward the opportunity for people to own their own homes. We would welcome that opportunity to be brought here in Wales. It is a dividing line that will be discussed and debated ahead of the Assembly elections in 2016, but for the people in England, there will be this great opportunity for them, ultimately, to own their own home. I had thought that I had 10 minutes.

Mae gofal plant yn fater canolog i'r teulu modern, boed yn deulu un rhiant neu'n deulu dau riant. Os yw pobl yn dymuno dychwelyd i waith, os yw pobl yn dymuno bwrw ati â'u bywydau, mae gofal plant yn fater enfawr. Mae'r Bil sy'n galluogi pobl i gael 30 awr o ofal plant yn Lloegr, yn arbennig, yn rhywbeth rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych arno, i weld a ellir ei gyflwyno yma yng Nghymru. Os na ellir ei gyflwyno yng Nghymru, yn amlwg, mater i'r pleidiau ei benderfynu yn eu manifestos cyn etholiad y Cynulliad fydd sut y byddant yn helpu nifer o deuluoedd ar hyd a lled Cymru i ymdrin ag un o'r heriau go iawn y mae llawer ohonynt yn eu hwynebu'n ddyddiol—sut i gydbwysu eu hymrwymadau, boed yn ymrwymadau gwaith neu'n ymrwymadau eraill, a'r cyfrifoldeb i ofalu am y teulu.

Mae'n rhaid croesawu'r Bil ynni hefyd, yn arbennig y cyhoeddiad y soniodd yr Ysgrifennydd Gwladol amdano heddiw. Yn benodol, mae'n ymwneud â datganoli'r cyfrifoldeb—thema y siaradodd yr Ysgrifennydd Gwladol amdani yn ei sylwadau agoriadol—am ddatganoli cyfrifoldeb i lawr i'r cyfenwador lleiaf. Yn yr achos hwn, golyga hynny y cymunedau ar hyd a lled Cymru neu Loegr neu weddill y Deyrnas Unedig, ac mae'n awydd rydym yn ei rannu. Ni ddylai fod yn rhywbeth ar gyfer Caerdydd yn unig. Ni ddylai fod yn rhywbeth ar gyfer parc Cathays yn unig. Dylai rymuso cymunedau ar hyd a lled—. Mae'n her i'r Llywodraeth hon yma, y sefydliad hwn a phobl Cymru, wrth i ddinasoedd a rhanbarthau ar draws Lloegr ennill mwy o ymreolaeth dros y broses o wneud penderfyniadau. Yn ne Cymru yma, rydym yn ei weld o ddydd i ddydd yn y gystadleuaeth â Bryste, er enghraifft, a'r maer a etholwyd yn uniongyrchol ym Mryste. Dyna rywbeth na allwn droi ein cefnau arno ac mewn gwirionedd, dylem ei groesawu. Ni ddylem edrych arno fel her; dylem edrych arno fel cyfle i greu budd cystadleuol sy'n rhoi mantais eglur i Gymru mewn gwirionedd yn y ddadl economaidd sydd angen i ni ei hennill er mwyn dod â swyddi o ansawdd yma i Gymru.

Mae'r Bil tai wedi creu llawer o drafodaeth yn y Siambr hon ac mae'n ein rhannu, yn amlwg, ar hyd llinellau gwleidyddol. Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym yn digwydd credu bod yr hawl i brynu yn arf cymdeithasol enfawr sy'n grymuso, ac yn y pen draw yn cyflwyno cyfle i bobl fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Byddem yn croesawu'r cyfle hwnnw yma yng Nghymru. Mae'n llinell sy'n ein gwahanu a fydd yn destun trafod a dadlau cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, ond i bobl yn Lloegr, bydd cyfle gwych iddynt berchen ar eu cartrefi eu hunain yn y pen draw. Roeddwn wedi meddwl fod gennyf ddeng munud.

15:04

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You don't have 10 minutes. You have five minutes. I have been kind as you are the first Conservative I've called.

Nid oes deng munud gennych. Pum munud sydd gennych. Rwyf wedi bod yn garedig gan mai chi yw'r Ceidwadwr cyntaf i mi ei alw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:04	<b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Okay. With those sentiments, it is good to see you here today, Secretary of State. I welcome that opportunity, but in particular the reforms of the Wales Bill. That is something we want to see. It was great to see two schools from Clwyd West in the gallery earlier, watching the proceedings: the youth of today embracing the opportunity of tomorrow.	Iawn. Gyda'r teimladau hynny, mae'n dda eich gweld yma heddiw, Ysgrifennydd Gwladol. Rwy'n croesawu'r cyfle hwnnw, ond yn arbennig diwygiadau Bil Cymru. Mae hynny'n rhywbeth rydym am ei weld. Roedd yn wych gweld dwy ysgol o Orllewin Clwyd yn yr oriel yn gynharach, yn gwyllo'r trafodion: ieuenctid heddiw yn croesawu cyfle yfory.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:04	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you. I have a lot of speakers. I am pleased to say I intend to call you all, but you strictly now have five minutes. David Rees.	Diolch yn fawr. Mae gen i lawer o siaradwyr. Rwy'n falch o ddweud fy mod yn bwriadu eich galw chi i gyd, ond pum munud sydd gennych yn bendant. David Rees.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:04	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Diolch, Ddirprwy Lywydd. I welcome the opportunity to speak in today's debate. I would like to begin on a positive note. I do admit that there are a couple of proposals in the speech that I do look forward to seeing progressed, maybe with some trepidation. Firstly, I do welcome the forthcoming Wales Bill for further devolved powers; I believe it's long overdue. I do agree with the leader of the opposition and the Secretary of State, in fact, that people want to get their focus on public services—they do want that—but it's our responsibility to ensure that we have the powers to deliver those public services, and, therefore, it's a shame that, actually, we didn't take the opportunity, or you didn't take the opportunity, to actually strengthen the Wales Bill by full Silk 2 recommendations and perhaps by looking at parity with Scotland, which is what we asked for.	Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl heddiw. Hoffwn ddechrau ar nodyn cadarnhaol. Rwy'n cyfaddef bod un neu ddau o gynigion yn yr araith rwy'n edrych ymlaen at eu gweld yn cael eu datblygu, gyda rhywfaint o anesmwythyd efallai. Yn gyntaf, rwy'n croesawu Bil Cymru sydd ar y ffordd i roi pwerau datganoledig pellach; rwy'n credu ei bod yn hen bryd ei gael. Rwy'n cytuno ag arweinydd yr wrthblaid a'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn gwirionedd, fod pobl am ganolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus—maent eisiau hynny—ond ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod gennym y pwerau i gyflwyno'r gwasanaethau cyhoeddus hynny, ac felly, mae'n drueni, mewn gwirionedd, nad ydym wedi manteisio ar y cyfle, neu na fanteisiochi chi ar y cyfle, i gryfhau Bil Cymru mewn gwirionedd drwy argymhellion llawn Silk 2 ac efallai drwy edrych ar gydraddoldeb â'r Alban, sef yr hyn y gofynnwyd amdano.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:05	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:05	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Okay, fine. Go on.	Iawn. Ewch ymlaen.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:05	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Do you accept that Wales has all the powers it needs over the NHS and that your Government is still failing to deliver the step change in performance that we need?	A ydych yn derbyn bod gan Gymru yr holl bwerau sydd eu hangen arni dros y GIG a bod eich Llywodraeth yn dal i fethu cyflawni'r newid sylweddol mewn perfformiad sydd ei angen arnom?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:05	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The mantra doesn't stop from the Tory party at all. Let's go back to the serious business again. Whatever new powers come to this institution, I am confident that the Welsh Labour Government will, in future, deliver and support for the Welsh people, continuing to ensure that Wales's best interests are at the heart of its decisions, whichever powers it receives.	Nid oes terfyn o gwbl ar fantra'r blaid Doriaidd. Gadewch i ni fynd yn ôl at y materion difrifol eto. Pa bwerau newydd bynnag a ddaw i'r sefydliad hwn, rwy'n hyderus y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn y dyfodol yn cyflawni ac yn darparu cymorth ar gyfer pobl Cymru, gan barhau i sicrhau bod buddiannau gorau Cymru yn greiddiol i'w phenderfyniadau, pa bwerau bynnag a gaiff.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

I also actually welcome the introduction of a psychoactive substances Bill, which has been discussed, which aims to make the possession and distribution of these substances a criminal offence. These new generation drugs do devastate lives and families, and are being created at a rate that has left governments all over Europe and the world struggling to regulate them and assess them for safety. We, as the Health and Social Care Committee, recently completed our inquiry into these substances and recommended their prohibition, due to their harmful effects. I hope the results of our inquiry and the experiences seen in Ireland will inform the UK Government's deliberations on the matter to produce a strong and enforceable Bill.

However, despite these positive points, my overall response to the plans laid out in the speech is one of great fear at the prospect of another five years in which the poorest and most vulnerable in our society will be expected to bear the burden of the UK Government's dogmatic insistence on reducing the deficit at the expense of providing direct, decent public services. The continuation and deepening of public spending cuts will make it extremely challenging for governments at all levels to meet the needs of ordinary people, not least here in Wales, despite the continuing efforts of our Welsh Government to protect our most vital front-line services and sustain our communities.

What has been more telling is the actions that have been announced without any Bills in the Queen's Speech being debated yet: cuts to welfare benefits of £12 billion, including cuts to support for working families, cutting tax credits, no longer supporting young people to have a home through the removal of housing benefits, and cuts to disability benefits. The Institute of Fiscal Studies estimates that these will hit over 3.7 million families with an average loss of £1,400 per year. It clearly demonstrates any myth—and it was repeated this afternoon in the Chamber—that the Tories are on the side of the ordinary working person. Many of my constituents in Aberavon have already been adversely affected by the Tory cuts, which threaten the very fabric of our society, such as the cuts to child benefit allowance. These new cuts will only result in my communities facing harder struggles as they seek to protect their families. Government should be there to support our most vulnerable, not persecute them.

It's also a concern that the Queen's Speech attacks our democracy via the proposal contained within it to bring forward plans to restrict further the ability of trade unions to represent their members' interests and, if necessary, to take industrial action in the pursuit of a solution to a problem. No-one wants to take industrial action; it's always a last line of thought for people, and it's something because we need to get a solution. I'm a proud trade unionist, and I find the proposed ballot threshold represents not only an attack on civil liberties, but is also deeply hypocritical when put forward by politicians who in some cases would have failed to meet such a threshold in their own elections.

Rwyf hefyd yn croesawu'r bwriad i gyflwyno Bil sylweddau seicoweithredol, sydd wedi cael ei drafod, ac sy'n anelu i wneud meddiant ar y sylweddau hyn a'u dosbarthu yn drosedd. Mae'r cyffuriau cenhedlaeth newydd hyn yn dinistrio bywydau a theuluoedd ac yn cael eu creu ar raddfa sydd wedi ei gwneud yn anodd i lywodraethau ledled Ewrop a'r byd eu rheoleiddio ac asesu eu diogelwch. Rydym ni, fel Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi cwblhau ein hymchwiliad i'r sylweddau hyn yn ddiweddar ac wedi argymhell eu gwahardd, oherwydd eu heffeithiau niweidiol. Rwy'n gobeithio y bydd canlyniadau ein hymchwiliad a'r profiadau a welwyd yn Iwerddon yn llywio trafodaethau Llywodraeth y DU ar y mater i gynhyrchu Bil cryf a gorfodadwy.

Fodd bynnag, er gwaethaf y pwyntiau cadarnhaol hyn, fy ymateb cyffredinol i'r cynlluniau a nodir yn yr araith yw ofn mawr wrth feddwl am bum mlynedd arall pan fydd disgwyl i'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ddwyn baich penderfyniad dogmatig Llywodraeth y DU i leihau'r diffyg ar draul darparu gwasanaethau cyhoeddus gweddus ac uniongyrchol. Bydd parhau a dyfnhau toriadau gwariant cyhoeddus yn ei gwneud yn hynod o heriol i lywodraethau ar bob lefel ddiwallu anghenion pobl gyffredin, yn enwedig yma yng Nghymru, er gwaethaf ymdrechion parhaus Llywodraeth Cymru i warchod ein gwasanaethau rheng flaen mwyaf hanfodol a chynnal ein cymunedau.

Yr hyn a fu'n fwy trawiadol yw'r camau a gyhoeddwyd cyn y bu unrhyw drafod ar y Biliau yn Araith y Frenhines: toriadau i fudd-daliadau lles o £12 biliwn, gan gynnwys toriadau i gymorth ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio, torri credydau treth, rhoi diwedd ar gymorth i bobl ifanc gael cartref drwy gael gwared ar fudd-daliadau tai, a thoriadau i fudd-daliadau anabled. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd y rhain yn taro dros 3.7 miliwn o deuluoedd gyda cholled gyfartalog o £1,400 y flwyddyn. Mae'n arddangos mai myth—ac fe'i hailadroddwyd y prynhawn yma yn y Siambr—yw bod y Torïaid ar ochr y gweithiwr cyffredin. Mae llawer o fy etholwyr yn Aberafan eisoes wedi cael eu heffeithio'n niweidiol gan doriadau'r Torïaid, sy'n bygwth holl wead ein cymdeithas, megis y toriadau i lwfans budd-dal plant. Bydd y toriadau newydd hyn yn arwain at frwydrau anos i fy nghymunedau eu hwynebu wrth iddynt geisio diogel eu teuluoedd. Dylai Llywodraeth fod yno i gynorthwyo ein pobl fwyaf agored i niwed, nid eu herlid.

Mae hefyd yn bryder fod Araith y Frenhines yn ymosod ar ein democratiaeth drwy'r cynnig sydd ynddi i gyflwyno cynlluniau i gyfyngu ymhellach ar allu undebau llafur i gynrychioli buddiannau eu haelodau ac os oes angen, i weithredu'n ddiwydiannol er mwyn ceisio datrys problem. Nid oes neb yn dymuno gweithredu'n ddiwydiannol; mae bob amser yn gam terfynol i bobl, ac mae'n rhywbeth a wneir am ein bod angen ateb. Rwy'n undebwr llafur balch, ac mae'r trothwy pleidleisio arfaethedig yn ymosodiad ar hawliau sifil, a hefyd yn rhagrithiol iawn o gael ei gyflwyno gan wleidyddion a fyddai, mewn rhai achosion, wedi methu â chyrraedd trothwy o'r fath yn eu hetholiadau eu hunain.

I'm also concerned about the prospect of the UK leaving the EU. I've spoken of the benefits of continuing the UK's EU membership in this Chamber on several occasions, and I wish to re-emphasise the vital role that the European Union and the support we receive have played in maintaining the cohesion of our communities, particularly in Wales, throughout difficult socioeconomic circumstances, and at times when such support has not been so forthcoming from the central Government in Westminster. I have found that my view is mirrored by many of my constituents from all walks of life, for whom the prospect of leaving the EU would create great instability in their jobs and their futures and their communities. It's become a prevailing concern for many, particularly those at risk in our communities, and the Conservative Government's handling of this delicate—very delicate—issue, particularly uncertainty within businesses, actually jeopardises the sustainability of multiple EU-funded projects and our industrial futures, particularly in relation to industries such as Tata that depend on exports.

To conclude, Deputy Presiding Officer, on the EU, I wish that you would go for votes for 16 and 17-year-olds. It's their future, much more than it's my future. I've got a lot less to live than they have, and I hope that you actually include them in the voting on that issue, because it is a determination.

This programme contains some positives. I've said that.

Rwy'n pryderu ynglŷn â'r posibilrwydd hefyd y bydd y DU yn gadael yr UE. Rwyf wedi siarad am y manteision i'r DU o barhau yn aelod o'r UE yn y Siambr hon droeon, a hoffwn ail-bwysleisio'r rôl hanfodol y mae'r Undeb Ewropeaidd a'r cymorth a gawn wedi ei chwarae yn cynnal cydlyniant ein cymunedau, yn enwedig yng Nghymru, drwy amgylchiadau economaidd-gymdeithasol anodd, ac ar adegau pan nad oedd cymorth o'r fath i'w gael mor barod gan y Llywodraeth ganolog yn San Steffan. Rwyf wedi gweld bod fy marn yn cael ei hategu gan lawer o fy etholwyr o bob math o gefndir, a byddai'r posibilrwydd o adael yr UE yn creu ansefydlogrwydd mawr yn eu swyddi, eu dyfodol a'u cymunedau. Mae wedi tyfu'n bryder cyffredinol i lawer, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl yn ein cymunedau, ac mae'r modd y mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi trin y mater sensitif hwn—sensitif iawn—yn enwedig yr ansicrwydd ymhlith busnesau, mewn gwirionedd yn peryglu cynaliadwyedd nifer o brosiectau a ariennir gan yr UE a'n dyfodol diwydiannol, yn enwedig mewn perthynas â diwydiannau megis Tata sy'n dibynnu ar allforion.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, ar yr UE, hoffwn i chi gyflwyno pleidlais i rai 16 a 17 oed. Eu dyfodol hwy, yn llawer mwy na fy nyfodol i yw hyn. Mae gennyf lawer llai o amser i fyw nag sydd ganddynt hwy, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn eu cynnwys yn y bleidlais ar y mater hwn mewn gwirionedd, gan ei fod yn benderfyniad.

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys rhai pethau cadarnhaol. Rwyf wedi dweud hynny.

- 15:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Finish now, please. Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 15:10 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
But it gives me real concerns and fears, and my alarms are raised. Ond mae'n creu pryderon ac ofnau go iawn i mi, ac mae'n fy ngwneud yn wylidwrus.
- 15:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
A gaf i ddweud ar y cychwyn pa mor wahanol oedd sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol hwn wrth gymharu â'r dirmyg, sarhad a diffyg parch a ddangoswyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol diwethaf pan ddaeth i'r Siambr? Rwy'n croesawu agwedd mwy ffres ac agored yr Ysgrifennydd Gwladol hwn—bron mor ffres ac agored rwy'n difaru'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi ei fod yn dod i ben y siarâd o ddod i siarad yn y Siambr hon. Ond, fel roedd yr hyn bardd Tudur Aled yn ei ddweud, May I say at the outset how different the Secretary of State's comments were today in comparison with the arrogance and lack of respect shown by the last Secretary of State when he came to the Chamber? I welcome the fresher and more open approach taken by this Secretary of State—it's so fresh and open that I almost regret the fact that he has announced that we are ceasing this charade of having him speak in this Chamber. But, as Tudur Aled said,  
  
'Hysbys y dengys y dyn / O ba radd y bo'i wreiddyn'. 'Hysbys y dengys y dyn / O ba radd y bo'i wreiddyn'.  
  
Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dangos bod ei wreiddyn yn dipyn mwy parchus a chymeradwy nag ambell i berson arall sydd wedi annerch y Siambr hon. The Secretary of State has shown that his roots are significantly more respectable and laudable than some others who have spoken in this Chamber.

Ond wedi dweud hynny, fe fyddaf i, a Phlaid Cymru, yn dal i wrthwynebu nifer fawr o'r cynigion sydd yn Araith y Frenhines hon. Yn benodol, mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Ysgrifennydd Gwladol nid barn Plaid Cymru yw bod Cymru yn ddinas-ranbarth i'w thrin fel rhan o ddatganoli sydd yn digwydd yn San Steffan. Mae Cymru yn genedl; yn genedl gyda phriod hawliau, priod ieithoedd a phriod rinweddau, ac fe ddylai gael ei thrin fel cenedl, gyda'r un parch â chenedloedd eraill sydd yn ffurfio'r undeb presennol.

Yn y cyd-destun hwnnw, er bod Plaid Cymru'n croesawu, wrth gwrs, y ffaith y byddwn ni'n gweld datblygu pellach i'r pwerau a ddaw i'r Cynulliad hwn, ac yn arbennig yn croesawu'r ffaith y byddwn ni'n meddu ar hawliau trethi yn ystod y pum mlynedd nesaf, rŷm ni am ein gweld ni'n cael ein trin gyda'r un cydraddoldeb â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd yn drawiadol iawn, rwy'n meddwl, fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu dweud yn yr Alban bod Llywodraeth San Steffan yn gweithredu argymhellion llawn Smith, ac yng Ngogledd Iwerddon bod Llywodraeth San Steffan yn gweithredu argymhellion llawn y consensws a oedd wedi'i gyrraedd yno, ond yma, yng Nghymru, nid consensws Silk oedd yn mynd i gael ei weithredu, ond y cyfaddawd anffodus a gyhoeddwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Wrth gwrs, ni fyddwn ni'n gwrthwynebu hynny, ond byddwn ni'n dal i bwysio am yr adrannau hynny o Silk sydd mor bwysig yn ein barn ni ar gyfer datblygu'r genedl a datblygu'r economi yma. Er enghraifft, er ichi gyhoeddi y bydd ynni gwynt yn cael ei ddatganoli, Ysgrifennydd Gwladol, nid oeddwn yn siŵr ai hyd at uchafswm o 350 MW yr oeddech yn sôn amdano, neu'r cyfan holl. Felly, byddwn i'n licio clywed beth yw'r cadarnhad yn fanna, ac wrth gwrs roedd Silk hefyd yn dweud y dylai Cymru gael hawl dros Ystadau'r Goron yma yng Nghymru, ac mae hwnnw wedi cael ei adael o'r neilltu. Mae'n bwysig iawn, i ddatblygu adnoddau naturiol, ein bod ni'n meddu ar y pethau hyn.

Fel y dywedodd Leanne Wood, nid ydym yn gweld chwaith, yn dilyn y llw a'r datblygiadau yn yr Alban—a datblygiadau hefyd mewn dinasoedd mawr fel Manceinion, fel rŷch chi'n ei ddweud—fod angen refferendwm i symud tuag at roi cyfrifoldeb trethi yn y lle hwn ac i wneud unrhyw Lywodraeth, gan ddechrau gyda'r Llywodraeth bresennol, yn fwy cyfrifol am y gwariant sydd gyda nhw, ac yn fwy cyfrifol, felly, am y ffordd y maen nhw'n cynnal gwasanaethau cyhoeddus ac yn hybu'r economi.

Bydd Plaid Cymru, wrth gwrs, yn gwrthwynebu yn arbennig eich dewis chi fel Llywodraeth i benderfynu ar doriadau i fudd-daliadau, gan gychwyn gyda phobl mewn gwaith—hynny yw, 'tax credits'—gan eu bod yn cynnal yr economi ac yn arbennig o bwysig i ni ac i'r bobl yr ydym ni'n eu cynrychioli. Byddwn ni hefyd yn gwrthwynebu nifer o bobl yn San Steffan yn eich plaid chi sy'n dymuno tynnu'r undeb presennol sydd gennym allan o'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn ni'n dal i wrthwynebu hynny. Felly, mae yna bethau yn Araith y Frenhines sydd yn gosod her i Plaid Cymru, ond byddwn ni'n gobeithio cwrdd â'r her yna, gan groesawu'r camau sy'n cryfhau'r genedl tra'n gwrthwynebu'r camau hynny sydd yn mynd i fod yn fygythiad i'n cymunedau ni a'r bobl rŷm ni'n eu cynrychioli.

But, having said that, I and Plaid Cymru will continue to oppose many of the proposals in the Queen's Speech. Specifically, I have to tell the Secretary of State that it's not Plaid Cymru's view that Wales is a city region to be treated as part of the devolution happening in Westminster. Wales is a nation; a nation with its own rights, its own indigenous languages and its own merits, and it should be treated as a nation and shown the same respect as the other nations that make up the union as it's currently formed.

In that context, although Plaid Cymru welcomes the fact that we will be seeing further development in the powers available to this Assembly, and particularly welcomes the fact that we will have taxation powers in the next five years, we do want Wales to be treated with the same equality as Scotland and Northern Ireland. It was very striking that the Secretary of State could say in Scotland that the Westminster Government was implementing the Smith recommendations in full, and in Northern Ireland that the Westminster Government was implementing in full the recommendations of the consensus achieved there, but here, in Wales, it's not the Silk consensus that is to be implemented, but the unfortunate compromise that was announced on St David's Day.

Of course, we wouldn't oppose that, but we would still be seeking the devolution of those sections of Silk that are so important in our opinion for the development of our nation and the development of the economy. For example, although you announced that wind energy was to be devolved, Secretary of State, I wasn't sure if you were saying up to a maximum of 350 MW or all of wind energy. So, I would like to hear some confirmation on that issue. Of course, Silk also said that Wales should have rights over the Crown Estates here in Wales, and that has also been put to one side. It's very important for the development of our natural resources that we have these powers.

As Leanne Wood said, we don't see either, following the pledge and the developments in Scotland—and developments in major cities such as Manchester, as you said—that we need a referendum in order to move towards having taxation powers in this place and to make any Government, starting with the current Government, more responsible for the expenditure that they make and more responsible, therefore, for the way in which they maintain and deliver public services and develop the economy.

Plaid Cymru, of course, will be particularly opposed to your choice as a Government to cut benefits, starting with in-work benefits in terms of the tax credits, as these credits underpin the economy and are particularly important to us and the people we represent. We will also oppose those people in your party in Westminster who want to withdraw the union that we currently have from the European Union. We will continue to oppose that. So, there are things in this Queen's Speech that are a challenge to Plaid Cymru, but we hope to meet the challenge, and we welcome the steps that strengthen the Welsh nation whilst opposing those steps that will be a threat to our communities and the people we represent.



You have come and shown greater respect, as I said, than your predecessor to this Chamber. I hope you will demonstrate that respect in one important aspect of the Queen's Speech that has already been touched upon by Kirsty Williams. It is clear, with the developments of the Smith Commission in Scotland, that the Sewel convention will be enshrined in Scottish law and UK law as the way of doing business. With your much-to-be-welcomed statement on reserved powers as the way forward for Wales, then surely it is time for that Sewel convention to be made similarly placed in statute in the new Wales Bill. The implications of that, of course, for the Human Rights Act is that we need the assent of this Assembly before the Human Rights Act is changed within Wales. Notwithstanding the fact that we don't have our separate legal jurisdiction, I hope that the respect that you've shown in your tone and your words today will be reflected in those actions.

Rydych wedi dod ac wedi dangos mwy o barch, fel y dywedais, na'ch rhagflaenydd tuag at y Siambr hon. Rwy'n gobeithio y byddwch yn dangos yr un parch tuag at un agwedd bwysig ar Araith y Frenhines a grybwyllwyd eisoes gan Kirsty Williams. Gyda datblygiadau Comisiwn Smith yn yr Alban, mae'n amlwg y bydd confensiwn Sewel yn cael ei ymgorffori yng nghyfraith yr Alban a chyfraith y DU fel y ffordd i gynnal busnes. Gyda'ch datganiad sydd i'w groesawu'n fawr ar gadw pwerau fel y ffordd ymlaen i Gymru, onid yw'n bryd i gonfensiwn Sewel gael ei roi mewn statud yn yr un modd yn y Bil Cymru newydd? Goblygiadau hynny, wrth gwrs, o ran y Ddeddf Hawliau Dynol yw bod angen cydsyniad y Cynulliad hwn cyn i'r Ddeddf Hawliau Dynol gael ei newid yng Nghymru. Er nad oes gennym ein hawdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, rwy'n gobeithio y bydd y parch rydych wedi ei ddangos yn eich ymagwedd a'ch geiriau heddiw yn cael ei adlewyrchu yn y gweithredoedd hynny.

15:15

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like others this afternoon, I'd like to start my remarks by welcoming the Secretary of State to this place and welcoming the comments that he's made this afternoon. I think he might have done himself something of a disservice in describing his presence here as an anachronism. I think many of us want to see the institutional relationships between the different institutions of the United Kingdom strengthened, deepened and broadened, and not wrought asunder.

I also welcome the comments that he made in the media today about moving devolution and the debate on devolution beyond party politics, and the words he used about the Conservative party embracing devolution in Wales, throughout Wales and across the United Kingdom. It is time, I hope, that we will be able to move this debate away from party politics. I think people in all parties, at different times, have confused centralism with unionism, and we've preferred to play out those arguments rather than look towards the more important aspects of a debate that we all need to have. He's also right that we need to move away from the structures of a Victorian unitary state. I very much welcome the steps that have been taken in England to ensure that we do have stronger devolution throughout that country as well. I welcome some of what he said in what he calls the St David's Day agreement, although I would like to ask him, 'an agreement with whom?' I've yet to meet anybody who agrees with him who is not a member of the Conservative party.

But I think we need to move further and have a more fundamental debate. If we are to respond with generosity and grace to the comments that the Secretary of State has made, and I believe that we should, we also have to consider the document that he has issued. My fear is that it will be seen in history to be a timid document, a document that does not rise up to the challenges of developing relationships between home-rule parliaments and the UK Parliament and self-governing communities in England. We need to look at a settled settlement in the United Kingdom, one that we do not have today. My concern is that this document does not lay the basis for that.

Fel eraill y prynhawn yma, hoffwn ddechrau fy sylwadau drwy groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'r lle hwn a chroesawu'r sylwadau a wnaeth y prynhawn yma. Rwy'n credu efallai ei fod yn gwneud anghymwynas â'i hun yn disgrifio ei bresenoldeb yma fel anacroniaeth. Rwy'n meddwl bod llawer ohonom am weld y berthynas sefydliadol rhwng gwahanol sefydliadau'r Deyrnas Unedig yn cael eu cryfhau, eu dyfnhau a'u hehangu, ac nid wedi'u rhwygo ar wahân.

Rwyf hefyd yn croesawu'r sylwadau a wnaeth yn y cyfryngau heddiw am symud datganoli a'r ddatl ar ddatganoli y tu hwnt i wleidyddiaeth plaid, a'r geiriau a ddefnyddiodd am y blaid Geidwadol yn croesawu datganoli yng Nghymru, ledled Cymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Rwy'n gobeithio ei bod hi'n bryd i ni allu symud y ddatl hon oddi wrth wleidyddiaeth plaid. Rwy'n credu bod pobl ym mhob plaid, ar wahanol adegau, wedi drysu rhwng canoliaeth ac unoliaetholdeb, ac mae wedi bod yn well gennym ddefnyddio'r dadleuon hynny yn hytrach nag edrych tuag at agweddau pwysicach ar y ddatl y mae angen i ni i gyd ei chael. Mae hefyd yn iawn fod angen i ni symud oddi wrth strwythurau gwladwriaeth unedol Fictoriaidd. Rwy'n croesawu'n fawr y camau a gymerwyd yn Lloegr i sicrhau ein bod yn cael datganoli cryfach ledled y wlad honno hefyd. Rwy'n croesawu peth o'r hyn a ddywedodd yn yr hyn y mae'n ei alw'n gytundeb Dydd Gŵyl Dewi, er y byddwn yn hoffi gofyn iddo, 'cytundeb â phwy?' Rwyf eto i gyfarfod ag unrhyw un sy'n cytuno ag ef nad yw'n aelod o'r blaid Geidwadol.

Ond rwy'n credu bod angen i ni symud ymhellach a chael dadl fwy sylfaenol. Os ydym am ymateb gyda haelioni a gras i'r sylwadau a wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, ac rwy'n credu y dylem, rhaid i ni hefyd ystyried y ddogfen y mae wedi ei chyhoeddi. Fy ofn yw y bydd hanes yn edrych arni fel dogfen wanganol, dogfen nad yw'n ymateb i'r her o ddatblygu perthynas rhwng y seneddau ymreolaethol a Senedd y DU a chymunedau hunanlywodraethol yn Lloegr. Mae angen i ni edrych ar setliad sefydlog yn y Deyrnas Unedig, un nad oes gennym heddiw. Fy mhryder i yw nad yw'r ddogfen hon yn gosod y sylfaen ar gyfer hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I remember conversations with Secretaries of State in both the Department for Environment, Food and Rural Affairs and the Department of Energy and Climate Change where water, natural resources and energy were discussed, and none of the issues and problems that have been identified in the paper published this year were identified during those conversations. In fact, the only problem that was identified during those negotiations and discussions was that of the Wales Office itself, which objected to devolution of those subjects. That is my memory of those conversations. I'm glad to see that today the Wales Office is moving ahead and is driving forward those discussions. But I must say to you, Secretary of State, that, if we are to have a clear and settled devolution structure within the United Kingdom, it must move far beyond the document that you have issued. We do need to look towards the devolution of powers over the police and a legal jurisdiction here in Wales. Those are fundamentals for a clear and enduring settlement.

We also have to have the financial powers and the funding in place to enable services to be delivered. I've already said in this Chamber that I do not believe a referendum is necessary for us to move forward on those issues. No referendum has been suggested for devolution to communities in England and I do not believe that a further referendum is needed here. What is needed, though, is a very clear agreement on the financial powers available to us.

I share concerns that have been raised by others—notably my good friend David Rees—about this Government's approach to relationships with the European Union. The Secretary of State will know from his own constituency the importance of the European Union to the communities of Wales. He will know that the agricultural community in Pembrokeshire is sustained by European funding. It is not true to suggest that we will be able to sustain the agricultural community without European funding, or that funding can be found from within some budget elsewhere post that. But we have to go beyond a transactional relationship with the European Union. It speaks to us of who we are as a people and who we want to be. I do not want to see the United Kingdom as some shrunken, Ruritanian, little-Englander nightmare. I want to see the United Kingdom leading debate in Europe and not running, frightened, away from it.

But let me say this in closing: the test I will set you, Secretary of State, for the success or failure of this Government is what happens to the people of Blaenau Gwent. Welfare reform has already taken £30 million a year out of the communities of Blaenau Gwent. That's not £30 million taken away from the strongest, the most powerful and the wealthiest—it's £30 million that is increasing child poverty and leading to greater and more intense hardship than ever. If you are up to your words, and if you stand by the challenges you've set yourself, you will protect the poorest and most vulnerable and you will ensure that it is the wealthiest and most powerful who share the burden.

Rwy'n cofio trafodaethau gydag Ysgrifennyddion Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd lle y trafodwyd dŵr, adnoddau naturiol ac ynni, ac ni thynnwyd sylw at yr un o'r materion a'r problemau a nodwyd yn y papur a gyhoeddwyd eleni yn ystod y trafodaethau hynny. Yn wir, yr unig broblem a nodwyd yn ystod y trafodaethau hynny oedd Swyddfa Cymru ei hun, a oedd yn gwrthwynebu datganoli'r pynciau hynny. Dyna fy nghof am y sgysiau hynny. Rwy'n falch o weld heddiw fod Swyddfa Cymru yn symud y trafodaethau hyn yn eu blaenau. Ond mae'n rhaid i mi ddweud wrthy, Ysgrifennydd Gwladol, os ydym am gael strwythur datganoli clir a chytûn yn y Deyrnas Unedig, rhaid iddo symud ymhell y tu hwnt i'r ddogfen rydych wedi'i chyflwyno. Mae angen i ni edrych tuag at ddatganoli pŵerau dros yr heddlu ac awdurdodaeth gyfreithiol yma yng Nghymru. Mae'r rheini'n hanfodol ar gyfer sicrhau setliad clir a pharhaus.

Rhaid i ni hefyd gael y pŵerau ariannol a'r cyllid yn ei le i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau. Rwyf wedi dweud eisoes yn y Siambr hon nad wyf yn credu bod angen refferendwm i ni symud ymlaen ar y materion hynny. Ni chafodd refferendwm ei hawgrymu ar gyfer datganoli i gymunedau yn Lloegr ac nid wyf yn credu bod angen refferendwm pellach yma. Yr hyn sydd ei angen, fodd bynnag, yw cytundeb clir iawn ar y pŵerau ariannol sydd ar gael i ni.

Rwy'n rhannu pryderon a godwyd gan eraill—yn fwyaf amlwg gan fy nghyfaill, David Rees—ynghylch agwedd y Llywodraeth hon at y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwybod o'i etholaeth ei hun pa mor bwysig yw'r Undeb Ewropeaidd i gymunedau Cymru. Bydd yn gwybod bod y gymuned amaethyddol yn Sir Benfro yn cael ei chynnal gan arian Ewropeaidd. Nid yw'n wir i awgrymu y byddwn yn gallu cynnal y gymuned amaethyddol heb arian Ewropeaidd, neu y gellir dod o hyd i gyllid o ryw gyllideb arall wedyn. Ond mae'n rhaid i ni fynd y tu hwnt i berthynas drafodaethol â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n mynegi pwy ydym fel pobl a phwy rydym eisiau bod. Nid wyf am weld y Deyrnas Unedig fel rhyw fath o Loegr fach grebachlyd, Rwrwanaidd, hunllefus. Rwyf am weld y Deyrnas Unedig yn arwain y dadlau yn Ewrop ac nid yn rhedeg oddi wrthi mewn braw.

Ond gadewch i mi ddweud hyn wrth gloi: y prawf rwy'n ei osod i chi, Ysgrifennydd Gwladol, i fesur llwyddiant neu fethiant y Llywodraeth hon yw beth sy'n digwydd i bobl Blaenau Gwent. Mae diwygio lles eisoes wedi mynd â £30 miliwn y flwyddyn oddi wrth gymunedau Blaenau Gwent. Nid £30 miliwn wedi'i gymryd oddi wrth y cryfaf, y mwyaf pŵerus a'r cyfoethocaf yw hynny—mae'n £30 miliwn sy'n gwaethygu tlodi plant ac yn arwain at fwy o galedi, a chaledi mwy dwys nag erioed. Os yw'r hyn a ddywedwch yn wir, a'ch bod am ymateb i'r heriau a osodoch i chi'ch hun, fe fyddwch yn amddiffyn y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed ac fe fyddwch yn sicrhau mai'r cyfoethocaf a'r mwyaf pŵerus a fydd yn rhannu'r baich.

I'm pleased to take part in this debate and highlight how the UK Government's legislative programme will be delivering real benefits for this institution and for the people that it represents. I'll therefore be focusing my comments this afternoon on the UK Government's specific proposals within the forthcoming Wales Bill.

I'm delighted to see a new reserved powers model for Welsh devolution in the proposed Wales Bill, which will, of course, include a list of policies that are reserved to the UK Parliament. Now, Members will be aware that I campaigned for this very model a number of years ago in this very Chamber, with Members from all parties, and I'm pleased to see that agenda now progressing and that it will become a reality in due course. This new model has not only been widely supported by politicians, but also by organisations and businesses across Wales, which quite simply want a clearer and more transparent understanding about what is and what isn't devolved.

The BMA's Welsh council chair, Phil Banfield, and Welsh secretary, Richard Lewis, gave evidence to the Silk commission regarding the Human Transplantation (Wales) Bill, as it was at the time, and used it as an example of the jagged-edged model of devolution here in Wales. They argued that there was initial ambiguity over whether Wales had the necessary powers to develop policy around organ donation in Wales. Therefore, moving to a reserved powers model would result in greater clarity over these sorts of issues, and it would also remove any potential tensions in the future between the Assembly and Westminster, which must be good for our democracy.

The Federation of Small Businesses, too, have called for a move to a reserved powers model, arguing that businesses prize clarity in their working environment and that a functional devolution settlement is needed to enable Wales to benefit most effectively from all tiers of government. Therefore, I'm delighted to see legislation in this Queen's Speech that will strengthen the constitutional settlement and, at the same time, better support businesses, which so need the clarity over what is and isn't devolved.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon ac o dynnu sylw at sut y bydd y rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn sicrhau manteision gwirioneddol i'r sefydliad hwn ac i'r bobl y mae'n eu cynrychioli. Felly, rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau y prynhawn yma ar gynigion penodol Llywodraeth y DU yn y Bil Cymru sydd ar ddod.

Rwyf wrth fy modd yn gweld model newydd cadw pwerau o ddatganoli i Gymru yn y Bil Cymru arfaethedig, a fydd, wrth gwrs, yn cynnwys rhestr o'r polisiau a gedwir gan Senedd y DU. Nawr, bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi ymgyrchu dros yr union fodel hwn nifer o flynyddoedd yn ôl yn y Siambr hon, gydag Aelodau o bob plaid, ac rwy'n falch o weld yr agenda honno bellach yn cael ei datblygu ac y caiff ei gwredu maes o law. Mae'r model newydd hwn wedi cael cefnogaeth eang nid yn unig gan wleidyddion, ond hefyd gan sefydliadau a busnesau ledled Cymru sydd eisiau dealltwriaeth gliriach a mwy tryloyw o'r hyn sydd, a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli.

Rhoddodd Cadeirydd cyngor Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA), Phil Banfield, a'u hysgrifennydd yng Nghymru, Richard Lewis, dystiolaeth i gomisiwn Silk ynghylch y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), fel yr oedd ar y pryd, a'i ddefnyddio fel enghraifft o fodel datganoli ag ymylon garw yma yng Nghymru. Dadleuent fod yna amwysedd i gychwyn ynglŷn ag a oedd gan Gymru y pwerau angenrheidiol i ddatblygu polisi ar roi organau yng Nghymru. Felly, byddai symud at fodel cadw pwerau yn arwain at fwy o eglurder ynghylch y mathau hyn o faterion, a byddai hefyd yn cael gwared ar unrhyw densynau posibl yn y dyfodol rhwng y Cynulliad a San Steffan, a rhaid bod hynny o fudd i'n democratiaeth.

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd wedi galw am symud i fodel cadw pwerau, gan ddadlau bod busnesau'n ffafrio eglurder yn eu hamgylchedd gwaith a bod angen setliad datganoli gweithredol i alluogi Cymru i elwa'n fwyaf effeithiol ar bob haen o lywodraeth. Felly, rwyf wrth fy modd yn gweld deddfwriaeth yn Araith y Frenhines a fydd yn cryfhau'r setliad cyfansoddiadol ac ar yr un pryd, yn rhoi cymorth gwell i fusnesau, sydd cymaint o angen eglurder ynglŷn â beth sydd wedi ei ddatganoli a beth sydd heb gael ei ddatganoli.

I'm also pleased to see that powers will be transferred to the National Assembly over its own elections and, of course, local government elections in Wales, enabling the Assembly to decide whether or not 16 and 17-year-olds should vote in those elections. I've long argued for that decision to be made here in Wales, and Members will be quite aware that I believe young people aged 16 and 17 should have a say in electing or dismissing politicians, who are making choices about some of the most important aspects of their lives. Of course, I'm very conscious that not everyone will agree with me on this matter. However, three years ago, we had an individual Member debate on this very issue, with Members from all parties supporting a motion to lower the voting age. For me, personally, it's not right that young people are expected to pay taxes but have no influence whatsoever on the politicians who make decisions on those taxes. The Secretary of State earlier used the phrase 'no taxation without representation' in another context; well, it's certainly relevant in this context. I personally believe that someone who is 16 years old is capable of making political decisions that affect their lives. Whether or not you agree with my view on this particular issue is one thing, but I sincerely hope that Members will at least recognise that decisions such as whether or not 16 and 17-year-olds should vote in Assembly and local government elections should be taken here in the National Assembly for Wales.

The proposed Wales Bill will also offer provisions to place the permanence of the National Assembly and the Welsh Government on a statutory footing and enshrine the legislative consent process in law. The Assembly grants consent through legislative consent motions, and Members will know that the Silk commission called for this procedure to be formalised, and I'm pleased that the UK Government agree with that view that the convention should be formalised and placed on a statutory footing, recognising that this is now a proper parliament. The previous UK Government, and now this UK Government, is handing more power and autonomy to our local communities and bringing politics and decision making closer to the people.

I believe the people of Wales should be empowered by being given greater scope to control the destiny of their own lives and given greater opportunities to take more responsibility for themselves and their wider community. We, on this side of the Chamber, want to see Wales as an empowering state, not an overpowering state, and the proposals within the Wales Bill provide levers to the Welsh Government, with the tools to get on with the job of delivering for the people of Wales. The UK Government is clearly devolving power to this institution. The challenge for the Welsh Government is now to ensure that power is devolved to our communities. Clearly, the UK Government is playing its part in Wales's constitutional journey and now it's time for the Welsh Government to do the same.

Rwy'n falch o weld y bydd pwerau'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol dros ei etholiadau ei hun ac wrth gwrs, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru hefyd, gan alluogi'r Cynulliad i benderfynu a ddylai rhai 16 a 17 oed gael pleidleisio yn yr etholiadau hynny. Rwyf wedi dadlau ers amser dros wneud y penderfyniad hwnnw yma yng Nghymru, a bydd yr Aelodau'n ymwybodol iawn fy mod yn credu y dylai pobl ifanc 16 a 17 oed gael llais yn ethol neu gael gwared ar wleidyddion sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rhai o'r agweddau mwyaf pwysig ar eu bywydau. Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol iawn na fydd pawb yn cytuno â mi ar y mater hwn. Fodd bynnag, dair blynedd yn ôl, cawsom ddadl Aelod unigol ar yr union fater hwn, gydag Aelodau o bob plaid yn cefnogi cynnigi i ostwng yr oedran pleidleisio. I mi'n bersonol, nid yw'n iawn fod disgwyl i bobl ifanc dalu trethi heb gael unrhyw ddylanwad o gwbl ar y gwleidyddion sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch y trethi hynny. Defnyddiodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr ymadrodd 'dim trethiant heb gynrychiolaeth' yn gynharach mewn cyd-destun arall; wel, mae'n sicr yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Yn bersonol, rwy'n credu bod rhywun sy'n 16 oed yn gallu gwneud penderfyniadau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Pa un a ydych yn cytuno â fy marn ar y mater penodol hwn ai peidio, rwy'n mawr obeithio y bydd yr Aelodau o leiaf yn cydnabod y dylai penderfyniadau fel a ddylai rhai 16 a 17 oed gael pleidleisio ai peidio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol gael eu gwneud yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y Bil Cymru arfaethedig hefyd yn cynnigi darpariaethau i osod sefydlogrwydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar sail statudol ac ymgorffori'r broses cydsyniad deddfwriaethol mewn cyfraith. Mae'r Cynulliad yn rhoi caniatâd drwy gynigion cydsyniad deddfwriaethol, a bydd yr Aelodau'n gwybod bod comisiwn Silk wedi galw am ffurfioli'r weithdrefn hon. Rwy'n falch fod Llywodraeth y DU yn cytuno â'r farn honno y dylai'r confensiwn gael ei ffurfioli a'i osod ar sail statudol, gan gydnabod bod hon bellach yn senedd go iawn. Roedd Llywodraeth flaenorol y DU, ac mae'r un bresennol yn awr, yn estyn mwy o bŵer ac ymreolaeth i'n cymunedau lleol ac yn dod â gwleidyddiaeth a'r broses o wneud penderfyniadau yn nes at y bobl.

Rwy'n credu y dylai pobl Cymru gael eu grymuso drwy roi mwy o gyfle iddynt reoli tynged eu bywydau eu hunain a chael mwy o gyfleoedd i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb drostynt eu hunain a'u cymuned ehangach. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, am i Gymru fod yn wladwriaeth sy'n grymuso, nid yn wladwriaeth ormesol, ac mae'r cynigion ym Mil Cymru yn darparu dulliau ac offer i Lywodraeth Cymru fwrw ati â'r gwaith o gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn amlwg yn datganoli grym i'r sefydliad hwn. Yr her i Lywodraeth Cymru yn awr yw sicrhau bod y pŵer yn cael ei ddatganoli i'n cymunedau. Yn amlwg, mae Llywodraeth y DU yn chwarae ei rhan yn nhaith gyfansoddiadol Cymru ac yn awr, mae'n bryd i Lywodraeth Cymru wneud yr un peth.

I'm very pleased to follow Paul Davies, because I share his views on votes for 16 and 17-year-olds. I'm pleased to speak in this debate today. I welcome the Wales Bill. I don't think it goes far enough, but I think the ways it doesn't go far enough have been highlighted here today. I particularly welcome the delegating of decisions to the Assembly on whether 16 and 17-year-olds can vote and on the electoral arrangements. These are two areas in which I hope the Assembly will take swift action, because both affect our democracy. I first had a private Members' Bill in Westminster to bring in votes for 16 and 17-year-olds in 2008. I really think that if we do bring this in here in Wales it will bring a new impetus to our democracy. We saw what happened in the Scottish referendum and, of course, the Scottish Parliament has just voted unanimously to lower the voting age for Scottish and local government elections. I do think that voting for 16 and 17-year-olds in all elections is the way forward, and I think it's a pity that the UK Government is resisting that for the European referendum and also for the Westminster elections. I'm very sorry that it's unlikely that Welsh young people will be able to vote in the Welsh Assembly elections next year. They will be voting in the Scottish Parliament elections and, if there was any way of hurrying up this process so that 16 and 17-year-olds could vote next year, I would ask the Secretary of State to consider that, because I think it is important. I think they do hold our future and, to have the next Assembly elections with them involved, I think would make a huge difference. So, I put that plea to him here today.

I also welcome the fact that the Assembly will be able to decide its own electoral arrangements and, in particular, the numbers of Members here in the Assembly. I hope we can get a cross-party agreement to recognise that we just do not have enough Members here to do the job that we are given to do. With the additional powers that we're going to have, which are always growing—we've heard about them today—it is difficult to think that 60 Members will continue to be able to cope with that workload. So, I think that is something that we would like to take forward on a cross-party basis.

Rwy'n falch iawn o ddilyn Paul Davies, am fy mod yn rhannu ei farn ar bleidleisiau ar gyfer rhai 16 a 17 mlwydd oed. Rwy'n falch o siarad yn y ddatl hon heddiw. Rwy'n croesawu Bil Cymru. Nid wyf yn credu ei fod yn mynd yn ddigon pell, ond rwy'n credu bod y ffyrdd nad yw'n mynd yn ddigon pell wedi cael eu hamlygu yma heddiw. Croesawaf yn arbennig y cynnig i ddirprwyo penderfyniadau i'r Cynulliad ynglŷn ag a ddylai rhai 16 a 17 oed gael pleidleisio ac ynglŷn â'r trefniadau etholiadol. Mae'r rhain yn ddau faes y gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn gweithredu'n gyflym yn eu cylch, gan fod y ddau'n effeithio ar ein democratiaeth. Roedd gennyf Fil Aelod Preifat yn San Steffan yn gyntaf yn 2008 yn galw am gyflwyno pleidleisiau ar gyfer rhai 16 a 17 oed. Os cyflwynwn hyn yma yng Nghymru, rwy'n meddwl o ddifrif y bydd yn rhoi hwb newydd i'n democratiaeth. Gwelsom yr hyn a ddiwyddodd yn refferendwm yr Alban ac wrth gwrs, mae Senedd yr Alban newydd bleidleisio yn unfrydol i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth yr Alban a llywodraeth leol. Rwy'n credu mai sicrhau pleidlais i rai 16 a 17 oed ym mhob etholiad yw'r ffordd ymlaen, ac rwy'n credu ei bod yn drueni fod Llywodraeth y DU yn gwrthsefyll hynny ar gyfer refferendwm Ewrop a hefyd ar gyfer etholiadau San Steffan. Mae'n ddrwg iawn gennyf ei bod yn annhebygol y bydd pobl ifanc o Gymru yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Byddant yn pleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban a phe bai yna ffordd o frysio'r broses hon fel bod rhai 16 a 17 oed yn cael pleidleisio y flwyddyn nesaf, byddwn yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried hynny, oherwydd credaf ei fod yn bwysig. Rwy'n credu bod ein dyfodol yn eu dwylo hwy, a byddai cynnal etholiadau nesaf y Cynulliad gan eu cynnwys hwy yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Felly, rwy'n cyflwyno'r apêl honno iddo yma heddiw.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd y Cynulliad yn gallu penderfynu ar ei threfniadau etholiadol ei hun ac yn arbennig, ar nifer yr Aelodau yma yn y Cynulliad. Rwy'n gobeithio y gallwn gael cytundeb trawsbleidiol i gydnabod nad oes gennym ddigon o Aelodau yma i wneud y gwaith sydd gennym i'w gyflawni. Gyda'r pwerau ychwanegol a gawn, sy'n tyfu o hyd—clywsom amdanynt heddiw—mae'n anodd meddwl y bydd 60 o Aelodau yn parhau i allu ymdopi â'r llwyth gwaith hwnnw. Felly, credaf fod hynny'n rhywbeth y byddem yn hoffi ei ddatblygu ar sail drawsbleidiol.

I also welcome the Secretary of State here today. I also welcome his conversion to devolution. I know he is very keen to move devolution forward and to move Wales towards income tax raising powers. But I am disappointed that once again he has repeated that the Westminster Government will agree to a funding floor in the expectation of a referendum for income tax, because, surely, this should be something quite separate from that decision. It is right that we should have fair funding and I do not see that that should be linked with an expectation for an income tax referendum. I am sure we will move towards having income tax, but I think, if we want the public to support income tax powers to be devolved to Wales, with or without a referendum, they must see what will be the benefit of the change of the source of funding. I hope we will have much-increased borrowing powers, for example. I think it is important for the public to understand why moving that source of funding to Wales—what that will mean for Wales and what it will mean in terms of public services.

I know that the Secretary of State said that he wanted the Welsh Government to work with pragmatism and collaboration—I think that was the expression that he used. I would certainly challenge him, if he thinks that we haven't been working in Wales, in the Assembly, and in the Government, pragmatically and in collaboration.

I just wanted to highlight just a few things that have happened in my particular constituency recently, all to do with health. We've just recently opened the second stage of the children's hospital in Cardiff North, which is an outstanding building, giving fantastic treatment to children. We're planning a big development in Velindre Hospital, and we already know that the cancer treatment that is available in Wales is outstanding. Of course, Whitchurch Hospital, which is also in Cardiff North, is moving to a new site at Llandough, which has been designed and supported by mental health patients. Those are three outstanding things that are actually happening in my constituency today, along with the national survey for Wales, which shows that 91 per cent of people in Wales are satisfied with GP care.

So, I think that we have achieved a lot through devolution, and I think the Secretary of State is wrong if he thinks he has to push us to work pragmatically and collaboratively, because that's what has happened in devolution, and that is the way we want to continue to go. Thank you.

15:31

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I also welcome the Secretary of State for Wales here? I think I, personally, will miss these debate after they're abolished, because I do—

Rwyf hefyd yn croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol yma heddiw, ac yn croesawu ei dröedigaeth i ddatganoli. Rwy'n gwybod ei fod yn awyddus iawn i symud datganoli yn ei flaen ac i symud Cymru tuag at bwerau codi treth incwm. Ond rwy'n siomedig unwaith eto ei fod wedi ailadrodd y bydd Llywodraeth San Steffan yn cytuno i gyllid gwaelodol gan ddisgwyl refferendwm ar dreth incwm oherwydd, yn sicr, dylai hyn fod yn fater cwbl ar wahân i'r penderfyniad hwnnw. Mae'n iawn i ni gael cyllid teg ac nid wyf yn gweld y dylai hynny fod yn gysylltiedig â disgwyliad i gael refferendwm ar dreth incwm. Rwy'n siŵr y byddwn yn symud tuag at gael treth incwm, ond yn fy marn i, os ydym am i'r cyhoedd gefnogi datganoli pwerau treth incwm i Gymru, gyda neu heb refferendwm, rhaid iddynt weld beth fydd mantais newid ffynhonnell y cyllid. Rwy'n gobeithio y bydd gennym lawer mwy o bwerau benthyca, er enghraifft. Credaf ei bod yn bwysig i'r cyhoedd ddeall pam y dylid symud y ffynhonnell honno o gyllid i Gymru—beth fydd yn ei olygu i Gymru a'r hyn y bydd yn ei olygu o ran gwasanaethau cyhoeddus.

Gwn fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud ei fod am i Lywodraeth Cymru weithio drwy arfer pragmatiaeth a chydweithrediad—credaf mai dyna oedd yr ymadrodd a ddefnyddiodd. Byddwn yn sicr yn ei herio os yw'n credu nad ydym wedi bod yn gweithio'n bragmataidd ac yn gydweithredol yng Nghymru, yn y Cynulliad, ac yn y Llywodraeth.

Roeddwn am dynnu sylw at ychydig o bethau sydd wedi digwydd yn fy etholaeth fy hun yn ddiweddar, oll yn ymwneud ag iechyd. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau ar ail gam yr ysbty plant yng ngogledd Caerdydd, sy'n adeilad rhagorol ar gyfer darparu triniaeth ardderchog i blant. Rydym yn cynllunio datblygiad mawr yn Ysbyty Felindre, ac rydym eisoes yn gwybod bod y driniaeth canser sydd ar gael yng Nghymru yn rhagorol. Wrth gwrs, mae Ysbyty'r Eglwys Newydd, sydd hefyd yng ngogledd Caerdydd, yn symud i safle newydd yn Llandochau, sydd wedi cael ei gynllunio a'i gefnogi gan gleifion iechyd meddwl. Dyna dri pheth rhagorol sy'n digwydd yn fy etholaeth heddiw mewn gwirionedd, ynghyd ag arolwg cenedlaethol i Gymru, sy'n dangos bod 91 y cant o bobl yng Nghymru yn fodlon â gofal meddygon teulu.

Felly, rwy'n meddwl ein bod wedi cyflawni llawer drwy ddatganoli, ac rwy'n meddwl bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn anghywir os yw'n credu ei fod yn gorfod ein gwthio i weithio'n bragmataidd ac yn gydweithredol, oherwydd dyna beth sydd wedi digwydd gyda datganoli, a dyna'r ffordd rydym am barhau i fynd. Diolch yn fawr.

15:31

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is the last one.

Dyma'r olaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

This is the last one, so I'm privileged to be able to speak in it.

I want to refer to the second amendment that has been tabled by the Welsh Liberal Democrats, and also the fifth amendment, tabled by Plaid Cymru. Our second amendment refers to proposals to bring forward an investigatory powers Bill, which is, essentially, the return of the snooper's charter. The so-called 'snooper's charter', which would have stored information about every UK citizen's web-browsing history, was vetoed by Nick Clegg in Government. He said that proposals were unworkable and disproportionate, and sent the Government back to the drawing board. Even the Tories' former Shadow Home Secretary David Davis said that Clegg had done the right thing—and I quote:

'This draconian law would have been a massive, unnecessary extension of the state's power. It would have trampled all over the privacy of innocent people without improving our security one jot.'

It is therefore disappointing, but not surprising, that, barely days after the election, we saw Theresa May announce that plans for a snooper's charter were back on the table. Not only is the Minister trying to force through legislation that does not have the support of politicians, but she has refused to share details, even with law-enforcement agencies or communications companies. This does raise deep fears about the hugely invasive powers that may be steamrollered through in the new investigatory powers Bill. The Liberal Democrats recognise there is a problem that needs to be addressed, to ensure that law-enforcement agencies are given the powers they need to fight crime effectively. However, this must be done in a proportionate way, which gets the balance right between security and liberty, and this is not the case, in our view, in this particular Bill.

On amendment 5, while we cannot support the double-majority clause, we do deeply regret the decision to block 16 and 17-year-olds from voting in the European referendum. Liberal Democrats have supported votes at 16 for over 10 years, and it was disappointing that the proposal to extend the voting age to 16-year-olds was defeated last week in the House of Commons, after Tory MPs said 16-year-olds weren't mature enough. Young people today are more engaged in politics than ever before, and are masters of social media, which enables much greater participation.

Dyma'r olaf, felly mae'n ffrind cael siarad ynddi.

Rwyf am gyfeirio at yr ail welliant a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, a hefyd y pumed gwelliant, a gyflwynwyd gan Blaid Cymru. Mae ein hail welliant yn cyfeirio at gynigion i gyflwyno Bil pwerau ymchwilio, sydd yn ei hanfod, yn dynodi dychweliad y siarter fusnesu. Cafodd yr hyn a elwir yn siarter fusnesu, a fyddai wedi storio gwybodaeth am hanes pori'r we pob dinesydd yn y DU, ei atal gan Nick Clegg yn y Llywodraeth. Dywedodd fod y cynigion yn anymarferol ac yn anghymesur, a pharodd i'r Llywodraeth ailfeddwl o'r cychwyn. Roedd David Davis hyd yn oed, sef cyn-Ysgrifennydd Cartref y Toriaid pan oeddent yn wrthblaid, yn dweud bod Clegg wedi gwneud y peth iawn—:

'This draconian law would have been a massive, unnecessary extension of the state's power. It would have trampled all over the privacy of innocent people without improving our security one jot.'

Felly, siom, er nad syndod, ddyddiau'n unig ar ôl yr etholiad, oedd gweld Theresa May yn cyhoeddi bod cynlluniau ar gyfer y siarter fusnesu yn ôl ar y bwrdd. Nid yn unig y mae'r Gweinidog yn ceisio gwrthod deddfwriaeth nad yw'n cael ei chefnogi gan wleidyddion drwodd, mae hi hefyd wedi gwrthod rhannu manylion, hyd yn oed gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu gwmnïau cyfathrebu. Mae hyn yn creu ofnau dwfn ynghylch y pwerau hynod o ymwithiol y gellir eu gorfodi drwodd yn y Bil pwerau ymchwilio newydd. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod bod yna broblem y dylid mynd i'r afael â hi, er mwyn sicrhau bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cael y pwerau sydd eu hangen arnynt i ymladd troseddau yn effeithiol. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei wneud mewn modd cymesur, gyda'r cydbwysedd cywir rhwng diogelwch a rhyddid, ac nid yw hyn yn wir, yn ein barn ni, yn y Bil penodol hwn.

O ran gwelliant 5, er na allwn gefnogi'r cymal am y mwyafrif dwbl, rydym yn gresynu'n fawr at y penderfyniad i rwystro rhai 16 a 17 oed rhag pleidleisio yn y refferendwm Ewropeaidd. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cefnogi pleidlais yn 16 oed ers dros 10 mlynedd, a siom oedd gweld y cynnig i ymestyn yr oedran pleidleisio i gynnwys rhai 16 oed wedi'i orchfygu yr wythnos diwethaf yn Nhŷ'r Cyffredin, ar ôl i ASau Toriaidd ddweud nad oedd rhai 16 oed yn ddigon aeddfed. Mae pobl ifanc heddiw'n ymwneud â gwleidyddiaeth yn fwy nag erioed o'r blaen, ac maent yn feistri ar gyfryngau cymdeithasol, sy'n caniatáu llawer mwy o gyfranogiad.

They're passionate about such a wide range of issues, from the cost of local buses and their education, to climate change and international affairs. In fact, just see the participation in the Scottish referendum. This also is a vote about the future of the UK. It's a vote about whether we should stay in Europe. It's a vote that interests, above all, 16 and 17-year-olds. Even if you were to say that you didn't think they're mature enough to vote in the general election, I think it's absolutely crucial that they have a vote in this particular election, about their future. I got involved in politics in the 1975 referendum, when I was not old enough to vote, and I ended up here. I'm not saying that other 16 and 17-year-olds are going to end up here, but I certainly think that they are mature enough to take part in that referendum, and should be encouraged to do so, and who knows what will come of that?

Following the vote last week, the chair of the British Youth Council, Mita Desai, said,

'Common sense has lost and the Government have chosen to silence the voices of 16 & 17 year olds over their future.'

I think it's time that the UK Government thought again about that particular proposal.

Now, in terms of the double-majority clause, which is the reason why we can't actually vote for amendment 5—which would only see the UK exiting the European Union if all four nations agree to it—we think that the question here is whether the UK should be a member of the European Union, not whether just Wales, or Scotland, or Northern Ireland, or England should remain. Having this clause in it would create a divide between nations. In fact, I would go so far as to say that, if you give a nation of the UK a right of veto, you're effectively offering them independence by the back door. I think that's a problem for us, and that's why I think that a vote on the membership of the European Union should be applied to the whole of the UK not any constituent part of it.

I just want to make one last point before I finish, Deputy Presiding Officer, and that is in relation to the reserved powers model, which I very much support. There was some very interesting evidence given to the Constitutional and Legislative Affairs Committee yesterday by three eminent academics about this particular innovation or change. What they said was that the reserved powers model will give the Welsh Government and the Welsh Assembly more room for manoeuvre, but that room for manoeuvre depends on the extent of the reserved powers. If you have too many reserved powers in there, you could still end up in the constitutional court in terms of defending legislation because of arguments over whether one particular reserved power applies to Wales or not. I think, therefore, this is a plea to the Secretary of State for Wales, when framing the Wales Bill, to take that into account and ensure that when you bring in the reserved powers model, you get us room for manoeuvre.

Maent yn frwdfrydig am amrywiaeth mor eang o faterion, o gost bysiau lleol a'u haddysg, i newid yn yr hinsawdd a materion rhyngwladol. Yn wir, nid oes ond angen edrych ar gyfranogiad yn refferendwm yr Alban. Mae hon hefyd yn bleidlais ynghylch dyfodol y Deyrnas Unedig. Mae'n bleidlais ynglŷn ag a ddylem aros yn Ewrop. Mae'n bleidlais sydd o ddiddordeb, yn anad dim, i rai 16 a 17 mlwydd oed. Hyd yn oed pe baech yn dweud nad oeddech yn meddwl eu bod yn ddigon aeddfed i bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol, rwy'n credu ei bod yn gwbl hanfodol iddynt gael pleidlais yn yr etholiad penodol hwn ynglŷn â'u dyfodol. Dechreuais ymwneud â gwleidyddiaeth adeg y refferendwm yn 1975, pan nad oeddwn yn ddigon hen i bleidleisio, a chyrraedd y fan hon. Nid wyf yn dweud bod rhai eraill 16 a 17 oed yn mynd i gyrraedd y fan hon, ond rwy'n bendant yn credu eu bod yn ddigon aeddfed i gymryd rhan yn y refferendwm. Dylid eu hannog i wneud hynny, a phwy a wŷr beth a ddaw o hynny.

Yn dilyn y bleidlais yr wythnos diwethaf, dywedodd cadeirydd Cyngor Ieuentid Prydain, Mita Desai,

'Common sense has lost and the Government have chosen to silence the voices of 16 & 17 year olds over their future.'

Rwy'n credu ei bod yn bryd i Lywodraeth y DU feddwl eto am y cynnig penodol hwn.

Nawr, o ran y cymal am fwyafrif dwbl, sef y rheswm pam na allwn bleidleisio dros welliant 5 mewn gwirionedd—a fyddai ond yn arwain at weld y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd pe bai pob un o'r pedair gwlad yn pleidleisio dros wneud hynny—credwn mai'r cwestiwn yma yw a ddylai'r DU fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, nid a ddylai Cymru'n unig, neu'r Alban, neu Ogledd Iwerddon, neu Loegr barhau'n aelodau. Byddai cael y cymal hwn yn creu rhaniad rhwng y gwledydd. Yn wir, byddwn yn mynd mor bell â dweud, os rhowch hawl fetu i genedl yn y DU, rydych i bob pwrpas yn cynnig annibyniaeth drwy'r drws cefn iddynt. Rwy'n credu bod hynny'n broblem i ni, a dyna pam rwy'n credu y dylai pleidlais ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd gael ei chymhwyso i'r DU yn gyfan ac nid i unrhyw ran gyfansoddol ohoni.

Hoffwn wneud un pwynt olaf cyn gorffen, Ddirprwy Lywydd, ac mae'n ymwneud â'r model cadw pwerau rwy'n gefnogol iawn iddo. Rhoddwyd peth tystiolaeth ddiddorol iawn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe gan dri academydd blaenllaw am y newid penodol hwn. Yr hyn a ddywedent oedd y bydd y model cadw pwerau yn rhoi mwy o le i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru symud, ond bod y lle i symud yn dibynnu ar hyd a lled y pwerau a gadwyd. Os oes gennych ormod o bwerau a gadwyd yn ôl, gallech ddal i orfod troi at y llys cyfansoddiadol yn y pen draw er mwyn amddiffyn deddfwriaeth oherwydd dadleuon ynglŷn ag a yw un pŵer penodol a gadwyd yn ôl yn berthnasol i Gymru ai peidio. Rwy'n meddwl, felly, fod hon yn apêl ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wrth lunio Bil Cymru, i ystyried hyn a sicrhau, pan fyddwch yn cyflwyno'r model cadw pwerau, y byddwch yn rhoi lle i ni symud.



**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a chroeso i'n plith, Ysgrifennydd Gwladol.

It has been said that there are some elements of the Queen's Speech that can be welcomed. I agree, or rather, to put this more exactly, there are also elements that might on first reading be welcomed. The problem, Llywydd, is that, with this Government, some of that which appears to be benign on the surface becomes malign when one digs a little deeper. I would like to comment on one issue particularly close to my heart. The words given to Her Majesty promised that this Westminster Government would—and I quote:

'give new opportunities to the most disadvantaged and would give every child the best start in life.'

Who would disagree with that? Certainly not the Welsh Government, which has maintained and expanded the Flying Start programme across the country and supported Families First and the foundation phase. That took commitment, hard work and continued effort. It seems, though, that we needn't have bothered with that. This Conservative Government has shown us a much easier way of taking children out of poverty: you simply redefine 'poverty'.

It has been widely reported this morning that, in advance of figures showing the first rise in child poverty in a decade, the Prime Minister is considering solving this embarrassment with a statistical wheeze that will, at a stroke, remove scores of children from poverty. Their living conditions will have remained the same, and their parents' income will remain the same, but, according to Westminster, they will no longer live in poverty. Are we really to believe that this Conservative Government does plan to repeal the Child Poverty Act 2010 because Ministers fear it could leave them open to legal challenge when the next round of welfare cuts is announced? I'd like to ask the Secretary of State, Llywydd, what is most important to his Government: avoiding judicial challenge or actually, effectively and meaningfully lifting children out of poverty?

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think one thing is clear from this afternoon's debate: we are all agreed that we want to move on from endless debates about the constitution, which is probably why we spent the last hour talking about the constitution, in our own particular way. Each and every one of us knows that it's delivery that matters more than the arguments that we sometimes go round and round in circles discussing, which actually the public are not listening to.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and welcome, Secretary of State.

Mae wedi cael ei ddweud bod yna rai elfennau o Araith y Frenhines y gellir eu croesawu. Rwy'n cytuno, neu'n hytrach, i'w roi yn fwy cywir, mae yna hefyd elfennau y gellid eu croesawu ar y darlleniad cyntaf. Y broblem gyda'r Llywodraeth hon, Lywydd, yw bod peth o'r hyn sy'n ymddangos yn ddiniwed ar yr wyneb yn dod yn niweidiol iawn os edrychwch arno ychydig yn fwy manwl. Hoffwn wneud sylw ar un mater sy'n arbennig o agos at fy nghalon. Mae'r geiriau a roddwyd i'w Mawrhydi yn addo y byddai Llywodraeth San Steffan yn:

'give new opportunities to the most disadvantaged and would give every child the best start in life.'

Pwy fyddai'n anghytuno â hynny? Yn sicr nid Llywodraeth Cymru, sydd wedi cynnal ac ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg ar draws y wlad ac wedi cefnogi Teuluoedd yn Gyntaf a'r cyfnod sylfaen. Roedd hynny'n galw am ymrwymiad, gwaith caled ac ymdrech barhaus. Ymddengys, fodd bynnag, nad oedd angen i ni fod wedi trafferthu â hynny. Mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi dangos ffordd lawer haws i ni o godi plant allan o dlodi: yn syml iawn, rydych chi'n ailddiffinio 'tlodi'.

Cyn cyhoeddi'r ffigurau sy'n dangos y cynnydd cyntaf mewn tlodi plant ers degawd, cafodd ei ddweud droeon y bore yma fod Prif Weinidog y DU yn ystyried datrys yr embaras hwn gyda sgêm ystadegol a fydd, ar amrantiad, yn tynnu ugeiniau o blant allan o dlodi. Bydd eu hamodau byw wedi aros yr un fath, a bydd incwm eu rhieni wedi aros yr un fath, ond yn ôl San Steffan, ni fyddant mwyach yn byw mewn tlodi. A ydym i fod i greu mewn gwirionedd fod y Llywodraeth Geidwadol hon yn bwriadu diddymu Deddf Tlodi Plant 2010 gan fod Gweinidogion yn ofni y gallai eu gadael yn agored i her gyfreithiol pan gyhoeddir y rownd nesaf o doriadau lles? Hoffwn ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, Lywydd, beth sydd bwysicaf i'w Lywodraeth: osgoi her farnwrol neu godi plant allan o dlodi yn effeithiol ac yn ystyrlon?

Rwy'n credu bod un peth yn glir o'r ddadl y prynhawn yma: rydym i gyd yn gytûn ein bod am symud ymlaen o ddadleuon diddiweddd ynghylch y cyfansoddiad, a dyna pam rydym yn ôl pob tebyg wedi treulio'r awr ddiwethaf yn siarad am y cyfansoddiad, yn ein ffordd arbennig ein hunain. Mae pob un ohonom yn gwybod bod cyflawni yn bwysicach na'r dadleuon rydym weithiau'n eu trafod yn ddiddiwedd, ac nad yw'r cyhoedd yn gwrandao arnynt mewn gwirionedd.

Can I agree with Peter Black when he said earlier that he'll quite miss the visits from the Secretary of State in debates like this? I agree with you on that. It is quite unusual, if I can say to Stephen Crabb, for a politician to offer voluntarily to give up some of the trappings of power, so it is refreshing to hear what you said about your views on devolution and how this place operates, and that you've given a concrete example of a way that that can be changed. That hasn't always been the Secretary of State's seat; I think it's moved around the Chamber over the years. I think it might've been up next to Mohammad Asghar at one point. So, it's not been a stable seat by any means, and it is interesting to hear your views about how we move on. I don't think anyone would disagree that the public are sick of this endless discussion over further powers. It is, as the Secretary of State said, delivery that matters now, and it is, ultimately, delivery on which this Assembly and devolution will ultimately be judged. And, of course, it is delivery, which, too often, over the last 15 years, has been sadly lacking.

The Secretary of State spoke of the importance of job creation and the role of business in generating those jobs. That is a debate that is well worth having. Your predecessor Secretary of State used to say that Wales has two Governments: one here and, of course, the UK Government. Too often, there is a blame game that goes on up and down the M4, particularly over recent years, with regard to the deficit. We hear so often in debates here about the cuts that this Assembly has to deal with. When will politicians across the UK realise that we are all in this together—remember that soundbite? We are all in this together when it comes to getting the deficit down. Until we enter a grown-up phase of politics where we realise that it is our deficit—all of us; each and every one of us across this country—and it is our responsibility to get it down, then we will not move on, and we will not get the public finances back on the even keel that we need to get them back on.

I'm very pleased to hear of the commitment, again, to a funding floor. As we know, the Barnett formula was only ever a temporary solution to a long-term problem. It needs to be dealt with. We waited through the long Labour years, at the start of the 2000s and following on from the advent of devolution, for a solution to the funding problem. That, of course, didn't come until the Lib Dem-Conservative coalition of 2010 and the Conservative Government now.

It is true to say that the funding gap is less than it was 10 years ago as part of the cuts situation that's happened—affecting England in a disproportionate way, actually—but the danger is that, when the deficit crisis is solved and funding starts to increase again, the Barnett squeeze will come back into play and funding per head in Wales will inexorably start to fall and converge on spending in England, and nobody here wants to see that happen.

A gaf fi gytuno â Peter Black pan ddywedodd yn gynharach y bydd yn gweld colli ymweliadau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn dadleuon fel hyn? Rwy'n cytuno â chi ar hynny. Mae'n eithaf anghyffredin, os caf ddweud wrth Stephen Crabb, i wleidydd gynnig yn wirfoddol rhoi'r gorau i rai o fanteision grym, felly mae'n braf clywed yr hyn a ddywedoch am eich safbwyntiau ar ddatganoli a sut y mae'r lle hwn yn gweithredu, a'ch bod wedi rhoi enghraifft benodol o sut y gellir ei newid. Nid sedd yr Ysgrifennydd Gwladol yw honna wedi bod erioed; rwy'n meddwl ei bod wedi symud o gwmpas y Siambr dros y blynyddoedd. Rwy'n credu efallai ei bod i fyny yn ymyl Mohammad Asghar ar un adeg. Felly, nid yw wedi bod yn sedd sefydlog mewn unrhyw ystyr, ac mae'n ddiddorol clywed eich barn ar sut y dylem symud ymlaen. Nid wyf yn credu y byddai neb yn anghytuno bod y cyhoedd wedi alaru ar y drafodaeth ddiddiwedd ynghylch pwerau pellach. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol, cyflawni sy'n bwysig yn awr, ac yn y pen draw, ar ei gyflawniad y bernir y Cynulliad hwn a datganoli yn y pen draw. Ac yn anffodus wrth gwrs, yn rhy aml dros y 15 mlynedd diwethaf, y cyflawni sydd wedi bod yn ddiffygiol.

Siaradodd yr Ysgrifennydd Gwladol am bwysigrwydd creu swyddi a rôl busnes yn creu'r swyddi hynny. Mae honno'n ddadl sy'n bendant yn werth ei chael. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol a'ch rhagflaeni yn arfer dweud bod gan Gymru ddwy Lywodraeth: un yma, a Llywodraeth y DU wrth gwrs. Yn rhy aml, mae yna gêm feio sy'n digwydd ar hyd yr M4, yn enwedig dros y blynyddoedd diwethaf, o ran y diffyg ariannol. Rydym yn clywed mor aml mewn dadleuon yma am y toriadau sy'n rhaid i'r Cynulliad hwn ymdopi â hwy. Pa bryd y bydd gwleidyddion ar draws y DU yn sylweddoli ein bod i gyd yn rhan o hyn gyda'n gilydd—a ydych chi'n cofio'r slogan honno? Rydym i gyd yn rhan o hyn gyda'n gilydd pan ddaw'n fater o leihau'r diffyg. Hyd nes y down i gyfnod aeddfetach o wleidyddiaeth lle y byddwn yn sylweddoli mai ein diffyg ni ydyw—pob un ohonom; pob un ohonom ar draws y wlad—ac mai ein cyfrifoldeb ni yw ei leihau, ni fyddwn yn symud ymlaen, ac ni allwn sicrhau sefydlogrwydd o ran cyllid cyhoeddus fel sydd ei angen i ni ei wneud.

Rwy'n falch iawn o glywed am yr ymrwymiad, unwaith eto, i gyllid gwaelodol. Fel y gwyddom, ateb dros dro yn unig oedd fformiwla Barnett i broblem hirdymor. Mae angen ymdrin â hi. Rydym wedi aros dros flynyddoedd hirion Llafur, ar ddechrau'r 2000au ac yn dilyn dyfodiad datganoli, am ateb i'r broblem ariannu. Ni ddigwyddodd hynny, wrth gwrs, nes dyddiau'r glymblaid rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn 2010 a'r Llywodraeth Geidwadol yn awr.

Mae'n wir dweud bod y bwlch cyllido yn llai na'r hyn oedd 10 mlynedd yn ôl yn rhan o'r toriadau sydd wedi digwydd—gan effeithio ar Loegr mewn modd anghymesur, mewn gwirionedd—ond y perygl yw, pan gaiff argyfwng y diffyg ariannol ei ddatrys a phan fydd y cyllid yn dechrau cynyddu eto, bydd gwasgfa Barnett yn dod yn berthnasol eto a bydd cyllid y pen yng Nghymru yn anochel yn dechrau disgyn ac yn cydgyfeirio â gwariant yn Lloegr, ac nid oes neb yma am weld hynny'n digwydd.

The Barnett floor will, at least in the absence of a wholesale reform of Barnett in the future, be a valuable safeguard that we believe is long overdue. I do hear what the finance Minister says about the detail of the Barnett floor and how it will be calculated. I do quite agree with you that that is a very important aspect of how the floor will work. Those discussions need to be had, but I don't think that they should take away from the fact that we do now have that commitment to a funding floor—something that we've waited for for a long time, have all wanted, and is now going to be delivered.

Can I just mention Europe and the forthcoming referendum, which some Members have mentioned? There have been concerns about the timing of that referendum. I must say, I wasn't one of those people who shared a massive concern about the timing, and I think that the public can be trusted to understand what they are voting on at any particular point in time. But I think that it's extraordinary that some people are saying that they don't want this referendum to happen.

Bydd llawr Barnett, os na ddiwygir fformiwlâ Barnett yn llwyr yn y dyfodol o leiaf, yn fesur diogelwch gwerthfawr y credwn ei bod yn hen bryd ei gael. Rwy'n clywed yr hyn y mae'r Gweinidog Cyllid yn ei ddweud am fanylion llawr Barnett a sut y bydd yn cael ei gyfrifo. Rwy'n cytuno â chi fod honno'n agwedd bwysig iawn o ran y modd y bydd y cyllid gwaelodol yn gweithio. Mae angen y trafodaethau hynny, ond nid wyf yn meddwl y dylent dynnu sylw oddi ar y ffaith fod gennym yr ymrwymiad hwnnw i gyllid gwaelodol yn awr—rhywbeth rydym wedi aros amdano ers amser hir, rhywbeth rydym i gyd wedi bod ei eisiau, ac yn awr, mae'n mynd i gael ei ddarparu.

A gaf fi sôn am Ewrop a'r refferendwm sydd i ddod, a grybwyllwyd gan rai o'r Aelodau? Cafwyd pryderon ynghylch amseriad y refferendwm. Rhaid i mi ddweud, nid oeddwn yn un o'r bobl hynny a bryderai'n fawr ynghylch yr amseriad, ac rwy'n meddwl y gellir ymddiried yn y cyhoedd i ddeall yr hyn y maent yn pleidleisio drosto ar unrhyw adeg benodol. Ond rwy'n credu ei bod yn anhygoel fod rhai pobl yn dweud nad ydynt am i'r refferendwm hon ddigwydd.

15:43 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:43 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One moment. I think that we should be trusting the public on this and it's about time they were given a view. I will give way very briefly.

Un funud. Rwy'n meddwl y dylem ymddiried yn y cyhoedd ar hyn ac mae'n hen bryd rhoi llais iddynt. Ildiaf yn fyr iawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Quickly, please.

Yn gyflym, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:43 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the intervention—a very quick one. Do you agree with me, though, that actually the timing is an issue for the confidence of businesses as they have uncertainty as to what the future will be? Therefore, inward investment is at risk.

Diolch am yr ymyriad—un cyflym iawn. A ydych yn cytuno â mi, fodd bynnag, fod yr amseru yn broblem o ran hyder busnesau gan eu bod yn ansicr ynglŷn â'r dyfodol? Felly, mae perygl i fuddsoddiadau o'r tu allan.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:43 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I disagree with that. I think that the businesses that I speak to recognise that the UK Government is giving the people of this country a choice—a choice that, for some reason, the Labour Party no longer wants people to have. What on earth has happened to you? You used to be the party of the people. I hope that, sooner or later, you'll get back to that, but, thank goodness, the current Government is doing what is necessary.

Na, rwy'n anghytuno â hynny. Credaf fod y busnesau y siaradaf â hwy'n sylweddoli bod Llywodraeth y DU yn rhoi dewis i bobl y wlad hon—dewis nad yw'r Blaid Lafur, am ryw reswm, am i bobl ei gael bellach. Beth ar y ddaear sydd wedi digwydd i chi? Roeddech yn arfer bod yn blaid y bobl. Yn hwyr neu'n hwyrach, gobeithio y byddwch yn dychwelyd at hynny, ond diolch byth, mae'r Llywodraeth bresennol yn gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:44 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mi hoffwn i ganolbwyntio ar welliant 5 yn enw Elin Jones. Mae yna gryn dipyn o drafod y prynhawn yma wedi bod ar y cyfansoddiad, a dweud nad ydym ni'n gwneud dim byd ond trafod y cyfansoddiad. Wel, nid yw'r Torïaid wedi gwneud dim byd ond trafod cyfansoddiad Prydain ers dyddiau John Major, a dweud y gwir, ac rydym ni'n dal wrthi. Dyna pam mae'r cynnig yma ynglŷn â chynnal refferendwm yn bwnc trafod, a dyna ydy rhan o'n gwelliant ni.

I would like to concentrate on amendment 5 in the name of Elin Jones. There's been a great deal of discussion this afternoon on the constitution, and talk that we do nothing but discuss the constitution. Well, the Tories have done nothing but talk of the UK constitution since the days of John Major, to tell the truth, and we're still at it now. That is why this proposal to hold a referendum is an issue of debate, and that's a part of our amendment.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'r refferendwm yn codi pryderon sylweddol i ni yng Nghymru, ond mae'n werth dweud bod Plaid Cymru yn cytuno y dylai pobl y Deyrnas Gyfunol gael eu dweud ar y mater, ac nad oes gan Plaid Cymru wrthwynebiad i'r egwyddor o gynnal refferendwm ar y mater yma. Yr hyn sy'n eironig, wrth gwrs, yw bod yr Undeb Ewropeaidd wedi newid yn sylweddol eisoes, felly, o ran faint o ddeddfwriaeth sy'n cael ei llunio ym Mrwsel. Ac nid oes dwywaith, yn ein barn ni, bod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi bod ac yn dal i fod yn fanteisiol i Gymru o ran ei hamaethyddiaeth, o ran adfywio economaidd, ac o ran hybu masnach a chreu swyddi, ac efallai'n bwysicach o lawer, mae cydweithio clòs o ran ymateb i newid hinsawdd ar draws y cyfandir yn gwbl allweddol. Mi fyddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn peryglu'r holl bethau hynny.

Ond o ran y refferendwm a lle pobl ifanc, mi ddangosodd refferendwm annibyniaeth yr Alban i ni'n glir fod pobl 16 a 17 mlwydd oed yn gwbl abl i wneud penderfyniadau pwysig gwleidyddol pan fo'r wybodaeth o'u blaenau nhw. Ac onid ydy hi'n arwyddocaol mai yn yr Alban, mewn gwlad sydd wedi cael mesur o ddatganoli, y gwelwyd y cam cyntaf pwysig hwnnw'n digwydd, ac nid, wrth gwrs, yn y Deyrnas Unedig sglerotig yma sydd gennym ni ar hyn o bryd? Fel rwy'n dweud, mae'r dystiolaeth o'r Alban, sydd wedi ei chadarnhau gan ymchwil o Awstria a Norwy, yn dangos, gyda chymorth gan deuluoedd ac ysgolion, fod pobl rhwng 16 a 17 yn fwy tebygol o frwr eu pleidlais na phobl rhwng 18 a 34 mlwydd oed. Mae'r modd y mae pobl ifanc yn cael eu cyflwyno i wleidyddiaeth yn eu blynyddoedd cynnar yn allweddol bwysig i ddyfodol democratiaeth gynrychioladol. Rwy'n croesawu'r consensws sydd, hyd y gwelaf i, ar draws y Siambr yma y dylai hyn ddigwydd. Yr hyn sydd yn siomedig iawn ydy bod y blaid sydd mewn grym yn San Steffan wedi gwrthod y cyfle yma i ehangu'r bleidlais i bobl ifanc.

Mae'r dadleuon wedi cael eu gwneud yn barod, ond mae'n amlwg, onid yw, os yw person 16 oed yn ddigon aeddfed i wneud y penderfyniad i ymuno â'r fyddin ai peidio, yna yn sicr mae'n ddigon aeddfed i frwr pleidlais mewn etholiad? Mae Plaid Cymru o blaid ac wedi bod o blaid rhoi pleidlais i bobl 16 oed a 17 oed ym mhob etholiad, ac mi fyddai Llywodraeth Plaid Cymru yn gweithredu'r safbwynt yma ar ôl etholiadau'r cynulliad nesaf, os mewn grym. Y trueni ydy y bydd y bobl yma yn cael eu distewi yn y penderfyniad allweddol yma ar ddyfodol y Deyrnas Unedig o fewn yr Undeb Ewropeaidd—nhw ydy'r bobl, wrth gwrs, a fydd yn gofod byw gyda chanlyniadau'r penderfyniad hwnnw.

The referendum does raise significant concerns for us here in Wales, but it is worth saying that Plaid Cymru agrees that the people of the United Kingdom should have their say on this issue, and that Plaid Cymru doesn't oppose the principle of holding a referendum on this particular issue. What's ironic, of course, is that the European Union has already changed significantly, in terms of how much legislation is made in Brussels. And there is no doubt, in our view, that membership of the European Union has been and continues to be beneficial to Wales in terms of agriculture, in terms of economic regeneration, and in terms of promoting trade and job creation, and perhaps even more important, close collaboration in terms of responding to climate change across the continent is crucially important. Leaving the European Union would put all of those things at risk.

But in terms of the referendum and the role of young people, the Scottish independent referendum demonstrated clearly that 16 and 17-year-olds are entirely capable of making important political decisions for themselves when they have the necessary information in front of them. Isn't it significant that it was in Scotland, a nation that has had a measure of devolution, that we saw that first step happening, and not, of course, in the sclerotic UK that we have at present? As I say, the evidence from Scotland, which is confirmed by research from both Austria and Norway, shows that with assistance from families and schools, 16 and 17-year-olds are more likely to vote than people between 18 and 34 years of age. The way in which young people are introduced to politics in their formative years is crucially important for the future of representative democracy. I welcome the consensus there is, as far as I can see, across this Chamber that this should happen. What is very disappointing is that the party in power in Westminster has rejected this opportunity to extend the vote to young people.

The arguments have already been made, but it's clear, isn't it, that if a 16-year-old is mature enough to make the decision to join the armed forces or not, then certainly that individual is mature enough to vote in an election? Plaid Cymru is in favour and has been in favour of giving the vote to 16 and 17-year-olds in all elections, and a Plaid Government would actually ensure that that would be implemented following the next Assembly election, if we were in power. It's a huge shame that these people's voices won't be heard as we take this crucially important decision on the future of the United Kingdom within the European Union—they are the people, of course, who will have to live with the ramifications of that decision.

O ran agwedd arall sydd wedi cael ei chyfeirio ati, sef yr hyn sydd yn y gwelliant, mae'r ffaith bod yna fgygythiad y bydd pobl Cymru yn cael eu teui yn gyfan gwbl yn y referendwm. Mae'n gwbl bosib y bydd un wlad yn pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd tra bod gwledydd eraill y Deyrnas Gyfunol yn pleidleisio i aros y tu mewn. Dyna pam mae Plaid Cymru wedi cyflwyno gwelliant i'r Bil yma yn Nhŷ'r Cyffredin—i sicrhau na fydd Cymru yn cael ei thynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd heb gael mwyafrif clir o bleidleisiau o fewn Cymru i wneud hynny. Mae Llywodraeth yr Alban wedi galw am yr un rheol. Y trueni ydy nad yw Llywodraeth Cymru yn brwydro dros ddiddordebau Cymru fel mae Llywodraeth yr Alban yn brwydro dros eu diddordebau nhw, ac yn hytrach yn gadael i ni ym Mhlaid Cymru gymryd y baich o frwydro dros Gymru. Rwy'n mawr obeithio y bydd ein hymdrechion yn Nhŷ'r Arglwyddi yn medru gwthio'r gwelliant yma a'i gael o yn rhan o'r Bil.

In terms of another aspect that's been referred to, namely what is included in the amendment, there's the fact is that there is a threat that the people of Wales will be silenced completely in the referendum. It's entirely possible that one nation will vote to leave the European Union while the other nations of the UK vote to remain within it. That's why Plaid Cymru has introduced an amendment to this Bill in the House of Commons—to ensure that Wales isn't withdrawn from the UK without there being a clear majority for doing that within Wales. The Scottish Government has called for exactly the same rule. It's a shame that the Welsh Government isn't battling for Welsh interests in the way the Scottish Government is battling for their interests, and, rather, is leaving us in Plaid Cymru to shoulder the burden of fighting Wales's corner. I very much hope that our efforts in the House of Lords will be able to push this amendment through and ensure that it is part of the Bill.

15:49

### **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When the UK coalition Government came to office in 2010, the need to rescue our economy was urgent. The election of a Conservative Government in 2015 provides the opportunity to back working people, boost social mobility and renew the ties that bind every part of our United Kingdom.

This UK Government recognises the need to tackle the causes rather than merely treat the symptoms of economic inequality, something Labour has failed to do in 16 years of Welsh Government. The UK Labour inheritance in 2010 was the worse budget deficit in the G20, behind only Ireland and Greece in the EU. Worse, in 2012, the International Monetary Fund showed that the black hole in UK public finances in the run-up to the 2008 financial crisis was £38 billion larger and more than double the structural deficit previously stated.

Austerity is defined as not having enough money. It is therefore an inheritance, not a choice. In the real financial world, the solution is to reduce overspend and then generate budget surplus, providing security now and insurance against future downturns. If faster deficit reduction had been pursued, cuts would have been higher. If slower deficit reduction had been pursued, interest rates and cuts would have been higher—

Pan ddaeth Llywodraeth glymblaid y DU i rym yn 2010, roedd angen achub ein heconomi ar frys. Mae ethol Llywodraeth Geidwadol yn 2015 yn rhoi cyfle i gefnogi pobl sy'n gweithio, yn rhoi hwb i symudedd cymdeithasol ac yn adnewyddu'r cysylltiadau sy'n rhwymo pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag achosion yn hytrach na thrin symptomau anghydraddoldeb economaidd yn unig, rhywbeth y mae Llafur wedi methu ei wneud dros 16 mlynedd yn Llywodraeth Cymru. Etifeddiaeth Llafur y DU yn 2010 oedd y diffyg cyllidebol gwaethaf o blith gwledydd y G20, a dim ond Iwerddon a Gwlad Groeg a oedd yn waeth na hi yn yr UE. Yn waeth byth, yn 2012, dangosodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol fod y twll du yng nghyllid cyhoeddus y DU yn y cyfnod yn arwain at argyfwng ariannol 2008 £38 biliwn yn fwy o faint ac yn fwy na dwbl y diffyg strwythurol a nodwyd yn flaenorol.

Diffinnir caledi fel bod heb ddigon o arian. Mae felly'n etifeddiaeth, nid yn ddewis. Yn y byd ariannol go iawn, yr ateb yw lleihau gorwariant a chynhyrchu gwared cyllideb, gan ddarparu sicrwydd yn awr ac yswiriant yn erbyn dirywiad yn y dyfodol. Pe bai ymdrechion wedi'u gwneud i fynd i'r afael â'r diffyg yn gyflymach, byddai'r toriadau wedi bod yn fwy. Pe bai ymdrechion wedi'u gwneud i fynd i'r afael â'r diffyg yn arafach byddai cyfraddau llog wedi bod yn uwch a'r toriadau wedi bod yn fwy—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:50

### **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Have you ever heard of Keynes? [Laughter.]

A glywsoch chi erioed am Keynes? [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. Unfortunately, Gordon Brown forgot him. He broke the cycle and pretended there was an end to boom and bust. After all, borrowers borrow, but lenders set the terms—the lesson facing Greece today. Now, UK real wage rises are at their highest in seven years; UK unemployment continues to fall, falling faster in the last year than in any other G7 country; and the UK deficit has more than halved since 2010, falling to 4.9 per cent of GDP. This week, the Federation of Small Businesses reported a strong improvement in small business confidence. The Bank of England Bill will make the bank more open and accountable and more closely combine its responsibilities for monetary policy, oversight of financial system and regulation, following increased powers given to the bank by the last UK Government to remedy Labour's broken system of financial regulation.

Before credit crunch, the IMF said that the UK banking system was more exposed to sub-prime debt than anywhere else in the world. After credit crunch, the Financial Services Authority reported sustained political emphasis by the Labour Government on the need for the FSA to be light-touch in its approach, and we're all still paying the price.

The European Union Referendum Bill to allow the electorate an in/out vote on UK membership of the European Union is warmly welcomed and long overdue. Democratic consent for the EU is wafer-thin. People feel the European Union is heading in a direction they never signed up to. Only a very arrogant type of politician would oppose letting the people decide. The time to debate the pros and cons will be then, and voters must be given all the facts. We are one United Kingdom, and foreign affairs remain the responsibility of the UK Government, which will continue to engage with the devolved administrations throughout the passage of the legislation.

This UK Government was elected with a mandate to reform and modernise human rights in the UK. The Queen's Speech stated that the UK Government will bring forward proposals for a bill of rights to replace the Human Rights Act. We have a proud tradition of respect for human rights, which long predates Labour's 1998 Human Rights Act, but the Human Rights Act opened the system to abuse, damaging the credibility of human rights. This UK Government will strengthen fundamental human rights as well as prevent their abuse and restore common sense to the system. It will fully consult on its proposals before introducing legislation. This will consider the implications of a bill of rights on the devolved nations. The proposed bill of rights will be based on the European Convention on human rights while also taking account of common law tradition and making clear where the balance should lie between Strasbourg and British courts.

Do. Yn anffodus, fe anghofiodd Gordon Brown amdano. Torrodd y cylch ac esgus bod diwedd ar gylch ffyniant a methiant. Wedi'r cyfan, mae benthycwyr yn benthyg, ond y rhai sy'n rhoi benthyg sy'n gosod y telerau—y wers sy'n wynebu Gwlad Groeg heddiw. Nawr, mae codiadau cyflog gwirioneddol yn y DU ar eu uchaf ers saith mlynedd; mae diwithdra yn y DU yn parhau i ostwng, gan ostwng yn gyflymach yn y flwyddyn ddiwethaf nag yn unrhyw wlad arall o blith gwledydd y G7; ac mae diffyg y DU wedi mwy na haneru ers 2010, gan ostwng i 4.9 y cant o'r cynnyrch domestig gros. Yr wythnos hon, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi cofnodi cynnydd mawr yn hyder busnesau bach. Bydd Bil Banc Lloegr yn gwneud y banc yn fwy agored ac yn fwy atebol ac yn gwella'r modd y mae'n cyfuno ei gyfrifoldebau dros bolisi ariannol, a'i oruchwyliaeth ar y system ariannol a rheoleiddio, gan ddilyn pweerau cynyddol a roddwyd i'r banc gan Lywodraeth ddiwethaf y DU i atgyweirio'r system reoli ariannol a dorrwyd o dan Lafur.

Cyn y wasgfa greddy, dywedodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol fod system fancio'r DU yn fwy agored i ddyled eilaidd nag unman arall yn y byd. Ar ôl y wasgfa greddy, nododd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol bwyslais gwleidyddol cyson y Llywodraeth Lafur ar yr angen i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol fod yn oddefgar ei ymagwedd, ac rydym i gyd yn dal i dalu'r pris.

Mae Bil Refferendwm Undeb Ewropeaidd i ganiatáu pleidlais i mewn/allan i'r etholwyr ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei groesawu'n fawr ac yn hir-ddisgwyliedig. Mae cydsyniad democrataidd i'r UE yn eithriadol o denau. Mae pobl yn teimlo bod yr Undeb Ewropeaidd yn mynd i gyfeiriad nad oeddent erioed wedi cydsynio iddo. Gwleidydd o'r math mwyaf trahaus yn unig a fyddai'n gwrthwynebu gadael i'r bobl benderfynu. Dyna fydd yr adeg i drafod y manteision a'r anafanteision, ac mae'n rhaid rhoi'r ffeithiau i gyd i'r pleidleiswyr. Un Deyrnas Unedig ydym, ac mae materion tramor yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, a fydd yn parhau i ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol taith y ddeddfwriaeth.

Etholwyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda mandad i ddiwygio a moderneiddio hawliau dynol yn y DU. Dywedodd Araith y Frenhines y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynigion ar gyfer bil hawliau dynol i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae gennym draddodiad balch o barch tuag at hawliau dynol, sy'n dyddio o gyfnod llawer cynharach na Deddf Hawliau Dynol Llafur yn 1998, ond gwnaeth y Ddeddf Hawliau Dynol y system yn agored i'w chamddefnyddio, gan niweidio hygyrdd hawliau dynol. Bydd Llywodraeth y DU yn cryfhau hawliau dynol sylfaenol, yn eu hatal rhag cael eu camddefnyddio ac yn adfer synnwyr cyffredin i'r system. Bydd yn ymgynghori'n llawn ar ei chynigion cyn cyflwyno deddfwriaeth. Bydd yn ystyried goblygiadau bil hawliau dynol i'r cenhedloedd datganoledig. Bydd y Bil hawliau dynol arfaethedig yn seiliedig ar y Confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol gan ystyried traddodiad cyfraith gyffredin yn ogystal â'i gwneud yn glir lle y dylai'r cydbwysedd fod rhwng llysoedd Strasbourg a Phrydain.

Both the Wales Bill and its exclusion of powers over policing are welcomed. I took part in a committee review of police structure a decade ago. It reported that criminal activity does not recognise national or regional boundaries. As North Wales Police told me recently, we have a closer affiliation with north-west England than the rest of Wales. Labour's creeping and intimidatory politicisation of devolved public services is damning, but the risk of this infecting policing would be chilling.

Mae Bil Cymru a'r modd y mae'n eithrio pwerau dros blismona i'w groesawu. Cymerais ran mewn adolygiad pwyllgor o strwythur yr heddlu ddegawd yn ôl. Dywedai nad yw gweithgaredd troseddol yn cydnabod ffiniau cenedlaethol na rhanbarthol. Fel y dywedodd Heddlu Gogledd Cymru wrthyf yn ddiweddar, mae gennym gysylltiad agosach â gogledd-orllewin Lloegr na gweddill Cymru. Mae'r modd ymgripiol a bygythiol y mae Llafur yn gwleidyddoli gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn ddamniol, ond byddai'r perygl y gallai hyn heintio plismona yn frawychus.

15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I now invite the Secretary of State for Wales to respond. Gwahoddaf Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ymateb yn awr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:54 **Stephen Crabb**

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mr Deputy Presiding Officer, thank you for this opportunity to respond. It's been an excellent debate and lots of really pertinent and important points have been made by Assembly Members from all parties here. There's been a lot of talk about the EU referendum Bill during this debate and different concerns expressed. Already, as a Government, we've shown that we've listened on the timing of the referendum and responded to concerns expressed in Scotland and Wales about that, and discussions will carry on as we get towards the referendum. The one word that's been missing from this debate in connection to the EU referendum is the word 'reform', because the status quo is not an option. It's not an option because, on balance, the people of Wales and of the UK don't want the status quo; they want an improved relationship between Britain and the European Union, and the status quo is not an option because, in the wake of Greece and other things, Europe itself will be reforming. There will be decisions that we have to take in response to that and, actually, the thing that we should be doing, like businesses up and down the country are doing, is supporting the Prime Minister in his renegotiation efforts with our European partners.

Mr Dirprwy Lywydd, diolch i chi am y cyfle hwn i ymateb. Mae wedi bod yn ddadl ardderchog a llawer o bwyntiau gwirioneddol berthnasol a phwysig wedi eu gwneud gan Aelodau'r Cynulliad o bob plaid yma. Cafwyd llawer o siarad am Fil refferendwm yr UE yn ystod y ddadl, a mynegwyd pryderon gwahanol. Eisoes, fel Llywodraeth, rydym wedi dangos ein bod wedi gwrandio ynglŷn ag amseriad y refferendwm ac wedi ymateb i bryderon a fynegwyd yng Nghymru a'r Alban am hynny, a bydd trafodaethau'n parhau wrth i ni nesu at y refferendwm. Yr un gair sydd wedi bod ar goll o'r ddadl hon mewn cysylltiad â refferendwm yr UE yw'r gair 'diwygio', gan nad yw'r status quo yn opsiwn. Nid yw'n opsiwn oherwydd, ar y cyfan, nid yw pobl Cymru a'r DU eisiau'r status quo; maent am gael gwell perthynas rhwng Prydain a'r Undeb Ewropeaidd, ac nid yw'r status quo yn opsiwn oherwydd, yn sgil Gwlad Groeg a phethau eraill, bydd Ewrop ei hun yn diwygio. Bydd yna benderfyniadau sy'n rhaid i ni eu gwneud mewn ymateb i hynny ac mewn gwirionedd, yr hyn y dylem fod yn ei wneud, fel y mae busnesau ar hyd a lled y wlad yn ei wneud, yw cefnogi'r Prif Weinidog yn ei ymdrechion i ail-drafod gyda'n partneriaid Ewropeaidd.

I absolutely reject any notion that businesses are vacating Wales or the UK, or being scared off from inward investment, because of discussions around an EU referendum. Day after day during the general election campaign, Labour MPs and candidates stood up to try to say that, somehow, there was an drying up of investment coming into Wales because of the EU referendum. I was delighted to see the First Minister announce record levels of numbers of projects of inward investment coming into Wales in the last year. The facts don't back up the arguments.

Rwy'n gwrthod yn llwyr unrhyw syniad fod busnesau yn gadael Cymru neu'r DU, neu'n cael eu dychryn rhag mewnfuddsoddi, oherwydd y trafodaethau'n ymwneud â refferendwm UE. Ddydd ar ôl dydd yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol, ceisiodd ASau ac ymgeiswyr Llafur ddweud, rywsut, fod lefelau mewnfuddsoddi yng Nghymru yn gostwng oherwydd refferendwm yr UE. Roeddwn yn falch o weld y Prif Weinidog yma yn cyhoeddi'r lefelau uchaf erioed o brosiectau mewnfuddsoddi yn dod i Gymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'r ffeithiau'n cefnogi'r dadleuon.

Kirsty and Peter were the only two Assembly Members to raise a really, really important issue and we haven't got time to get into anything like the depth in terms of the response it deserves, and that's around investigatory powers and communications data. Every legislature in the developed world, from the US Congress through to Parliaments across Europe, are debating right now the balance between civil liberties and the ability of intelligence agencies and police forces to monitor and investigate the primary tool of international terrorists, paedophiles, and other forms of organised crime, which is, of course, digital data. There is a lot of discussion and debate to be had. Details of the Bill haven't come forward yet, but hopefully there'll be an opportunity to get into that at a later stage.

Kirsty also raised questions around the timetable of the Bill. The reason the timetable is what I set out in my opening remarks is because I want to build in time for a decent discussion with Welsh Government about the nature of the reservations and whether we're getting the initial drafting of the reservations correct. I want to have decent time for pre-legislative scrutiny for members of the public, for this place and anyone else to comment on the draft legislation. It needs a decent parliamentary process, so it's really important that we get it right. I think Wales has suffered in the past from devolution legislation not drafted correctly, or drafted in a vague way.

There were some questions raised about the Sewel convention. Hopefully, I can reassure you that the way that we'll be legislating for that convention in a Welsh context is identical to the way that we've done it for the Scottish Parliament in the Scotland Bill.

Leanne also raised questions about our approach in the Wales Bill and in the command paper that we've published. She had a nice line about water and sewage. It's just not true, because the Silk commission made a recommendation about how we take forward water and aligning the geographical boundary with the devolution boundary, and that's what we're doing; we're committed to doing that. It isn't an easy, straightforward thing, as Alun suggests, but we are committed to doing that. We're doing that on fracking, even though I'm personally much more openly minded and positive about the role of non-conventional gas; nevertheless, we're devolving that decision down to Wales. I think on her wider comments about natural resources, there'll be scope for debating that when the Bill gets published. But I don't think that we're too far apart on some of those issues.

My good friend Andrew R.T. Davies mentioned mental health and that is an area where there's been a real strength, and it's a good example of the previous coalition Government—of the Liberal Democrats and Conservatives working together. And I recognise there's been some excellent work done around mental health by this Government and from this Chamber. It should be an example of health policy where UK Government and Welsh Government are learning from each other and collaborating, as I'm sure they're doing already.

Kirsty a Peter oedd yr unig ddau Aelod o'r Cynulliad i grybwyll pwynt eithriadol o bwysig mewn gwirionedd, ac nid oes gennym amser i fynd i edrych arno mewn unrhyw beth tebyg i'r dyfnder y mae'n ei haeddu, sef pwerau ymchwilio a data cyfathrebu. Mae pob deddfwrfa yn y byd datblygedig, o Gyngres yr Unol Daleithiau i Seneddau ar draws Ewrop ar hyn o bryd yn trafod y cydbwysedd rhwng rhyddid sifil a gallu asiantaethau cudd-wybodaeth a heddluoedd i fonitro ac ymchwilio i brif offeryn terfysgwyr rhyngwladol, pedoffiliaid, a mathau o droseddau cyfundrefnol, sef data digidol, wrth gwrs. Ceir llawer o drafod a dadlau. Nid yw manylion y Bil wedi'u cyflwyno eto, ond gobeithio y bydd cyfle i edrych ar hynny yn nes ymlaen.

Hefyd, gofynnodd Kirsty gwestiynau ynghylch amserlen y Bil. Y rheswm pam y mae'r amserlen fel y nodais yn fy sylwadau agoriadol yw am fy mod eisiau cynnwys amser ar gyfer trafodaeth weddus gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â natur y cymalau cadw ac i weld a yw drafft cychwynnol y cymalau cadw yn gywir gennym. Rwyf am gael amser teilwng ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu er mwyn i aelodau o'r cyhoedd, y lle hwn ac unrhyw un arall roi sylwadau ar y ddeddfwriaeth ddrafft. Mae angen proses seneddol weddus, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn ei gael yn iawn. Rwy'n meddwl bod Cymru wedi dioddef yn y gorffennol yn sgil deddfwriaeth ddatganoli heb ei drafftio'n gywir, neu wedi'i geirio mewn modd amwys.

Gofynnwyd rhai cwestiynau ynglŷn â chonfensiwn Sewel. Gobeithio y gallaf eich sicrhau bod y ffordd y byddwn yn deddfu ar gyfer y confensiwn yng nghyd-destun Cymru yn union yr un fath ag y'i gwnaethom ar gyfer Senedd yr Alban ym Mil yr Alban.

Gofynnodd Leanne gwestiynau hefyd ynglŷn â'n hymagwedd ym Mil Cymru ac yn y papur gorchymyn a gyhoeddwyd gennym. Roedd ganddi frawddeg dda am ddŵr a charthffosiaeth. Nid yw'n wir, am fod comisiwn Silk wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â sut y byddwn yn bwrw ati gyda dŵr ac alinio'r ffin ddaearyddol â ffin datganoli, a dyna rydym yn ei wneud; rydym wedi ymrwymo i wneud hynny. Nid yw'n beth hawdd a syml, fel y mae Alun yn awgrymu, ond rydym wedi ymrwymo i wneud hynny. Rydym yn gwneud hynny ar ffracio, er fy mod yn bersonol yn llawer mwy agored fy meddwl a chadarnhaol ynghylch rôl nwy anghonfensiynol; serch hynny, rydym yn datganoli'r penderfyniad hwnnw i Gymru. O ran ei sylwadau ehangach am adnoddau naturiol, rwy'n meddwl y bydd lle i ddadlau ynglŷn â hynny pan fydd y Bil yn cael ei gyhoeddi. Ond nid wyf yn meddwl ein bod yn rhy bell ar wahân ar rai o'r materion hynny.

Soniodd fy nghyfaill Andrew R.T. Davies am iechyd meddwl a'i fod yn faes lle y gwelwyd cryfder gwirioneddol, ac mae'n enghraifft dda o'r Llywodraeth glymblaid flaenorol—y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr—yn gweithio gyda'i gilydd. Ac rwy'n cydnabod fod gwaith rhagorol wedi'i wneud ynghylch iechyd meddwl gan y Llywodraeth hon ac o'r Siambr hon. Dylai fod yn enghraifft o bolisi iechyd lle y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn cydweithio, fel y maent yn ei wneud yn barod rwy'n siŵr.



The Member for Blaenau Gwent, Alun Davies, threw out a challenge to me about Blaenau Gwent. He called it the Blaenau Gwent test and I'm very happy to accept the Blaenau Gwent test. And just to remind him that under the watch of the previous Labour Government, unemployment in Blaenau Gwent went up 83 per cent and youth unemployment went up 61 per cent. In the last five years, unemployment in Blaenau Gwent has come down by 40 per cent and youth unemployment down by 52 per cent. If I can wind up my remarks, Mr Deputy Presiding Officer, one of the great mistakes, I think, with respect, that his colleagues in Westminster made in the last five years is to seek every opportunity to talk down the economic recovery and present a caricature of the Welsh economy that Welsh business doesn't support and it isn't supported by the facts on the ground. One of the great learning points that Welsh Labour want to make in the wake of the election is actually being much more pro-business and pro the economic recovery, and adopting that collaborative, constructive approach, which I think Wales needs to see unemployment fall even further in Blaenau Gwent, Preseli Pembrokeshire and all across Wales, more inward investment, more jobs, higher wages and more decent jobs. And that's what I think families across Wales aspire to.

Cyflwynodd yr Aelod dros Flaenau Gwent, Alun Davies, sialens i mi mewn perthynas â Blaenau Gwent. Galwodd ef yn brawf Blaenau Gwent ac rwy'n hapus iawn i dderbyn prawf Blaenau Gwent. Ac i'w atgoffa, o dan oruchwyliaeth y Llywodraeth Lafur flaenorol, fod diweithdra ym Mlaenau Gwent wedi cynyddu 83 y cant a diweithdra ymysg pobl ifanc wedi cynyddu 61 y cant. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae diweithdra ym Mlaenau Gwent wedi gostwng 40 y cant a diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi gostwng 52 y cant. Os caf ddirwyn fy sylwadau i ben, Mr Dirprwy Lywydd, gyda phob parch, rwy'n meddwl mai un o'r camgymeriadau mawr a wnaeth ei gydweithwyr yn San Steffan yn y pum mlynedd diwethaf yw ceisio bachu ar bob cyfle i fychanu'r adferiad economaidd a chyflwyno gwawdlun o economi Cymru nad yw busnesau Cymru yn ei gefnogi ac nad yw'n cael ei gefnogi gan y ffeithiau ar lawr gwlad. Un o'r gwersi gwych y mae Llafur Cymru am eu dysgu yn sgil yr etholiad mewn gwirionedd yw bod yn llawer mwy cefnogol i fusnesau a'r adferiad economaidd, a mabwysiadu'r dull cydweithredol, adeiladol, y credaf fod ei angen ar Gymru er mwyn i lefel diweithdra ostwng hyd yn oed ymhellach ym Mlaenau Gwent, Preseli Sir Benfro a ledled Cymru, mwy o fuddsoddiad o'r tu allan, mwy o swyddi, cyflogau uwch a swyddi gwell. A dyna rwy'n meddwl y mae teuluoedd ledled Cymru yn awyddus i'w weld.

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call the First Minister to reply to the debate.

Galwaf yn awr ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Dirprwy Lywydd. Could I thank the Secretary of State and welcome him to this Chamber for what might be the last time? Who knows? But he's right to say that this process must now come to an end. It belongs to a different era. But, I do very much welcome the spirit in which he's given us his remarks this afternoon. It does contrast with the river of sarcasm, which often flowed our way from some of his predecessors.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i groesawu i'r Siambr hon am y tro diwethaf o bosibl? Pwy a wŷyr? Ond mae'n iawn dweud bod yn rhaid i'r broses hon ddod i ben yn awr. Mae'n perthyn i oes wahanol. Ond rwy'n croesawu'n fawr yr ysbryd y mae wedi rhoi ei sylwadau i ni y prynhawn yma. Mae'n cyferbynnu â'r afon o goegni a lifai'n aml i'r cyfeiriad hwn gan rai o'i ragflaenwyr.

He has made reference to a number of important points. He and I will never agree when it comes to the issue of austerity. And, of course, it's right to say that there were economic difficulties that many countries in the world faced post 2007, but I would remind those on the Conservative benches that their leader at that time, David Cameron, said quite firmly that the banks should fail and that public spending should be cut. If he had had his way, we would have seen something close to the great depression of the early 1930s. So, we need no lessons in terms of economic management from the party opposite.

Mae wedi cyfeirio at nifer o bwytiau pwysig. Ni fydd ef a minnau'n cytuno ar fater caledi. Ac wrth gwrs, mae'n iawn dweud bod llawer o wledydd y byd wedi wynebu anawsterau economaidd ar ôl 2007, ond byddwn yn atgoffa'r rheini ar feinciau'r Ceidwadwyr fod eu harweinydd ar y pryd, David Cameron, wedi dweud yn gadarn y dylai'r banciau fethu ac y dylai gwariant cyhoeddus gael ei dorri. Pe bai wedi cael ei ffordd, byddem wedi gweld rhywbeth yn debyg i ddirwasgiad mawr y 1930au cynnar. Felly, nid oes arnom angen unrhyw wersi ar reoli economaidd gan y blaid gyferbyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I do welcome what the Secretary of State said about the powers that will be included in the Wales Bill as a result of the St David's Day process. We can dispute the terminology, but there are powers that will be coming to the people of Wales, and we should recognise that; particularly, of course, his bold and proper use of the world 'parliament' in terms of describing the future of this institution. I did get the impression sometimes, however, that his speech had been written by two different people. At the beginning of his speech he kept talking about one nation when he meant Britain, and then he started talking about one nation when he meant Wales. I prefer the Prime Minister's terminology when he talked of four nations as part of one state. I think that is a more accurate description of the partnership that exists within the United Kingdom.

Of course, people will expect to see co-operation. That exists, of course, in many areas. For example, it is right to say that UKTI have been helpful, and indeed the British embassies overseas, in terms of helping us to deliver further investment into Wales. The news that we had recently, in the last week, in terms of Westbridge Furniture in Flintshire, delivered of course because of the hard work of the Minister, is an example of how we can work for the good of Wales. But I have to say to him that that pragmatism and collaboration is all well and good. It does happen in certain fields, but it sits ill then when we have a Prime Minister making such derogatory remarks about Wales, and indeed Scotland. You can't run an election campaign based on Scotophobia and then think that nothing will happen as a result of that. So, that respect must continue, not just in terms of economic co-operation, but in terms of the public realm as well.

I heard what he said about welfare. He talked about getting people back to work. People won't disagree with that. Nobody would disagree that where people are able to find a job and they're able to work, then they should work. That much is true. He didn't mention benefits for disabled people. We saw the Prime Minister avoid the question in the last few days as to whether there will be benefit cuts for disabled people. Also, of course, he didn't mention the issue of in-work poverty and the fact that so many people are on benefits and yet they are working. The message we need to give to people is: if you get a job, your income will improve. That is a message that has been lost in our society over the course of the past five years. It's all very well saying, 'We want people to keep more of their money', but if they're not being paid enough in the first place, then it's an empty promise. That is not something that we will see improve, I believe, over the course of the next few years.

Rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol am y pwerau a fydd yn cael eu cynnwys ym Mil Cymru o ganlyniad i'r broses Ddydd Gŵyl Dewi. Gallwn anghytuno â'r derminoleg, ond mae yna bwerau a fydd yn dod i bobl Cymru, a dylem gydnabod hynny; yn enwedig, wrth gwrs, ei ddefnydd beiddgar a phriodol o'r gair 'senedd' i ddisgrifio dyfodol y sefydliad hwn. Cefais yr argraff weithiau, fodd bynnag, fod ei araith wedi cael ei hysgrifennu gan ddau berson gwahanol. Ar ddechrau ei araith siaradai am un genedl pan oedd yn golygu Prydain, ac yna dechreuodd siarad am un genedl pan oedd yn golygu Cymru. Mae'n well gen i derminoleg y Prif Weinidog pan soniai am bedair gwlad yn rhan o un wladwriaeth. Credaf fod hwnnw'n ddisgrifiad mwy cywir o'r bartneriaeth sy'n bodoli o fewn y Deyrnas Unedig.

Wrth gwrs, bydd pobl yn disgwyl gweld cydweithredu. Mae'n bodoli mewn sawl maes, wrth gwrs. Er enghraifft, mae'n iawn dweud bod Masnach a Buddsoddi y DU wedi bod o gymorth, a llysgenadaethau Prydain dramor yn wir, sydd wedi ein helpu i sicrhau buddsoddiad pellach i Gymru. Mae'r newyddion a gawsom yn ddiweddar, yn ystod yr wythnos ddiwethaf, mewn perthynas â Westbridge Furniture yn Sir y Fflint, a ddeilliodd o waith caled y Gweinidog wrth gwrs, yn enghraifft o'r modd y gallwn weithio er lles Cymru. Ond rhaid i mi ddweud wrtho ei bod hi'n ddigon hawdd siarad am bragmatiaeth a chydweithredu o'r fath. Mae'n digwydd mewn rhai meysydd, ond wedyn nid yw mor amlwg pan fydd gennym Brif Weinidog yn gwneud sylwadau mor ddfiriol am Gymru, a'r Alban yn wir. Ni allwch ymladd ymgyrch etholiadol yn seiliedig ar Albanoffobia a meddwl wedyn na fydd dim yn digwydd o ganlyniad i hynny. Felly, rhaid i'r parch hwnnw barhau, nid o ran cydweithrediad economaidd yn unig ond mewn perthynas â'r byd cyhoeddus hefyd.

Clywais yr hyn a ddywedodd am les. Soniodd am gael pobl yn ôl i'r gwaith. Ni fydd pobl yn anghytuno â hynny. Lle y gall pobl ddod o hyd i waith a'u bod yn gallu gweithio, ni fyddai neb yn anghytuno y dylent weithio. Mae hynny'n wir. Ni soniodd am fudd-daliadau i bobl anabl. Gwelsom y Prif Weinidog yn osgoi'r cwestiwn yn ystod y dyddiau diwethaf ynglŷn ag a fydd yna doriadau yn y budd-daliadau ar gyfer pobl anabl. Ni soniodd ychwaith, wrth gwrs, am dlodi mewn gwaith a bod cymaint o bobl ar fudd-daliadau er eu bod yn gweithio. Y neges sydd angen i ni ei rhoi i bobl yw: os dowch o hyd i swydd, bydd eich incwm yn gwella. Dyna'r neges sydd wedi mynd ar goll yn ein cymdeithas dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n ddigon hawdd dweud, 'Rydym am i bobl gadw mwy o'u harian', ond os nad ydynt yn cael eu talu ddigon yn y lle cyntaf, yna mae'n addewid gwag. Nid yw'n rhywbeth sy'n mynd i wella dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn fy marn i.

He made the point that we should not talk endlessly about the constitution. I agree with him on that point. What is important is that we get to a position where there is a sense of settlement of the constitution, but we are a long way from that. I have to say that there is a party represented in this Chamber that is known for its strident nationalism; and it's his own party. I leave aside Plaid Cymru at this point; I'm not having a go at them this afternoon. That's for another day. But you will see, within his own party, the most incredible level of separatism and the most incredible level of nationalism. He says that we should not obsess about constitutional issues, yet his own party will do nothing else for the next few months. That's all we will hear is the European Union and the UK's constitutional relationship with the European Union. So, the constitutional issues are bound to be at the fore because his own party will be at war with itself when it comes to dealing with that issue.

The Human Rights Act has been mentioned on many occasions. I cannot get away from the thought that the Human Rights Act is so vitriolically opposed by the Conservatives because it's European in origin, and for no other reason. The reality is that the European convention is a common series of principles that exist across the European Union. Mark Isherwood said—and I listened carefully to him—that it had caused difficulties and that it had been abused. I challenge him to give me an example of where that abuse has happened. Where has the Human Rights Act been abused? If you can name one, two or three examples of where it's been improperly used, then I will listen. No.

As far as the rest of what Mark Isherwood said, he said that we have a common law tradition. We don't. England, Wales and Northern Ireland have common law traditions; Scotland does not. He talked about the issue of policing, and he makes the point, of course, that crime doesn't recognise boundaries. But, that's an argument for removing the powers over policing from Scotland—in that case, he forgets that policing is devolved in Scotland—and it is an argument against giving policing to Manchester. If Manchester can have policing, then so can Wales. Of course there need to be areas of co-operation. Of course counter-terrorism is not an area that we want to see devolution in. Of course not. But when it comes to neighbourhood policing, there is no good reason why Scotland controls its policing—or England or Manchester or London, for that matter—but not the people of Wales.

Gwnaeth y pwynt na ddylem siarad yn ddiwedd am y cyfansoddiad. Rwy'n cytuno ag ef ar y pwynt hwnnw. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cyrraedd man lle y ceir ymdeimlad o sefydlogrwydd o ran y cyfansoddiad, ond rydym yn bell o hynny. Mae'n rhaid i mi ddweud bod yna blaid a gynrychiolir yn y Siambr hon sy'n gyfarwydd am ei chenedlaetholdeb croch; a'i blaid ef ei hun yw honno. Rwy'n rhoi Plaid Cymru ar y naill ochr ar y pwynt hwn; nid wyf am ladd arnynt y prynhawn yma. Caiff hynny aros tan rywdro eto. Ond fe welwch, o fewn ei blaid ei hun, y lefel fwyaf anhygoel o ymwahaniaeth a'r lefel fwyaf anhygoel o genedlaetholdeb. Mae'n dweud na ddylem fod ag obsesiwn am faterion cyfansoddiadol, ond ni fydd ei blaid ei hun yn gwneud dim arall dros yr ychydig fisoedd nesaf. Dyna'r cyfan y byddwn yn ei glywed fydd yr Undeb Ewropeaidd a pherthynas gyfansoddiadol y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Felly, mae materion cyfansoddiadol yn rhwym o fod yn amlwg gan y bydd ei blaid ei hun yn ymladd â hi ei hun wrth fynd i'r afael â'r mater hwnnw.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi cael ei chrybwyll ar sawl achlysur. Ni allaf ddianc rhag y syniad fod y Ddeddf Hawliau Dynol yn cael ei gwrthwynebu mor hallt gan y Ceidwadwyr am ei bod yn tarddu o Ewrop, a'r rheswm hwnnw'n unig. Y gwir amdani yw bod y confensiwn Ewropeaidd yn gyfres gyffredin o egwyddorion sy'n bodoli ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Mark Isherwood—a gwrandewais yn ofalus arno—fod y ddeddf wedi achosi anawsterau a'i bod wedi ei chamddefnyddio. Heriaf ef i roi enghraifft i mi o lle y cafodd ei chamddefnyddio yn y fath fodd. Lle y cafodd y Ddeddf Hawliau Dynol ei chamddefnyddio? Os gallwch enwi un, dwy neu dair enghraifft o lle y caiff ei defnyddio'n amhriodol, yna fe wrandawaf. Na.

O ran y gweddi o'r hyn a ddywedodd Mark Isherwood, dywedodd fod gennym draddodiad cyfraith gyffredin. Nid yw hynny'n wir. Mae gan Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon draddodiadau cyfraith gyffredin; nid yw hynny'n wir am yr Alban. Soniodd am fater plismona, ac mae'n gwneud y pwynt, wrth gwrs, nad yw trosedd yn cydnabod ffiniau. Ond mae honno'n ddadl dros gael gwared ar bwerau'r Alban dros blismona o'r Alban—os felly, mae'n anghofio bod plismona wedi ei ddatganoli yn yr Alban—ac mae'n ddadl yn erbyn rhoi plismona i Fanceinion. Os gall Manceinion gael plismona, gall Cymru ei gael. Wrth gwrs, mae angen meysydd o gydweithredu. Wrth gwrs, nid yw gwrthderfysgaeth yn faes rydym am ei weld yn cael ei ddatganoli. Wrth gwrs hynny. Ond o ran plismona cymdogaeth, nid oes unrhyw reswm da pam y mae'r Alban yn rheoli ei phlismona—neu Loegr neu Fanceinion neu Lundain, o ran hynny—ond nid pobl Cymru.

The reserved powers model has been welcomed by all parties in this Chamber. But the devil, of course, lies in the detail. We don't know yet what those reservations will look like. The reserved powers model must deliver, above all else, simplicity and clarity. What we don't need is a series of pages and pages and pages of reservations. I have seen suggestions, for example—though not from the Secretary of State but elsewhere—that criminal law and procedure and civil law and procedure would be reserved. In that case, we wouldn't be able to pass a single law in this Chamber. It would actually reverse the vote that took place in 2011, so widely defined would that reservation be. I hope that that is something that would be—if it has been visited—revisited. It's important that there is a proper discussion about the reservations. It will not be good enough if a Cabinet committee in Westminster signs off on the reservations and then there is a consultation without discussion. In fairness to the Secretary of State, he has given me an assurance that that will not be the case—that there will be a proper discussion and we will get to a point where there can be some level of agreement. That is the proper way of doing things, and I look forward to that happening. We cannot be presented with a fait accompli that does not include discussions between the two Governments and, indeed, between this legislature and Westminster. We have to make sure that the Assembly becomes a permanent feature of the constitution and, of course, we have to ensure that where legislative consent motions are sought, they are respected by Westminster. That has not always been the case in the past.

We know there are challenges ahead for the UK. I suspect that, whatever happens, the constitutional issue will not be settled because the debate is being conducted in the wrong way. We've had different debates taking place in different parts of the UK—conversations in different rooms. There has never been a holistic, all-encompassing approach to the constitution in order to get it right for the twenty-first century. The Secretary of State is right to say that we should not be hidebound by what was the case in the twentieth century, nor should we be hidebound by nineteenth century constitutional principles—parliamentary sovereignty being one of them. We have to make sure that we have a constitution that is fit for the twenty-first century.

Much has been talked about in terms of the EU and the importance of Wales's membership of it. Wales is a member of two unions. It derives benefit, in my view, from being a member of those two unions. I'm glad the Secretary of State moved the debate on to the issue of reform because he is right: sometimes in this debate, people talk about the EU as if it is in terms of leaving or continuing exactly as it is. There is a need for reform within the EU. There is much wrong with the UK, but that doesn't mean I would ditch the concept of the UK. There is much wrong with the way that the EU currently runs itself, but that does not mean that being part of that large market and that large body of partners is something that the UK should not be part of.

Mae'r model cadw pwerau wedi ei groesawu gan bob plaid yn y Siambur hon. Ond y manylion sy'n bwysig, wrth gwrs. Nid ydym yn gwybod eto sut bethau fydd y cymalau cadw. Mae'n rhaid i'r model cadw pwerau sicrhau symlrwydd ac eglurder yn anad dim arall. Yr hyn nad oes ei angen arnom yw cyfres o dudalennau a thudalennau o gymalau cadw. Rwyf wedi gweld awgrymiadau, er enghraifft—er nad gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond mewn man arall—y byddai cyfraith trosedd a gweithdrefnau troseddol a chyfraith sifil a gweithdrefnau sifil yn cael eu cadw. Os felly, ni fyddem yn gallu pasio unrhyw ddeddf yn y Siambur hon. Mewn gwirionedd byddai'n gwyrddroi'r bleidlais a gynhaliwyd yn 2011, gan y byddai'r cymal cadw hwnnw wedi'i ddiffinio mor eang. Os yw hynny'n rhywbeth sydd wedi cael ei ystyried, rwy'n gobeithio y byddai'n cael ei ailystyried. Mae'n bwysig cael trafodaeth briodol am y cymalau cadw. Ni fydd yn ddigon da os yw pwyllgor y Cabinet yn San Steffan yn cymeradwyo'r cymalau cadw a bod ymgynghoriad yn digwydd wedyn heb drafodaeth. Er tegwch i'r Ysgrifennydd Gwladol, mae wedi rhoi sicrwydd na fydd hynny'n digwydd—y bydd trafodaeth briodol ac y byddwn yn cyrraedd pwynt lle y gellir sicrhau rhyw lefel o gytundeb. Dyna'r ffordd briodol o wneud pethau, ac edrychaf ymlaen at weld hynny'n digwydd. Ni allwn gael sefyllfa lle y byddai fait accompli yn cael ei gyflwyno i ni nad yw'n cynnwys trafodaethau rhwng y ddwy Lywodraeth ac yn wir, rhwng y ddeddfwrfra hon a San Steffan. Rhaid i ni wneud yn siŵr fod y Cynulliad yn dod yn nodwedd barhaol o'r cyfansoddiad ac wrth gwrs, rhaid i ni sicrhau, lle y ceisir cynigion cydsyniad deddfwriaethol, eu bod yn cael eu parchu gan San Steffan. Nid yw hynny wedi bod yn wir bob amser yn y gorffennol.

Gwyddom fod heriau'n wynebu'r DU. Beth bynnag sy'n digwydd, rwy'n amau na chaiff y mater cyfansoddiadol ei setlo am fod y ddadl yn cael ei chynnal yn y ffordd anghywir. Rydym wedi cael gwahanol ddadleuon yn digwydd mewn gwahanol rannau o'r DU—sgyrsiau mewn ystafelloedd gwahanol. Ni fu erioed un ymagwedd hollgynhwysol a chyfannol at y cyfansoddiad er mwyn ei gael yn iawn ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn iawn i ddweud na ddylem fod yn gaeth i'r hyn a oedd yn wir yn yr ugeinfed ganrif, ac ni ddylem fod yn gaeth i egwyddorion cyfansoddiadol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ychwaith—a sofraniaeth seneddol yn un ohonynt. Rhaid i ni wneud yn siŵr fod genym gyfansoddiad sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Soniwyd llawer am yr UE a phwysigrwydd aelodaeth Cymru ohono. Mae Cymru yn aelod o ddau undeb. Yn fy marn i, mae'n cael budd o fod yn aelod o'r ddau undeb. Rwy'n falch fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi symud y ddadl ymlaen at fater diwygio oherwydd mae'n llygad ei le: weithiau yn y ddadl hon, mae pobl yn siarad am yr UE fel pe bai'n fater o adael neu barhau yn union fel y mae. Mae angen diwygio o fewn yr UE. Mae llawer o'i le ar y DU, ond nid yw hynny'n golygu y byddwn yn diystyru'r cysyniad o'r DU. Mae llawer o'i le ar y ffordd y mae'r UE yn rhedeg ei hun ar hyn o bryd, ond nid yw hynny'n golygu na ddylai'r DU fod yn rhan o'r farchnad fawr honno, a'r corff mawr hwnnw o bartneriaid.

In terms of some of the other issues that were raised, the financial issue is important for Wales. The Barnett floor, and the progress that is being made towards that, is welcome. But I think the reality is that the time has come that Barnett itself must be revisited. There is no reason why Wales should be funded on the basis that it is. The Barnett floor is welcome—you know, it is not one or the other. But the reality is, if we're going to have a proper, needs-based funding formula across the UK, it cannot be based on data that are 36 years out of date. It has to be done properly, and that has to be done without fear to other parts of the UK. It has to be done on a fair basis if the UK is worth something.

Now, I did listen carefully to something the Secretary of State said, which surprised me. He said that the Assembly should use,

'the income tax powers that are already available to it.'

Now, I'm surprised to hear that because I'm not aware of any income tax powers that we already have that are available to us. It builds on something that was said in his 'Guardian' article, which I read, where it went even further, saying that the Assembly should be using its powers of varying income tax by 10p, and that we should be using those powers as well. Now, unless I've missed something, I'm not aware that we have any income tax-varying powers at all at this moment in time. And yet, there seemed to be a suggestion that we were being accused of failing to use powers that we don't actually have in the first place. But I did carefully note what he said there, and it is something that was said in the 'Guardian' article. I'd invite him to read that and study the Record.

He is right to say that change in the Welsh constitution should be supported by the people of Wales. I have to say to him that the devolution of policing is supported time after time after time after time in opinion polls, and that is something that a lot of people think is already devolved, actually—policing—and I do believe that the people of Wales want to see policing devolved in the same way as they see policing devolved elsewhere in the UK.

I heard what Kirsty Williams said about repatriating powers. I never use that phrase—you can't repatriate powers away from people; you can only pinch powers away from people. It's important that we realise that the powers that are held in this Assembly are inherent powers that belong to the people of Wales; they cannot be removed from the people of Wales without the consent of the people of Wales.

He talked about working together in terms of city deals. I'm perfectly happy to do it, but we need to see the cash on the table. At the moment, we have no idea how much money might be made available. We don't know how much money the Welsh Government will be asked to find. We don't know how much money local authorities will be asked to find. We've seen it work elsewhere in the UK, and we come at this with an open mind, but we do now need to see progress in terms of the financial settlement as far as a city deal as concerned.

O ran rhai o'r materion eraill a grybwyllwyd, mae'r mater ariannol yn bwysig i Gymru. Mae llawr Barnett, a'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at hynny, i'w groesawu. Ond rwy'n credu mai'r realiti yw bod yr amser wedi dod i ailystyried Barnett ei hun. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai Cymru gael ei hariannu ar y sail bresennol. Mae llawr Barnett i'w groesawu—wyddoch chi, nid yw'n fater o un neu'r llall. Ond y gwir yw, os ydym yn mynd i gael fformiwla gyllido briodol yn seiliedig ar anghenion ar draws y DU, ni ellir ei seilio ar ddata sydd 36 mlynedd ar ei hôl hi. Mae'n rhaid iddo gael ei wneud yn iawn, ac mae'n rhaid ei wneud heb beri ofn i rannau eraill o'r DU. Mae'n rhaid iddo gael ei wneud ar sail deg os yw'r DU yn werth rhywbeth.

Nawr, fe wrandewais yn ofalus ar rywbeth a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol, ac roedd yn fy synnu. Dywedodd y dylai'r Cynulliad ddefnyddio,

'y pwerau treth incwm sydd eisoes ar gael iddi.'

Nawr, rwy'n synnu clywed hynny gan nad wyf yn ymwybodol fod gennym unrhyw bwerau treth incwm sydd eisoes ar gael i ni. Mae'n adeiladu ar rywbeth a ddywedodd yn yr erthygl a ddarllenais ganddo yn y 'Guardian', lle y mae'n mynd hyd yn oed ymhellach, gan ddweud y dylai'r Cynulliad fod yn defnyddio ei bwerau i amrywio'r dreth incwm o 10c, ac y dylem fod yn defnyddio'r pwerau hynny yn ogystal. Nawr, oni bai fy mod i wedi methu rhywbeth, nid wyf yn ymwybodol fod gennym unrhyw bwerau amrywio treth incwm o gwbl ar hyn o bryd. Ac eto, roedd yn ymddangos bod yna awgrym ein bod yn cael ein cyhuddo o fethu defnyddio pwerau nad oes gennym yn y lle cyntaf. Ond fe sylwais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd, ac mae'n rhywbeth a ddywedwyd yn erthygl y 'Guardian'. Byddwn yn ei wahodd i'w ddarllen ac i astudio'r Cofnod.

Mae'n gywir i ddweud y dylai newid yng nghyfansoddiad Cymru gael ei gefnogi gan bobl Cymru. Rhaid i mi ddweud wrtho fod datganoli plismona yn cael cefnogaeth dro ar ôl tro yn y polau piniwn, ac mae'n rhywbeth y mae llawer o bobl yn meddwl ei fod wedi'i ddatganoli eisoes, mewn gwirionedd—plismona—ac rwy'n credu bod pobl Cymru am weld plismona yn cael ei ddatganoli yn yr un modd ag y maent yn gweld plismona wedi ei ddatganoli mewn rhannau eraill o'r DU.

Clywais yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams am bwerau ail-wladoli. Nid wyf byth yn defnyddio'r ymadrodd—ni allwch ail-wladoli pwerau gan bobl; ni allwch ond dwyn pwerau gan bobl. Mae'n bwysig i ni sylweddoli bod y pwerau sydd gan y Cynulliad hwn yn bwerau cynhenid sy'n perthyn i bobl Cymru; ni ellir eu cymryd gan bobl Cymru heb ganiatâd pobl Cymru.

Soniodd am gydweithio ar gytundebau dinas. Rwy'n berffaith hapus i wneud hynny, ond mae angen i ni weld yr arian ar y bwrdd. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw syniad faint o arian a allai fod ar gael. Nid ydym yn gwybod faint o arian y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ddod o hyd iddo. Nid ydym yn gwybod faint o arian y bydd gofyn i awdurdodau lleol ddod o hyd iddo. Rydym wedi ei weld yn gweithio mewn mannau eraill yn y DU, ac mae gennym feddlw agored ar y mater, ond mae angen i ni weld cynnydd yn awr o ran y setliad ariannol mewn perthynas â chytundebau dinas.

And he mentioned, of course, localism. Well, you can talk about onshore windfarms and local decisions with regard to onshore windfarm developments, but the reality is, with the removal of the subsidy, that's been taken away from local communities in any event, and so that's not something that they will have proper powers over.

So, let's acknowledge that progress has been made, but there is still a long way to go, particularly not just in terms of Wales, but of the UK as a whole. There is much work that needs to be done in order to get the constitution right and to make sure that the UK reflects the four nations that are part of the UK state. But there's one thing that I have to end with.

The financial crisis that the world saw from 9 August 2007 onwards was not caused by people working in the social care sector. It was not caused by people collecting kerbside rubbish. It was not caused by people who clean public buildings. Why, then, should they be the people who suffer the most? The reality is that the crisis was caused by the irresponsibility of some in the banking industry, and yet they have been allowed to get away with their irresponsibility without any penalty. If there's one plea I make to the UK Government, it is this: let the burden be shouldered by those who caused the problem in the first place, and not by those people who, through no fault of their own, have had to suffer for the course of the last five years. Then we will be able to judge whether in fact this UK Government is true to its word that it's on the side of working people, is true to its word that it's on the side of communities, and is true to its word that people who have the most should shoulder the greatest burden. We have no evidence of that yet, but if we are to ensure that we have a truly fair society, then let those who bear the greatest responsibility carry the greatest burden. When we see that day, we will know that the UK Government has truly learned that that's what the people of Britain want.

Ac fe grybwyllodd leoliaeth, wrth gwrs. Wel, gallwch siarad am ffermydd gwynt ar y tir a phenderfyniadau lleol o ran datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir, ond y gwir yw, gyda dileu'r cymhorthdal, mae hwnnw wedi cael ei gymryd oddi wrth gymunedau lleol beth bynnag, ac felly nid yw hynny'r rhywbeth y bydd ganddynt bwerau priodol drosto.

Felly, gadewch i ni gydnabod bod cynnydd wedi'i wneud, ond mae ffordd bell i fynd, nid yn unig o ran Cymru yn benodol, ond o ran y DU yn ei chyfanrwydd. Mae llawer o waith sydd angen ei wneud er mwyn cael y cyfansoddiad yn iawn ac i wneud yn siŵr fod y DU yn adlewyrchu'r pedair gwlad sy'n rhan o wladwriaeth y DU. Ond mae un peth sy'n rhaid i mi ei ddweud cyn cloi.

Ni chafodd yr argyfwng ariannol a welodd y byd o 9 Awst, 2007 ymlaen ei achosi gan bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Ni chafodd ei achosi gan bobl sy'n casglu sbwriel o ymyl y ffordd. Nid chafodd ei achosi gan bobl sy'n glanhau adeiladau cyhoeddus. Pam felly mai hwy yw'r bobl sy'n dioddef fwyaf? Y gwir amdani yw bod yr argyfwng wedi ei achosi gan anghyfrifoldeb rhai yn y diwydiant bancio, ac eto maent wedi cael ymddwyn yn anghyfrifol heb wynebu unrhyw gosb. Os oes un apêl rwyf am ei gwneud i Lywodraeth y DU, dyma hi: gadewch i'r baich gael ei ysgwyddo gan y rhai a achosodd y broblem yn y lle cyntaf, ac nid gan y bobl sydd wedi gorfod dioddef, heb fod unrhyw fai arnynt hwy, dros y pum mlynedd diwethaf. Yna, gallwn farnu'n iawn a yw Llywodraeth y DU yn cadw at ei gair ei bod ar ochr y bobl sy'n gweithio, yn cadw at ei gair ei bod ar ochr cymunedau, ac yn cadw at ei gair mai'r bobl sydd â'r mwyaf ganddynt a ddylai ysgwyddo'r baich mwyaf. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o hynny eto, ond os ydym am sicrhau bod gennym gymdeithas wirioneddol deg, yna gadewch i'r rhai sy'n fwyaf cyfrifol ysgwyddo'r baich mwyaf. Pan welwn y diwrnod hwnnw, byddwn yn gwybod fod Llywodraeth y DU wedi dysgu mai dyna y mae pobl Prydain ei eisiau mewn gwirionedd.

16:13

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? [Objection.] I will conduct all the voting under this item electronically. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Quickly, please. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 10. Therefore amendment 1 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn pleidleisio o dan yr eitem hon yn electronig. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Yn gyflym, os gwelwch yn dda. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 10 yn erbyn. Felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 34, Against 10, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5792](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5792](#)

16:14

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12. There voted against 32. Therefore amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid. Pleidleisiodd 32 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 12, Yn erbyn 32, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 12, Against 32, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 2 i gynnig NDM5792](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5792](#)

- 16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 31. There voted against 10. There were three abstentions. Therefore amendment three is agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 31 o blaid. Pleidleisiodd 10 yn erbyn. Roedd 3 yn ymatal. Felly mae gwelliant 3 wedi cael ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 31, Yn erbyn 10, Ymatal 3.

Amendment agreed: For 31, Against 10, Abstain 3.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig welliant 3 i gynnig NDM5792](#)

[Result of the vote on motion amendment 3 to motion NDM5792](#)

- 16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 10. Therefore amendment 4 is agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 10 yn erbyn. Felly derbynir gwelliant 4.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 34, Against 10, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5792](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5792](#)

- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 5, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour nine. There voted against 13. There were 22 abstentions. Therefore amendment 5 is not agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 13 yn erbyn. Roedd 22 yn ymatal. Felly, nid yw gwelliant 5 wedi ei dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 9, Yn erbyn 13, Ymatal 22.

Amendment not agreed: For 9, Against 13, Abstain 22.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5792](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5792](#)

- 16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I now call for a vote on the motion as amended, tabled in the name of Rosemary Butler.
- Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio, a gyflwynwyd yn enw Rosemary Butler.

Cynnig NDM5792 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5792 as amended:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2015/2016.

1. Notes the content of the UK Government's legislative programme 2015/2016.

2. Yn gresynu at y ffaith nad yw'r Bil Cymru arfaethedig yn gweithredu yn llawn argymhellion y Comisiwn Silk trawsbleidiol ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu'r argymhellion llawn heb oedi.

2. Regrets that the proposed Wales Bill does not implement in full the recommendations of the cross-party Silk Commission and calls on the UK Government to implement the full recommendations without hesitation.

3. Yn gresynu at y ffaith nad yw Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â chynnig pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i'r Alban, neu sy'n cael eu cynnig i'r Alban.

3. Regrets that the UK Government's proposed Wales Bill falls short of offering comparable powers as those available to, or on offer to Scotland.

4. Yn gresynu at fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion i ddi-ddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

4. Regrets the UK Government's intention to bring forward proposals to abolish the Human Rights Act 1998.

16:15

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 31. There voted against 10. There were three abstentions. Therefore the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 31 o blaid. Pleidleisiodd 10 yn erbyn. Roedd 3 yn ymatal. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5792 fel y'i diwygiwyd: O blaid 31, Yn erbyn 10, Ymatal 3.*

*Motion NDM5792 as amended agreed: For 31, Against 10, Abstain 3.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5792 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5792 as amended](#)

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:15.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16:15.*

## **5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Darlledu yn yr Iaith Gymraeg**

*Delholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.*

## **5. Welsh Liberal Democrats Debate: Welsh-language Broadcasting**

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, and amendment 3 in the name of Elin Jones.*

16:15

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the next item on the agenda, and that's item 5, which is the Welsh Liberal Democrats' debate on Welsh-language broadcasting. I call on Peter Black to move the motion.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf ar yr agenda, sef eitem 5, dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar ddarlledu yn yr iaith Gymraeg. Galwaf ar Peter Black i gynnis y cynnig.

Cynnig NDM5790 Aled Roberts

Motion NDM5790 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod gwerth darlledu neilltuol yn yr iaith Gymraeg a chyfraniad pwysig S4C o ran diogelu ein hiaith Gymraeg a chyfoethogi diwylliant Cymru;

1. Recognises the value of distinctive Welsh-language broadcasting and the important contribution of S4C in safeguarding our Welsh language and enriching the culture of Wales;

2. Yn gwrthwynebu unrhyw doriadau pellach yng nghyllid S4C gan Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a allai fygwth dyfodol y sianel hon; a

2. Opposes any further cuts in S4C funding by the UK Government Department for Culture, Media and Sport, which could threaten the future of this channel; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am bwysigrwydd cynnal annibyniaeth olygyddol, reolaethol a gweithredol S4C a'r angen am sail cyllid cynaliadwy i ddiogelu dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg.

3. Calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government on the importance of maintaining the editorial, managerial and operational independence of S4C and the need for a sustainable funding basis to protect the future of Welsh-language broadcasting.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*



Thank you, Presiding Officer. We're pleased to table this debate today to give us an opportunity to discuss the important role of S4C and the need to secure the future of Welsh-language broadcasting in advance of discussions over the renewal of the BBC charter, which are likely to start this summer.

As our motion highlights, S4C plays a very valuable role in safeguarding the Welsh language and enriching the culture of Wales. It broadcasts over 115 hours of programmes each week, including sport, drama, music, factual entertainment and events. Programmes such as the award-winning 'Cyw' offer enjoyment for children and young viewers, while services such as 'Dal Ati' provide content for adult learners. As the only Welsh-language channel in the world, S4C appeals to viewers from learners to those who are fluent.

A survey by S4C in 2013 found that 96 per cent of viewers believe that the channel keeps the Welsh language alive, and plays a vital role in ensuring that Welsh continues to be a living language. It also brings significant benefits to our Welsh economy. Every £1 invested by S4C in the creative industries more than doubles its value to the economy to about £2.09, with individual productions having a direct impact on the areas in which they are filmed. The overall impact of filming the first series of 'Hinterland' in Ceredigion, a convergence area, was over £1 million.

Since the channel launched in 1982 it has brought over £2.2 billion of investment into Wales. S4C also supports the growth of a strong and successful independent sector. Major companies include Boom Pictures, Tinopolis, Rondo Media and Cwmni Da, which create programmes of the highest quality. As a publisher-broadcaster, S4C spends nearly 81 per cent of its commissioning budget on the independent sector, supporting jobs and skills development, and it is the only broadcaster that commissions to this extent across Wales. It also helps to promote Wales abroad. 'Hinterland' is now sold to 30 territories including Denmark, Netflix in North America, and New Zealand. Performances such as {150}, celebrating 150 years of the Welsh colony in Patagonia, will be broadcast internationally; {150} sees National Theatre Wales/Theatr Genedlaethol Cymru and S4C team up for the very first time to celebrate the story of the first Welsh migrants who set sail for a new life in Patagonia in 1865.

In sport, in March we saw a landmark broadcast with S4C's live coverage of the Wales versus Ireland women's 6 Nations international match, webcast throughout the world on S4C's online service, S4C.cymru. This is the first time that an S4C online broadcast of a rugby match has been made available throughout the world. Last year, the Royal Welsh Show was broadcast internationally, with programmes such as sheep shearing being a hit in New Zealand. These programmes bring an international audience to Wales and reflect the incredible talent, heritage and culture that we have in this country.

Diolch i chi, Lywydd. Rydym yn falch o gyflwyno'r ddatl hon heddiw er mwyn rhoi cyfle i ni drafod rôl bwysig S4C a'r angen i sicrhau dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg cyn y trafodaethau ar adnewyddu siarter y BBC, sy'n debygol o ddechrau yr haf hwn.

Fel y mae ein cynnig yn ei amlygu, mae S4C yn chwarae rhan werthfawr iawn yn diogelu'r iaith Gymraeg a chyfoethogi diwylliant Cymru. Mae'n darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos, gan gynnwys chwaraeon, drama, cerddoriaeth, adloniant ffeithiol a digwyddiadau. Mae rhaglenni fel 'Cyw', sydd wedi ennill gwobrau, yn rhoi mwynhad i blant a gwylwyr ifanc, a gwasanaethau megis 'Dal Ati' yn darparu cynnwys ar gyfer oedolion sy'n dysgu Gymraeg. Fel yr unig sianel Gymraeg yn y byd, mae S4C yn apelio at wylwyr o ddysgwyr i'r rhai sy'n rhugl.

Canfu arolwg gan S4C yn 2013 fod 96 y cant o'r gwylwyr yn credu bod y sianel yn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw, ac yn chwarae rhan hanfodol yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw. Mae hefyd yn sicrhau manteision sylweddol i'n heconomi yng Nghymru. Mae pob £1 a fuddsoddir gan S4C yn y diwydiannau creadigol yn mwy na dyblu ei gwerth i'r economi, i tua £2.09, gyda chynrychiadau unigol yn cael effaith uniongyrchol ar yr ardaloedd lle y cânt eu ffilmio. Roedd effaith gyffredinol ffilmio'r gyfres gyntaf o 'Y Gwyll' yng Ngheredigion, ardal gydgyfeirio, yn werth dros £1 filiwn.

Ers lansio'r sianel yn 1982, mae wedi dod â thros £2.2 biliwn o fuddsoddiad i mewn i Gymru. Mae S4C hefyd yn cefnogi twf sector annibynnol cryf a llwyddiannus. Mae'r prif gwmnïau yn cynnwys Boom Pictures, Tinopolis, Rondo Media a Cwmni Da, sy'n creu rhaglenni o'r safon uchaf. Fel cyhoeddwr-ddarlledwr, mae S4C yn gwario bron i 81 y cant o'i chyllideb gomisiynu ar y sector annibynnol, gan gefnogi swyddi a datblygu sgiliau, a dyma'r unig ddarlledwr sy'n comisiynu i'r graddau hyn ar draws Cymru. Mae hefyd yn helpu i hyrwyddo Cymru dramor. Mae 'Y Gwyll' yn awr yn cael ei werthu i 30 o diriogaethau yn cynnwys Denmarc, Netflix yng Ngogledd America, a Seland Newydd. Bydd perfformiadau fel {150}, sy'n dathlu 150 mlynedd y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, yn cael eu darlledu'n rhyngwladol; ar gyfer {150}, bydd National Theatre Wales/Theatr Genedlaethol Cymru ac S4C yn dod at ei gilydd am y tro cyntaf erioed i ddathlu hanes yr ymfudwyr Cymreig cyntaf a hwyliodd i ddod o hyd i fywyd newydd ym Mhatagonia ym 1865.

Mewn chwaraeon, ym mis Mawrth gwelsom ddarllediad byw pwysig S4C o gêm ryngwladol y Chwe Gwlad i ferched rhwng Cymru ac Iwerddon, wedi'i weddarlledu ar draws y byd ar wasanaeth ar-lein S4C, S4C.cymru. Dyma'r tro cyntaf i ddarllediad ar-lein S4C o gêm rygbi fod ar gael ar draws y byd. Y llynedd, darlledwyd Sioe Frenhinol Cymru yn rhyngwladol, gyda rhaglenni fel cneifio defaid yn boblogaidd iawn yn Seland Newydd. Mae'r rhaglenni hyn yn dod â chynulleidfa ryngwladol i Gymru ac yn adlewyrchu'r dalent anhygoel, y dreftadaeth a'r diwylliant sydd gennym yn y wlad hon.

Against this backdrop, it is vital that we do all we can to make the case to the UK Government on the importance of maintaining the independence of S4C, and the need for a sustainable funding basis to protect the future of Welsh-language broadcasting. S4C has faced significant upheaval over the past few years, and has already made firm efforts to reduce funding internally. Lib Dems in Government worked hard to ensure that S4C retained its independence and had a more stable funding settlement during the passage of the Public Bodies Bill.

The operating agreement that was reached between the BBC and S4C in 2013 ensured that the editorial, managerial and operational independence of S4C was maintained, and provided financial stability up to 2017. As a result, S4C itself admits it is in a good place at the moment. They're working hard to ensure the new financial arrangements and the partnership with the BBC are working. However, future funding for S4C is about to reach a tipping point, with Government funding not guaranteed beyond this financial year and uncertainty over UK Government plans for the BBC licence fee. The UK Department for Culture, Media and Sport provides £6.7 million of funding to S4C, which is 8 per cent of its budget. But this funding is not guaranteed beyond this year.

It's interesting to note that the Conservative amendment 1 to our debate today, which opposes any cuts to Government funding for S4C over this Parliament, actually takes us beyond the new BBC charter renewal. That is to be welcomed. Whilst we welcome this amendment and the commitment in the Welsh Tory manifesto to protect the future funding and independence of S4C, it was perhaps telling that the UK Tory manifesto contained no mention of this. We therefore wait to see what July's budget and the autumn spending review will bring. Discussions over the future funding and size of the BBC should start in earnest this summer, with the BBC charter due for renewal in 2017.

This does, of course, create even more uncertainty, as the UK Government may be considering changes to the licensing regime that could impact on S4C funding. The BBC licence fee, after all, accounts for £75 million, over 90 per cent, of funding for S4C. The Welsh Liberal Democrats believe the licence fee remains the best way of funding high-quality independent services such as the BBC and S4C, although they should not rise above inflation.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU ynglŷn â phwysigrwydd cynnal annibyniaeth S4C, a'r angen am sylfaen gyllid gynaliadwy i ddiogelu dyfodol darlledu yn yr iaith Gymraeg. Mae S4C wedi wynebu trafferthion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae eisoes wedi gwneud ymdrechion pendant i leihau cyllid yn fewnol. Gweithiodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn galed yn y Llywodraeth i sicrhau bod S4C yn cadw ei hannibyniaeth ac yn cael setliad ariannol mwy sefydlog yn ystod taith y Bil Cyrff Cyhoeddus.

Mae'r cytundeb gweithredu a wnaed rhwng y BBC ac S4C yn 2013 yn sicrhau bod annibyniaeth olygyddol, reolaethol a gweithredol S4C yn cael ei chynnal, a sicrhaodd sefydlogrwydd ariannol hyd at 2017. O ganlyniad, mae S4C ei hun yn cyfaddef ei bod mewn lle da ar hyn o bryd. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod y trefniadau ariannol newydd a'r bartneriaeth â'r BBC yn gweithio. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer S4C yn y dyfodol ar fin cyrraedd trobwynt, gan nad oes cyllid wedi'i warantu gan y Llywodraeth y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon ac oherwydd ansicrwydd ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer ffi trwydded y BBC. Mae Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU yn darparu £6.7 miliwn o gyllid ar gyfer S4C, sef 8 y cant o'i chyllideb. Ond nid yw'r cyllid hwn wedi ei warantu y tu hwnt i'r flwyddyn hon.

Mae'n ddiddorol nodi bod gwelliant 1 y Ceidwadwyr i'n dadl heddiw, sy'n gwrthwynebu unrhyw doriadau i gyllid y Llywodraeth ar gyfer S4C dros gyfnod y Senedd hon, mewn gwirionedd yn mynd â ni y tu hwnt i adnewyddu siarter y BBC. Mae hynny i'w groesawu. Er ein bod yn croesawu'r gwelliant hwn a'r ymrwymiad ym manifesto Ceidwadwyr Cymru i ddiogelu cyllid ac annibyniaeth S4C yn y dyfodol, roedd yn ddadlennol efallai nad oedd manifesto Ceidwadol y DU yn cynnwys unrhyw sôn am hyn. Felly, rydym yn aros i weld beth fydd cyllideb mis Gorffennaf a'r adolygiad o wariant yn yr hydref yn ei gynnig. Dylai trafodaethau dros ariannu'r BBC a'i maint yn y dyfodol ddechrau o ddifrif yr haf hwn, gyda siarter y BBC i gael ei hadnewyddu yn 2017.

Mae hyn wrth gwrs yn creu mwy fyth o ansicrwydd, gan y gallai Llywodraeth y DU fod yn ystyried newidiadau i'r gyfundrefn drwyddedu a allai effeithio ar gyllid S4C. Ffi trwydded y BBC, wedi'r cyfan, sydd i gyfrif am £75 miliwn, dros 90 y cant, o gyllid S4C. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu mai ffi'r drwydded yw'r ffordd orau o hyd o ariannu gwasanaethau annibynnol o ansawdd uchel megis y BBC ac S4C, er na ddylai godi'n uwch na chwyddiant.

The Tory manifesto says it will freeze the BBC licence fee, pending charter renewal, but the new culture Secretary, John Whittingdale, is on record as saying previously that it should be scrapped. In fact, just this week, BBC political editor Nick Robinson revealed that, during the general election campaign, David Cameron threatened to close down the BBC altogether. Whilst he remarks that it was hard to know whether the Prime Minister was making a joke, this is hardly a joke for those staff working within the BBC and it raises significant concerns over the future of S4C, which relies so heavily on this funding. In a radio interview, George Osborne also hinted that a Tory Government may abolish the BBC Trust, saying that the trust arrangement has never really worked. This was echoed by BBC Trust chair Rona Fairhead, who said that the BBC Trust should be abolished and replaced by a new external regulator. That will have implications for S4C as well, which receives funding from and reports to the BBC Trust. S4C can adapt to a new model, so long as this retains its independence and does not impact on its plurality or ability to commission from the independent sector.

Again, no matter what model is eventually adopted, uncertainty does impinge upon S4C's future, because what S4C needs now, both in terms of future funding and Government structures, is certainty so that it can plan and commission programmes. DCMS funding accounts for 10 per cent of the content budget, so lack of certainty over funding presents challenges as programmes for next year need to be commissioned urgently. There is currently no timetable for the Green Paper over the BBC charter renewal and timing is crucial if we are to enable strong public consultation. We need clarity from the UK Government as to its future intentions regarding the BBC and Welsh-language broadcasting. We urge the Welsh Government to make this case on behalf of Wales. Thank you, Presiding Officer.

Mae manifesto'r Toriaid yn dweud y bydd yn rhewi ffi trwydded y BBC, wrth aros i'r siarter gael ei hadnewyddu, ond cofnodwyd yr Ysgrifennydd diwylliant newydd, John Whittingdale, yn dweud ar goedd yn flaenorol y dylid dileu ffi'r drwydded. Mewn gwirionedd, yr wythnos hon, datgelodd golygydd gwleidyddol y BBC, Nick Robinson, fod David Cameron wedi bygwth cau'r BBC yn gyfan gwbl yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol. Er ei fod yn nodi ei bod yn anodd gwybod a oedd y Prif Weinidog yn gwneud jôc, go brin ei bod yn jôc i'r staff sy'n gweithio yn y BBC ac mae'n creu pryderon sylweddol am ddyfodol S4C, sy'n dibynnu cymaint ar yr arian hwn. Mewn cyfweiliad radio, awgrymodd George Osborne hefyd y gallai Llywodraeth Doriaidd ddiddymu Ymddiriedolaeth y BBC, gan ddweud nad yw'r trefniant ymddiriedolaeth erioed wedi gweithio mewn gwirionedd. Adleisiwyd hyn gan gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, Rona Fairhead, a ddywedodd y dylid dileu Ymddiriedolaeth y BBC a sefydlu rheolydd allanol newydd yn ei lle. Bydd goblygiadau yn deillio o hynny hefyd i S4C, sy'n derbyn cyllid gan Ymddiriedolaeth y BBC ac yn cyflwyno adroddiadau i Ymddiriedolaeth y BBC. Gall S4C addasu i fodel newydd, ar yr amod bod hyn yn cynnal ei hannibyniaeth ac nad yw'n effeithio ar ei lluosogrwydd na'i gallu i gomisiynu gan y sector annibynnol.

Unwaith eto, ni waeth pa fodel a fabwysiadir yn y pen draw, mae ansicrwydd yn amharu ar ddyfodol S4C, gan mai'r hyn y mae S4C ei angen yn awr, o ran cyllido yn y dyfodol a strwythurau Llywodraeth, yw sicrwydd er mwyn iddi allu cynllunio a chomisiynu rhaglenni. Cyllid yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw 10 y cant o'r gyllideb cynnwys, felly mae diffyg sicrwydd ynghylch cyllid yn creu heriau gan fod angen comisiynu rhaglenni ar gyfer y flwyddyn nesaf ar frys. Ar hyn o bryd nid oes amserlen ar gyfer y Papur Gwyrdd dros adnewyddu siarter y BBC ac mae amseru'n allweddol os ydym am sicrhau ymgynghoriad cyhoeddus cryf. Mae arnom angen eglurder gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'i bwriadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r BBC a darlledu yn y Gymraeg. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r achos ar ran Cymru. Diolch i chi, Lywydd.

16:23

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the three amendments to the motion. I call on Suzy Davies to move amendments 1 and 2, both tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn gwrthwynebu unrhyw doriadau i gyllid S4C gan Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn ystod senedd bresennol y DU.*

*Opposes any cuts to S4C funding by the UK Government's Department for Culture, Media and Sport, during the current UK Parliament.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu mesurau sy'n cynyddu atebolrwydd S4C, yn ogystal â darlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru, i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i gryfhau'r atebolrwydd hwnnw, fel y nodir yn nogfen Dydd Gŵyl Dewi, 'Pwerau at bwrpas'.*

*Welcomes measures that increase the accountability of S4C, as well as other Welsh public service broadcasters, to the National Assembly and the commitment to strengthen that accountability by the UK Government, as set out in the St David's Day 'Powers for a Purpose' document.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:23

## **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Lywydd, a diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r cynnig heddiw. Rwy'n falch o symud ein gwelliannau.

Thank you very much, Presiding Officer, and thank you to the Liberal Democrats for tabling the motion today. I am pleased to move our amendments.

Ond mae'n ddadl hapfasnachol, onid ydyw? Hyd yn hyn, nid oes unrhyw arwydd o unrhyw doriadau DCMS i gyllid S4C, ac yn sicr nid oes arwydd o doriadau a allai fygwth dyfodol y sianel. Mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer yr elfen darlledu gwasanaeth cyhoeddus o waith S4C yn cael ei ddiogelu'n statudol. Rhaid iddo fod yn ddigonol i dalu cost darparu gwasanaethau cyhoeddus fel y'i diffinnir, a threfnu'r darlledu neu'r dosbarthu gwasanaethau hynny, ac mae'n rhaid i'r arian ar gyfer hynny ddod o'r Senedd yn San Steffan.

It is a speculative debate though, isn't it? As yet, there is no indication of any DCMS cuts to S4C's funding, and certainly no indication of cuts that could threaten the future of the channel. Any UK Government's financial support for the public service broadcast element of S4C's work is protected by statute. It must be sufficient to cover the cost providing public services as defined, and arranging for the broadcasting or distribution of those services, and the money for that is required to come from Parliament.

Nid yw hynny'n atal toriadau, wrth gwrs, ond mae dyletswydd statudol i ddarparu cyllid digonol ar gyfer costau penodol yn anghydnaws â'r syniad o fygythiad i ddyfodol y sianel, yn enwedig pan fyddwn yn edrych ar ffigur o rywbeth yn llai na £7 miliwn. Efallai felly, yr hoffai Aelodau gefnogi'r cynnig cryfach, wedi ei grynhoi yng ngwelliant y Ceidwadwyr Cymreig, sef y dylai'r lle hwn wrthwynebu unrhyw doriadau i'r cyllid hwnnw.

That doesn't preclude cuts, of course, but a statutory duty to provide sufficient funding for specific costs is incompatible with the notion of threats to the future of the channel, particularly when we are looking at a figure of something less than £7million. Members may, then, prefer to support the stronger position encapsulated in the Welsh Conservatives' amendment, which is that this place should oppose any cuts to that funding.

I suppose, however, that the meat of the motion is in part 3 and the point about sustainable funding. DCMS's contribution is small compared to the amount due to S4C from the licence fee since 2011—about £74.5 million for this coming year; a decrease of about £1.5 million in these last three years. That's not a trend that any of us enjoys seeing, I'm sure, but it has been a challenge that S4C has met. When you look back at the findings of S4C's 2011 efficiency and innovation review, you can see why that gauntlet had to be laid down, regardless of whether money had to be saved or not. The rest of the channel's income comes from its own commercial activities, of course. While the post-crash picture of the economy was poor perhaps the 2 per cent that activity contributed was acceptable. I would hope to see that figure improve, though, now that the economic picture is rosier—and Peter Black gave us a really good indication of the value of the channel. Our creative industries are becoming more agile, responsive and prominent, and I think that, too, is an advantage that S4C can take advantage of. I know there's still an issue surrounding intellectual property, and that remains a problem for the channel in developing perhaps a more ambitious commercial model, but the co-production of programmes such as 'Hinterland' does give the channel increasing scope to make a little more money itself.

Mae'n debyg, fodd bynnag, fod sylwedd y cynnig i'w weld yn rhan 3 a'r pwynt ynglŷn â chyllid cynaliadwy. Mae cyfraniad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn fach o'i gymharu â'r swm dyledus i S4C o ffrîr drwydded ers 2011—tua £74.5 miliwn ar gyfer y flwyddyn i ddod; gostyngiad o oddeutu £1.5 miliwn yn y tair blynedd diwethaf. Nid yw hon yn duedd y mae unrhyw un ohonom yn mwynhau ei gweld, rwy'n siŵr, ond mae wedi bod yn her y mae S4C wedi ei hwynebu. Pan edrychwch yn ôl ar ganfyddiadau adolygiad effeithlonrwydd ac arloesi S4C ar gyfer 2011, gallwch weld pam y bu'n rhaid gosod yr her, heb ystyried a oedd yn rhaid arbed arian ai peidio. Daw gweddill incwm y sianel o'i gweithgareddau masnachol ei hun, wrth gwrs. Pan oedd y darlun ar ôl cwmp yr economi yn wael, efallai bod y 2 y cant a gyfrannai'r gweithgaredd hwnnw'n dderbyniol. Byddwn yn gobeithio gweld y ffigur hwnnw'n gwella, fodd bynnag, gan fod y darlun economaidd yn fwy gobeithiol bellach—a rhoddodd Peter Black syniad gwirioneddol dda o werth y sianel i ni. Mae ein diwydiannau creadigol yn dod yn fwy hyblyg, ymatebol ac amlwg, a chredaf fod hynny hefyd yn fantais y gall S4C elwa arni. Rwy'n gwybod bod problem o hyd ynghylch eiddo deallusol, ac mae hynny'n parhau'n broblem ar gyfer y sianel o ran datblygu model masnachol mwy uchelgeisiol efallai, ond mae cydgyhyrchu rhaglenni megis 'Y Gwyll' yn rhoi mwyfwy o le i'r sianel wneud ychydig mwy o arian ei hun.

The central question, of course, though, is: has the great licence fee experiment worked? After all, S4C was born out of a partnership between broadcasters, so the idea wasn't entirely new. While there was a willingness in this Assembly to give the situation a chance, the Lib Dems in London claimed at the time that the editorial, managerial and operational independence of S4C would be compromised. Well, S4C would be the first to say that this independence has been maintained and ensured that the current funding arrangement has worked. I think the Conservative track record in finding ways to support S4C funding—even in a time of economic crisis—has proven pretty sound. S4C can look forward to further protection for that independence—

*Alun Ffred Jones a gododd—*

Ond y cwestiwn canolog, wrth gwrs, yw: a yw arbrawf mawr ffi'r drwydded yn gweithio? Wedi'r cyfan, ganed S4C o bartneriaeth rhwng darlledwyr, felly nid oedd y syniad yn hollol newydd. Er bod parodrwydd yn y Cynulliad hwn i roi cyfle i'r sefyllfa, honnai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain ar y pryd y byddai annibyniaeth olygyddol, reolaethol a gweithredol S4C yn cael ei pheryglu. Wel, S4C fyddai'r cyntaf i ddweud bod yr annibyniaeth hon wedi cael ei chynnal ac wedi sicrhau bod y trefniant ariannu presennol wedi gweithio. Rwy'n meddwl bod hanes y Ceidwadwyr o ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi cyllid ar gyfer S4C—hyd yn oed mewn cyfnod o argyfwng economaidd—wedi profi'n eithaf cadarn. Gall S4C edrych ymlaen at ddiogelwch pellach i'r annibyniaeth honno—

*Alun Ffred Jones rose—*

- 16:27 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
[Continues.]—when the BBC Trust introduces a devolved governance body within its structure. [Yn parhau.]—pan fydd Ymddiriedolaeth y BBC yn cyflwyno corff llywodraethu datganoledig o fewn ei strwythur.
- 16:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Are you taking an intervention? A ydych chi'n ildio?
- 16:27 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Oh, apologies. Yes. O, ymddiheuriadau. Ydw.
- 16:27 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
O ran y gyllido, oni fydddech yn derbyn bod y toriadau llym yn y gyllideb wedi cael effaith ddifäol ar ansawdd y rhaglenni ar S4C? In terms of funding, do you not agree that the stringent cuts in funding have had an effect on the quality of programmes on S4C?
- 16:27 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Nid ar ansawdd y rhaglenni, na, ond mae gwahaniaeth wedi bod o ran sut y mae'r sianel yn cael ei gweinyddu; mae'n rhaid i mi ddweud hynny. Not on the quality of programming, no, but there has been a difference in the administration of the channel; I have to admit that.

So, just to go back to the BBC Trust, we've had, in the St David's Day agreement, a promise to see a devolved governance body within its structure and formal Welsh Government agreement to the appointment of the Welsh representative on the overall governance body. I think there is a need for a more Wales-savvy BBC Trust, tuned into the devolved nature of the UK and the importance of S4C's independence to this nation, economically, educationally as well as culturally—as well, of course, as its core function as a broadcaster, and that is its core function, let's not forget. I would be extremely disappointed if this were not secured in the charter renewal.

Felly, i fynd yn ôl at Ymddiriedolaeth y BBC, yn y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, cawsom addewid i weld corff llywodraethu datganoledig o fewn ei strwythur a chytundeb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i benodi cynrychiolydd Cymru ar y corff llywodraethu cyffredinol. Rwy'n credu bod angen i Ymddiriedolaeth y BBC fod yn fwy gwybodus am Gymru, am natur ddatganoledig y DU a phwysigrwydd annibyniaeth S4C i'r genedl hon, yn economaidd, yn addysgiadol yn ogystal ag yn ddiwylliannol—a hefyd, wrth gwrs, o ran ei swyddogaeth greiddiol fel darlledwr, ac ni ddylem anghofio mai dyna yw ei swyddogaeth greiddiol. Byddwn yn hynod o siomedig os na chaiff hyn ei ddiogelu wrth adnewyddu'r siarter.

Finally, as regards the Plaid amendment, we respect your position, but we don't agree with it at this time, for reasons that have been rehearsed more than once in this Chamber. However, we were pleased to see our view reflected in the St David's Day agreement that a specific obligation should be introduced on public service broadcasters to report to this Assembly, and I hope that our response to those reports carries weight within the UK's own scrutiny of those broadcasters. Finally, and most importantly, it is undoubtedly a matter of some significance that they be accountable to us as well as the UK Parliament.

Yn olaf, o ran gwelliant Plaid Cymru, rydym yn parchu eich safbwynt, ond nid ydym yn cytuno ag ef ar hyn o bryd, am resymau sydd wedi eu hailadrodd fwy nag unwaith yn y Siambur hon. Fodd bynnag, roeddem yn falch o weld ein barn wedi ei hadlewyrchu yng nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi y dylid cyflwyno rhwymedigaeth benodol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad hwn, ac rwy'n gobeithio bod ein hymateb i'r adroddiadau'n cyfrannu at waith craffu'r DU ei hun ar y darlledwyr hynny. Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, mae'n bendant yn fater arwyddocaol y dylent fod yn atebol i ni yn ogystal ag i Senedd y DU.

16:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Bethan Jenkins to move amendment 3, which is tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnis gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnis:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am ddatganoli cyfrifoldeb llawn dros S4C a'i chyllid.*

*Calls for the devolution of full responsibility and funding for S4C.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

16:29 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'n teimlo fel bod cryn amser wedi mynd heibio ers i ni wyllo S4C yn dioddef cyfnod anodd o negodi a brwydro dros ei ddyfodol, ond mai prin pedair blynedd yn ôl, yn 2010, y torrwyd y gyllideb, fel sydd wedi cael ei ddweud, gan fwy na thraean gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan. Wrth gwrs, arweiniodd hwn at bartneriaeth pedair blynedd a chytundeb cyllido rhwng y BBC ac S4C yn 2013, gyda'r BBC yn cyfrannu £76.3 miliwn o ffr'r drwydded yn 2013-14, ond mae hyn yn disgyn i £74.5 miliwn erbyn 2016-17. Mae S4C hefyd yn derbyn £7 miliwn gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a pheth incwm masnachol.

It appears that some time has passed since we watched S4C go through a difficult period of negotiation and a battle for its future, but it's just four years ago, in 2010, that the budget was cut, as has already been said, by more than a third by the Department for Culture, Media and Sport in Westminster. Of course, this led to a four-year partnership and funding agreement between the BBC and S4C in 2013, with the BBC contributing £76.3 million from the licence fee in 2013-14, but this falls to £74.5 million by 2016-17. S4C also receives £7 million from the Department for Culture, Media and Sport, as well as some commercial income.

Yr oedd ail ran comisiwn Silk yn dilyn ein hargymhelliad i S4C gael ei datganoli'n llawn yn 2017 os oedd y trefniadau cyllido presennol yn parhau. Dadleuodd na ellir cyfiawnhau i gyllido'r sianel aros yn gyfrifoldeb i San Steffan, a hynny yn erbyn ein hegwyddorion o atebolrwydd, sybsidiaredd ac effeithiolrwydd. Dywedodd yr adroddiad y gellid datganoli'r cyfrifoldeb dros S4C wedyn heb fawr ddim risg ariannol. Ond mae papur gorchymyn Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar ddyfodol datganoli yng Nghymru yn argymhell i dylai rheoleiddio darlledu aros yn gyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Dywed yn hytrach y dylid creu corff llywodraethu datganoledig o fewn fframwaith ymddiriedolaeth y Deyrnas Gyfunol gyda phwerau i oruchwylio a chraffu ar gynnyrch y BBC yng Nghymru, a phenodi cynrychiolydd Cymru i gorff llywodraethu cyffredinol y BBC drwy gytundeb ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Gyfunol.

The second part of the Silk commission followed our recommendation that S4C should be fully devolved in 2017 if the current funding arrangements were to remain in place. It argued that there was no justification to retain the funding of the channel at Westminster, against our principles of accountability, subsidiarity and efficiency. The report stated that the responsibility for S4C could be devolved with very little financial risk. But the UK Government's command paper on the future of devolution in Wales recommends that the regulation of broadcasting should remain the responsibility of the UK Government. It states, rather, that a devolved governing body should be created within the framework of the UK trust, with the powers to oversee and scrutinise the output of the BBC in Wales, and to appoint a Welsh representative to the general governing body of the BBC, by formal agreement between the UK and Welsh Governments.

Mae safbwynt Plaid Cymru ar hyn oll yn gyson. Rydym eisiau i gyfrifoldeb dros S4C gael ei ddatganoli a'r gyllideb i gael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru. Yr ydym wedi cefnogi S4C i gynnal ei hannibyniaeth olygyddol. Petai Plaid Cymru yn ffurfio'r Llywodraeth Cymru nesaf, byddem ni'n gofalu bod S4C ddatganoledig yn cadw ei hannibyniaeth olygyddol a gweithredol. Byddem hefyd yn sicrhau bod y sianel yn cael ei chyllido'n ddigonol. Rydym ni wedi dadlau ers amser bod yn rhaid i'r cyllido ddilyn, yn arbennig felly gan fod bygythiadau o du Llywodraeth ideolegol y Deyrnas Gyfunol sydd yn benderfynol o dorri costau ac sy'n cael ei hannog gan y wasg adain dde yn Lloegr sy'n gweld dim o werth diwylliannol i'r sianel ac sy'n edrych dim ond ar faint mae S4C yn ei gostio. Mae S4C yn fwy na chost i Gymru.

Mae trosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r cyllid dros S4C yn awr yn dod yn fater o frys wrth inni nesáu at y trafodaethau am faint a chyllideb y BBC a fydd yn digwydd yr haf hwn. Mae disgwyl i Lywodraeth Doriaidd y Deyrnas Gyfunol dorri'r BBC, a byddai hyn ag oblygiadau mawr i gyllid S4C. Fe dybiaf y byddai'n annhebygol y byddai Llywodraeth Doriaidd y Deyrnas Gyfunol yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig yma yn y ddadl hon, sydd yn gwrthwynebu unrhyw doriadau gan y DCMS i S4C o fewn y Senedd sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw bod manifestio Llywodraeth y Toriaid wedi'i gwneud yn glir y byddent yn cymryd cyfran o ffrîr drwydded ar gyfer seilwaith digidol i gefnogi band llydan cyflym iawn ledled y wlad. Felly, mae'n anghywir i ddweud na fyddai yna doriadau.

Cred Ysgrifennydd diwylliant Cysgodol y Blaid Lafur fod y Toriaid eisiau crebachu'r BBC, ac y bydd hyn hefyd yn crebachu S4C. Os yw Llafur wir am amddiffyn S4C, felly, dylent ymuno â ni i ddatganoli'r broses i Gymru fel ein bod ni yma yng Nghymru yn gallu penderfynu'n iawn i ble mae'r arian yn mynd. Rwy'n falch iawn bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dod â'r ddadl gerbron yma heddiw, ond efallai y gallan nhw hefyd ystyried mynd gam ymhellach i gefnogi datganoli'r hyn sydd yn digwydd gyda S4C yma yng Nghymru. Roedd Suzy Davies yn dweud yn gynharach y gallem ni obeithio—'hope'—i'r DCMS gymryd ystyriaeth o'r hyn rydym ni'n ei ddweud yma, ond dim ond 'hope' yw hynny. 'We can only hope'. Os nad ydym ni'n cael y penderfyniadau yma yng Nghymru a'r cyfrifoldeb yma yng Nghymru, sut ydym ni'n gallu sicrhau bod y DCMS yn barod i weithredu o blaid S4C ac na fyddan nhw'n torri S4C? Heb y pŵer, fyddwn ni ddim yn gallu sicrhau hynny.

Plaid Cymru's position on all this has been consistent. We want responsibility for S4C to be devolved and the budget to be transferred to the Welsh Government. We have supported S4C in maintaining its editorial independence. If Plaid Cymru were to form the next Welsh Government, we would ensure that a devolved S4C would retain its editorial and operational independence. We would also ensure that the channel was properly funded. We have long argued that the funding has to follow in this case, particularly as there are threats from the ideological UK Government, which is determined to cut costs and which is encouraged by the right-wing press in England, which sees no cultural value in the channel and looks only at how much S4C costs. S4C is about more than money to Wales.

Transferring the responsibility and the funding for S4C is now a matter of urgency, as we approach the discussions about the size and budget of the BBC, to take place this summer. It is expected that the Tory UK Government will make cuts to the BBC, which would have major implications for the funding of S4C. I suspect it would be unlikely that a Tory UK Government would support the Welsh Conservatives' amendment to this motion, which opposes any cuts by DCMS to S4C within the current parliamentary term. The reason for that is that the Tory Government's manifesto made it clear that they would take a percentage of the licence fee for digital infrastructure to support superfast broadband throughout the country. Therefore, it is wrong to say that there would be no cuts.

The Labour Party's Shadow culture Secretary believes that the Tories want to shrink the BBC, and that this would also have the impact of shrinking S4C. If Labour truly wants to protect S4C, therefore, they should join us in supporting the devolution of that process to Wales, so that we here in Wales are able to determine where the funding should rightly be spent. I'm very pleased that the Liberal Democrats have brought this motion before us for debate here today, but perhaps they could also consider going a step further and supporting the devolution of S4C to Wales. Suzy Davies stated earlier that we can 'hope' that the DCMS will take account of what we have to say here, but 'hope' is all that it is. We can only hope. If we don't make the decisions here in Wales and the responsibility doesn't lie here in Wales, how can we ensure that the DCMS will be willing to act in S4C's interests without making cuts to S4C? Without the power, we can't be sure of that.

16:34

### **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Over the past four years, S4C has been adapting to new challenges and opportunities presented by the digital era. As Peter highlighted, the new partnership between BBC and S4C is working well, and the launch of S4C on iPlayer in October 2014 is a clear indication of the advantages of the new partnership, and this has had a very positive impact on online viewing sessions.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae S4C wedi bod yn addasu i heriau a chyfleoedd newydd a gyflwynir gan yr oes ddigidol. Fel yr amlygodd Peter, mae'r bartneriaeth newydd rhwng y BBC ac S4C yn gweithio'n dda, ac mae lansio S4C ar iPlayer yn Hydref 2014 yn arwydd clir o fanteision y bartneriaeth newydd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar sesiynau gwyllo ar-lein.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Adapting to new technologies and how we live now—and how we view now—is vital. Ofcom research last year showed that over four in 10 households, some 44 per cent, now own a tablet. That was up a quarter from just a year ago. Almost nine in 10 of 16 to 24-year-olds own a smartphone, and the average UK adult now spends more time using media or communications than they actually do sleeping. As the Ofcom chief executive said,

'a 'millennium generation' is shaping communication habits for the future.'

S4C is adapting with this change, such as S4C Clic, which allows viewers to watch live and on-demand programmes with the iPad and iPhone apps. As a result of those changes, S4C saw a 41 per cent increase in online viewing sessions in 2013, up almost 4 million. The new channel on BBC iPlayer will increase these figures further, I believe. It's also seeking ways to extend content to new platforms—on television online and on demand, and beyond Wales on platforms such as Virgin, YouView and iPlayer.

For S4C to continue to adapt to meet the Welsh language needs of viewers, it needs certainty over its future funding and independence. This may involve a wider look at the future opportunities for the channel. Back in October 2010, all party leaders in the National Assembly for Wales wrote to the Prime Minister calling for a fundamental review of S4C before any decision was made about its future funding or governance. That was backed up by the Welsh Affairs Committee, which recommended that the Secretary of State for Culture, Media and Sport commission an independent review of S4C at least once every five years. The committee concluded that a review was key to rebuild trust in governance, management and the mission of S4C, and that it should consider issues such as S4C's purpose, size, scale, the scope of the institution and its services, and its future funding and governance arrangements. Failure to conduct such a review, in the committee's view, gave weight to the argument of those who claim that the UK Government does not adequately appreciate the importance of S4C to Wales and beyond.

During the passage of the Public Bodies Act 2011, Mark Williams MP made a firm case for such a review, and it's disappointing that that review still has not happened. As we're on the brink of potential further changes to the funding and structure of S4C, I believe it's time to make the case for that review once again.

Until that point, calls for full devolution of funding and responsibility for S4C, I believe, are premature, and for that reason we will not, despite Bethan's contribution, be supporting the Plaid amendment today. But we fully support the implementation of Silk's recommendations, including greater accountability.

Mae addasu i dechnolegau newydd a sut rydym yn byw yn awra sut rydym yn gwyllo yn awr-yn hollbwysig. Dangosodd ymchwil Ofcom y llynedd fod dros bedwar o bob 10 aelwyd, tua 44 y cant, yn awr yn berchen ar dabled, chwarter yn fwy na chwta flwyddyn yn ôl. Mae bron i naw o bob 10 o rai rhwng 16 a 24 oed yn berchen ar ffôn clyfar, ac mewn gwirionedd mae'r oedolyn cyffredin yn y DU bellach yn treulio mwy o amser yn defnyddio cyfryngau neu ddyfeisiau cyfathrebu nag y mae'n ei dreulio'n cysgu. Fel y dywedodd prif weithredwr Ofcom,

'a 'millennium generation' is shaping communication habits for the future.'

Mae S4C yn addasu ochr yn ochr â'r newid hwn, fel gydag S4C Clic, sy'n galluogi gwylwyr i wyllo rhaglenni byw ac ar-alw gyda'r aps iPad ac iPhone. O ganlyniad i'r newidiadau hynny, gwelodd S4C gynnydd o 41 y cant yn y sesiynau gwyllo ar-lein yn 2013, cynnydd o bron 4 miliwn. Bydd y sianel newydd ar BBC iPlayer yn chwyddo'r ffigurau hyn ymhellach, rwy'n credu. Mae hefyd yn chwilio am ffyrdd o ymestyn y cynnwys i blatfformau newydd—ar deledu ar-lein ac ar-alw, a thu hwnt i Gymru ar blatfformau fel Virgin, YouView ac iPlayer.

Er mwyn i S4C barhau i addasu i gwrdd ag anghenion iaith Gymraeg gwylwyr, mae angen sicrwydd arni ynglŷn â'i chyllid a'i hannibyniaeth yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys edrych yn ehangach ar y cyfleoedd ar gyfer y sianel yn y dyfodol. Yn ôl ym mis Hydref 2010, ysgrifennodd holl arweinwyr y pleidiau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru at y Prif Weinidog yn galw am adolygiad sylfaenol o S4C cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â'i threfniadau ariannu a llywodraethu yn y dyfodol. Cafodd hynny ei ategu gan y Pwyllgor Materion Cymreig, a argymhellodd y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gomisiynu adolygiad annibynnol o S4C o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Daeth y pwyllgor i'r casgliad fod adolygiad yn allweddol i ailadeiladu ymddiriedaeth yn nhrefniadau llywodraethu a rheoli, a chenhadaeth S4C, ac y dylai ystyried materion megis pwrpas a maint S4C, cwmpas y sefydliad a'i wasanaethau, a'r trefniadau cyllido a llywodraethu yn y dyfodol. Ym marn y pwyllgor, roedd methiant i gynnal adolygiad o'r fath yn crfychu dadl y rhai sy'n honni nad yw Llywodraeth y DU yn gwerthfawrogi'n ddigonol pa mor bwysig yw S4C i Gymru a thu hwnt.

Yn ystod taith Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011, cyflwynodd Mark Williams AS achos cadarn dros adolygiad o'r fath, ac mae'n siomedig nad yw'r adolygiad wedi digwydd. Gan ein bod ar drothwy newidiadau pellach posibl i drefn gyllido a strwythur S4C, rwy'n credu ei bod yn bryd cyflwyno'r achos dros yr adolygiad hwnnw unwaith eto.

Tan hynny, credaf ei bod yn rhy fuan i ni alw am ddatganoli cyllid a chyfrifoldeb am S4C yn llawn, ac am y rheswm hwnnw ni fyddwn, er gwaethaf cyfraniad Bethan, yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru heddiw. Ond rydym yn llwyr gefnogi gweithrediad argymhellion Silk, gan gynnwys mwy o atebolrwydd.



We welcome the fact that the Welsh Government now has a greater say in the appointment of authority members, and that S4C regularly gives evidence before Assembly committees. These approaches demonstrate that we can increase accountability and Welsh Government involvement in broadcasting policy without necessitating full devolution of broadcasting. We must explore other options, such as Welsh Government's involvement in licensing decisions, but that should form, we believe, part of a full review of S4C. This should happen now to coincide with consultations over the future of the BBC charter so that S4C is fairly represented in that charter review process.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod gan Lywodraeth Cymru fwy o lais bellach yn y broses o benodi aelodau'r awdurdod, a bod S4C yn rhoi tystiolaeth gerbron pwyllgorau'r Cynulliad yn rheolaidd. Mae hyn yn dangos ein bod yn gallu cynyddu atebolrwydd ac ymwneud Llywodraeth Cymru â pholisi darlledu heb orfod datganoli darlledu'n llawn. Rhaid i ni edrych ar opsiynau eraill, fel cyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn penderfyniadau trwyddedu, ond credwn y dylai hynny ffurfio rhan o adolygiad llawn o S4C. Dylai hyn ddigwydd yn awr i gyd-fynd ag ymgynghoriadau ynghylch dyfodol siarter y BBC fel bod S4C yn cael ei chynrychioli'n deg yn y broses o adolygu'r siarter.

16:38 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mi oedd Suzy Davies yn cyfeirio at y ffaith ein bod ni'n creu rhyw fath o bryderon ynglŷn ag ariannu S4C, ond rwy'n meddwl ei bod hi'n werth nodi bod yna doriadau o tua £30 miliwn ar hyn o bryd o fewn DCMS, a hefyd cofiwch ein bod ni i gyd yn edrych ymlaen at y gyllideb ar 8 Gorffennaf.

Suzy Davies referred to the fact that we're raising concerns about the funding of S4C, but I think it's worth noting that there are cuts of around £30 million currently within the DCMS, and also remember that we are all looking forward to the budget on July 8.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:38 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am hyn. Fe wnes i gyfeirio at annibyniaeth, ddim at ariannu.

Thank you for this. I referred to independence, not to funding.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:38 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ocê. Hwyrach eich bod chi'n gwybod yn iawn pam nad ydych chi'n cyfeirio at ariannu. Nid wyf eisiau rhoi gwrs hanes i chi, ond rwy'n gwybod yn iawn am y camau y gwnaeth Kirsty Williams eu cymryd pan oedd yr holl drafodaeth yna'n mynd ymlaen, pan oedd Maria Miller yn barod iawn i dynnu'n ôl yr holl arian gan S4C. Ond am ymyrraeth Danny Alexander, er enghraifft, a oedd yn dweud bod yna arian o'r Trysorlys yn cael ei roi i mewn i DCMS, byddai cwtogi o ryw 10 y cant yn ychwanegol wedi cael ei wneud i S4C. Felly, nid wy'n deall pam nad ydych chi'n derbyn bod yna amheuan ynglŷn â'r hyder sydd gennym ni yn eich plaid chi i edrych ar ôl buddiannau S4C.

Okay. Maybe you know exactly why you're not referring to funding. I do not want to give you a history lesson, but I know full well what steps Kirsty Williams took when all these discussion were under way, when Maria Miller was more than willing to withdraw all funding from S4C. If it weren't for the intervention of Danny Alexander, for example, who said that funding from the Treasury would be put into DCMS, then there would have been a cut of around an additional 10 per cent being made to S4C. Therefore, I do not understand why you do not accept that there are doubts about the confidence that we have in your party to look after the interests of S4C.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'n bwysig, wrth gwrs, dderbyn bod gan S4C rôl sylweddol o ran yr iaith Gymraeg—nid darlledwr yn unig ydy S4C, ond mae ganddyn nhw gyfrifoldeb nid yn unig o ran yr iaith ond hefyd gyfrifoldeb economaidd yma yng Nghymru. A bod yn deg â nhw, maen nhw wedi darparu mathau newydd o gyfathrebu er bod rhai ohonom ni'n pryderu ynglŷn â nifer y rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu ar y sianel o achos yr union gwtogi rydych chi wedi sôn amdano.

It is important, of course, to accept the significant role that S4C in relation of the Welsh language—it's not just a matter of S4C being a broadcaster, as they have a responsibility in terms of not only the language but also economic responsibility here in Wales. To be fair to them, they have provided new methods of communication, even though some of us are concerned about the number of programmes being repeated because of those cuts that you talked about.

Mi wnaeth Bethan Jenkins hefyd, rwy'n meddwl, godi pwynt ynglŷn â'r ffaith bod yna fygythiadau eraill yn eich manifesto chi lle rŷch chi'n sôn am ddefnyddio rhan o'r arian sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer S4C ar gyfer seilwaith digidol yn y Deyrnas Gyfunol. Felly, mae yna bryderon ac mae yna amheuan ynglŷn â lle yn union y mae'r sefyllfa yma'n mynd i'n cymryd ni. Rwy'n meddwl ei bod hi'n werth nodi hefyd fod cronfa gymdeithasol Ewrop, trwy waith Llywodraeth Cymru, S4C a chymdeithas fasnach Teledwyr Annibynnol Cymru, erbyn hyn wedi buddsoddi dros £2.3 miliwn mewn cynlluniau hyfforddiant lefel uchel ers 2011. Maen nhw'n gobeithio y bydd y buddsoddiad yn werth tua £9.3 miliwn erbyn 2020.

Bethan Jenkins also made a point, I think, about the fact that there are other threats within your manifesto, where you mention using some of the funding that is currently used for S4C to establish a digital infrastructure within the United Kingdom. So, there are concerns and there are doubts about where exactly this situation is going to take us. I do think it's also worth noting that the European social fund, through the work of the Welsh Government, S4C and the Teledwyr Annibynnol Cymru trade association, has by now invested more than £2.3 million in high-level training schemes since 2011. They are hoping that that investment will be worth around £9.3 million by 2020.

Mae yna nodyn yma ynglŷn â beth yn union rydym ni'n gweld ydy nod S4C yn y pen draw, achos rwy'n credu bod y gwaith y mae'n ei wneud o ran plant ifainc a phobl ifainc, a'i chefnogaeth i'r iaith Gymraeg, yn ffactor bwysig yma hefyd. Y broblem sydd gennym ni ydy bod nifer o wleidyddion yn Llundain heb unrhyw ddealltwriaeth o gwbl o rôl S4C yn y ffordd yna. Rwy'n credu mai'r broblem sydd gennym ni ydy, os ydy'r blaid eisiau inni gamu ymlaen a datganoli ac os nad ydy'r adnoddau'n cael eu gwneud yma, mai yn union yr un broblem fydd gennym ni o ran Llywodraeth Cymru yn y pen draw.

But there is an issue here about exactly what we see as the aim of S4C, ultimately, because I do think that the work that it does in terms of young children and young people, and in terms of supporting the Welsh language, is a very important factor here as well. The problem we have here is that there are a number of politicians in London who have no comprehension at all of the role that S4C plays in that way. I think the problem we have is that if Plaid Cymru wants us to step forward and devolve, if the resources aren't made here, we will have exactly the same problem at the end of the day in terms of the Welsh Government.

16:41 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dyna beth roeddwn i'n ei ddweud, sef bod yn rhaid i'r adnoddau ddod gyda hynny. Os taw ni sy'n deall yn well, pam peidio â chefnogi beth rŷm ni wedi'i ddweud ynglŷn â datganoli gyda'r cyllid?

That's what I was saying, that the resources have to come too. If we understand the issues so much better, why not support what we have said about devolution with the funding?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:42 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

O achos nid oes yna sicrwydd, ac rwy'n meddwl mai dyna'r broblem yn ystod trafodaethau Silk. Roedd elfennau y tu mewn i Senedd Llundain a oedd yn amharod iawn i drosglwyddo yr arian yn yr un modd. Felly, mae yna fwy o fygythiad hyd yn oed os ydym ni'n trosglwyddo heb yr arian nag sydd gennym ni o dan y patrwm ar hyn o bryd.

Because there is no certainty, and I think that's the problem that arose during the Silk discussions. There were elements within the Parliament in London that were very unwilling to transfer the funding in the same manner. So, there is even more of a threat if we transfer responsibility without the funding than there is under the current model.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Rwy'n meddwl bod S4C yn perfformio rôl bwysig o ran diwylliant Cymru, os ydych chi'n edrych ar y ffaith ei bod yn darlledu nid yn unig gneifio defaid, ond hefyd y Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod Genedlaethol a hyd yn oed yr eisteddfod yn Llangollen, sydd yn etholaeth y Dirprwy Weinidog. Un broblem sydd gennym ni, wrth gwrs, ydy bod y wasg yn Llundain yn awyddus iawn i sôn am ffigurau gwyllo S4C. Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni edrych ar y ffordd y mae'r sampl yng Nghymru yn cael ei ddelio efo fo. Nid yw'r ffigurau o ran y Broadcasters' Audience Research Board yn ddibynadwy, yn fy marn i. Nid ydynt yn cynnwys, er enghraifft, ffigurau rhaglenni plant, sydd yn elfen bwysig o S4C, ac nid ydyn nhw'n adlewyrchu ychwaith y ffigurau roedd Kirsty Williams yn sôn amdany'n nhw o ran gwylwyr digidol, lle mae dros 380,000 yn defnyddio Clic ar gyfer rhaglenni plant erbyn hyn. Rwy'n rhedeg allan o amser, ond rwy'n meddwl bod hyn yn hollbwysig. Rwy'n gobeithio, wrth i'r Ceidwadwyr ofyn i ni fel pleidiau yn y Senedd i sicrhau ein gwrthwynebiad i unrhyw gwtogi ar y sianel, y byddan nhw'n gwneud yn union yr un gwaith o fewn eu plaid nhw, o achos dyna lle mae'r bygythiad yn dod ar hyn o bryd.

I do think that S4C fulfils a very important role in terms of Welsh culture, if you consider the fact that they broadcast not only sheep shearing, but also the Royal Welsh Show, the National Eisteddfod and even the Llangollen eisteddfod, which is located in the Deputy Minister's constituency. One problem that we have is that the press in London is very eager to talk about S4C's viewing figures. I think that we do need to look at the way in which the sample in Wales is dealt with. The figures from the Broadcasters' Audience Research Board aren't reliable, in my opinion. They don't include, for example, any figures for children's programming, which are an important element of S4C's work, and they also don't reflect the figures that Kirsty Williams mentioned in terms of digital viewers, with over 380,000 people using Clic for children's programmes. I'm running out of time, but I do think that this is vitally important. I do hope, as the Conservatives are asking us as parties in the Senedd to ensure our opposition to any cuts to the channel, that they, too, will carry out exactly the same work within their own party, because that's where the threat is coming from at the moment.

16:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to speak on behalf of the Government—Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth—Ken Skates.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, Presiding Officer, and can I thank Members for their contributions during the debate and in particular Peter Black for opening it with a comprehensive and accurate assessment of the current and changing landscape of broadcasting and, in particular, S4C? Over the next few years, there are key decisions to be taken relating to broadcasting and regulatory arrangements in the UK and in Wales. The Welsh Government is fully aware of the importance for S4C of the renewal of the BBC's royal charter, as well as BBC Cymru Wales. There are possible changes to the devolution settlement that may encompass broadcasting matters, after further consideration of the findings of the Silk Commission on Devolution in Wales, the St David's Day announcement and the Smith Commission in Scotland.

We do not support amendment 1 in the name of Paul Davies. The current uncertainty about S4C's funding position is due mainly to decisions made by the UK Government. S4C is, of course, now in a different position from where it was before decisions taken by the UK Government in 2010 as part of the comprehensive spending review. It is vital that S4C has sufficient funding as well as editorial and managerial independence for it to continue to play a crucial role in support of the Welsh language and the creative industries in Wales. Now, 90 per cent of S4C's funding comes from the licence fee. All formal agreements regarding S4C funding will expire during the next two years. The funding that the channel receives from the UK Government is not guaranteed beyond March 2016. What it receives from the BBC via the television licence fee is not secure from April 2017. This uncertainty regarding the future funding of the channel makes forward planning difficult for S4C. It is therefore vital that this is agreed as soon as possible.

The Welsh Government remains very concerned about S4C's financial position. Funding for the channel has reduced by 36 per cent in real terms since 2010. It is inevitable that this will have an impact on the output available to viewers. The UK's Secretary of State for Culture, Media and Sport has a statutory duty, as outlined in the Public Bodies Act 2011, to ensure that S4C receives sufficient funding. Any further cuts to the channel's funding will have an effect on its output and what it can offer to its audiences.

S4C's vision is to provide high quality Welsh-language content on a variety of platforms, using that latest technology that Kirsty Williams and others have spoken about. The Welsh Government has consistently expressed concern to the UK Government about the impact any further funding cuts will have on S4C and its ability to serve the Welsh audience, and that S4C must remain independent with its own budget. This has also been reflected in our various responses to broadcasting consultations, including the recent Ofcom review of public service broadcasting.

Diolch i chi, Lywydd, ac a gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau yn ystod y ddaidl, ac yn arbennig Peter Black am ei hagog ag asesiad cynhwysfawr a chywir o'r tirlun darlledu cyfnewidiol ar hyn o bryd, ac S4C yn benodol? Dros y blynyddoedd nesaf, mae penderfyniadau allweddol i'w gwneud mewn perthynas â darlledu a threfniadau rheoleiddio yn y DU ac yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd adnewyddu siarter frenhinol y BBC i S4C, ac i BBC Cymru Wales yn ogystal. Ceir newidiadau posibl i'r setliad datganoli a allai gwmpasu materion darlledu, ar ôl ystyriaeth bellach o ganfyddiadau Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, y cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi a Chomisiwn Smith yn yr Alban.

Nid ydym yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Paul Davies. Mae'r ansicrwydd presennol ynghylch sefyllfa ariannu S4C yn deillio'n bennaf o benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU. Wrth gwrs, mae S4C bellach mewn sefyllfa wahanol i lle roedd cyn i Lywodraeth y DU wneud penderfyniadau yn ei chylch yn 2010 yn rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Mae'n hanfodol fod S4C yn cael cyllid digonol yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol er mwyn iddi barhau i chwarae rhan allweddol yn cefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Nawr, daw 90 y cant o gyllid S4C o ffi'r drwydded. Bydd yr holl gytundebau ffurfiol ynghylch cyllid S4C yn dod i ben yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Nid yw'r cyllid y mae'r sianel yn ei gael gan Lywodraeth y DU wedi ei warantu y tu hwnt i fis Mawrth 2016. Nid yw'r hyn y mae'n ei gael gan y BBC drwy ffi'r drwydded deledu yn ddiogel o fis Ebrill 2017 ymlaen. Mae'r ansicrwydd hwn ynglŷn â chyllid y sianel yn y dyfodol yn ei gwneud yn anodd cynllunio ymlaen ar gyfer S4C. Felly, mae'n hanfodol fod hyn yn cael ei gytuno cyn gynted ag y bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch sefyllfa ariannol S4C. Mae cyllid ar gyfer y sianel wedi lleihau 36 y cant mewn termau real ers 2010. Mae'n anochel y bydd hyn yn cael effaith ar yr allbwn sydd ar gael i wylwyr. Mae gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU ddylyswydd statudol, fel sy'n cael ei amlinellu yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011, i sicrhau bod S4C yn derbyn cyllid digonol. Bydd unrhyw doriadau pellach i gyllid y sianel yn cael effaith ar ei hallbwn a'r hyn y gall ei gynnig i'w chynulleidfaeodd.

Gweledigaeth S4C yw darparu cynnwys o safon uchel yn y Gymraeg ar amrywiaeth o blatfformau, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf y soniodd Kirsty Williams ac eraill amdani. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder yn gyson wrth Lywodraeth y DU am effaith unrhyw doriadau ariannol pellach ar S4C a'i gallu i wasanaethu'r gynulleidfa Gymraeg, a bod yn rhaid i S4C aros yn annibynnol gyda'i chyllideb ei hun. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu hefyd yn ein gwahanol ymatebion i ymgynghoriadau darlledu, gan gynnwys adolygiad diweddar Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

The Welsh Government welcomed the announcement in 2013 that a six-year agreement has been reached between the BBC Trust and the S4C authority on the future funding, governance and accountability of S4C. The agreement also, significantly, protected the editorial and managerial independence of S4C.

The first priority, of course, should be for S4C and the BBC to begin to deliver on the back of the partnership, working together to build on their agreement and develop a sustainable future for Welsh-language broadcasting. Because of the crucial importance of S4C's role, we also believe that the partnership should, at some point, be subject to an independent review agreed by all parties in the National Assembly for Wales. The commitment to seek agreement for such a review is outlined in our programme for government.

The Minister for Economy, Science and Transport recently wrote to the UK Government's new Secretary of State for Culture, Media and Sport, referring to our expectation that the Welsh Government should be fully involved in the charter renewal discussions from the outset so that they reflect the changing devolution settlement and protect the interests of the people of Wales. In that letter, we reiterated our view that providing sufficient funding to S4C was crucial.

The Smith Commission called for a formal consultative role for the Scottish Government and the Scottish Parliament in the process of reviewing the BBC's royal charter and for the BBC to have greater accountability to Scotland thereafter. We fully expect that Wales should and will be treated in the same way as the other devolved nations in the charter renewal negotiations.

The Welsh Government welcomed the references in the St David's Day command paper to increasing the accountability of broadcasters, including S4C. We have regularly referred to the importance of improving the accountability of UK broadcasting institutions to the National Assembly, to Welsh viewers and to listeners. Improving accountability should be implemented in a consistent manner across the devolved administrations, and therefore we support amendment 2 in the name of Paul Davies.

In turning to amendment 3 in the name of Elin Jones, and to reiterate the points already made by Kirsty Williams and Aled Roberts, the amendment, in calling for devolution of full responsibility for funding for S4C goes further than part 2 of the Silk commission recommendations. The Silk 2 recommendations relate only to devolving the funding S4C currently receives from the Department for Culture, Media and Sport. Silk argued that the bulk of S4C funding should continue to be met from the licence fee, and therefore we cannot support this amendment.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyhoeddiad yn 2013 fod cytundeb chwe blynedd wedi ei sicrhau rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C ar drefniadau cyllido, llywodraethu ac atebolrwydd S4C yn y dyfodol. Yn arwyddocaol, roedd y cytundeb hefyd yn diogelu annibyniaeth olygyddol a rheolaethol S4C.

Yr hyn a ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf, wrth gwrs, yw i S4C a'r BBC ddechrau cyflawni fel partneriaeth, a gweithio gyda'i gilydd i adeiladu ar eu cytundeb a datblygu dyfodol cynaliadwy i ddarparu yn yr iaith Gymraeg. Oherwydd pwysigrwydd hanfodol rôl S4C, rydym hefyd yn credu y dylai'r bartneriaeth, ar ryw adeg, fod yn destun adolygiad annibynnol wedi'i gytuno gan bob plaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ymrwymiad i geisio cytundeb ar gyfer adolygiad o'r fath wedi ei amlinellu yn ein rhaglen lywodraethu.

Yn ddiweddar, ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at Ysgrifennydd Gwladol newydd Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gyfeirio at ein disgwyliad y dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar adnewyddu'r siarter o'r cychwyn fel eu bod yn adlewyrchu setliad datganoli sy'n newid ac yn diogelu buddiannau pobl Cymru. Yn y llythyr hwnnw, ailadroddwyd ein barn fod darparu digon o arian i S4C yn hanfodol.

Galwodd Comisiwn Smith am rôl ymgynghorol ffurfiol i Lywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban yn y broses o adolygu siarter frenhinol y BBC ac am fwy o atebolrwydd gan y BBC i'r Alban yn dilyn hynny. Rydym yn llawn ddisgwyl y dylai, ac y bydd Cymru yn cael ei thrin yn yr un ffordd â'r gwledydd datganoledig eraill yn y trafodaethau ar adnewyddu'r siarter.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyfeiriadau ym mhapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi at gynyddu atebolrwydd darlledwyr, gan gynnwys S4C. Rydym wedi cyfeirio'n rheolaidd at bwysigrwydd gwella atebolrwydd sefydliadau darlledu yn y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol, i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Dylid cyflawni'r broses o wella atebolrwydd mewn modd cyson ar draws y gweinyddiaethau datganoledig, ac felly rydym yn cefnogi gwelliant 2 yn enw Paul Davies.

Wrth droi at welliant 3 yn enw Elin Jones, ac i ailadrodd y pwyntiau a wnaed eisoes gan Kirsty Williams ac Aled Roberts, mae'r gwelliant, wrth alw am ddatganoli cyfrifoldeb llawn am ariannu S4C, yn mynd ymhellach na rhan 2 o argymhellion comisiwn Silk. Nid yw argymhellion Silk 2 ond yn ymwneud â datganoli'r cyllid y mae S4C yn ei dderbyn ar hyn o bryd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dadleuai Silk y dylai'r rhan fwyaf o gyllid S4C barhau i ddod o ffi'r drwydded, ac felly ni allwn gefnogi'r gwelliant hwn.

S4C has a vital role in contributing to the Welsh Government's priorities for the Welsh language. We are working in partnership with S4C on a number of initiatives. S4C has, and will continue to have an important part to play in delivering the vision set out in the Welsh Government's Welsh language strategy. As Kirsty Williams noted, now that S4C's content is available as an iPlayer streaming channel as well as via Clic, reached through interactive platforms like tablets and phones, it should increase and should be acknowledged. S4C's content is invaluable for schools to support the teaching and learning of Welsh as a language and other subjects through the medium of Welsh.

The Welsh Government's Welsh in education unit has worked in partnership with S4C to provide an app to support S4C's Dal Ati Welsh learners' service. The Welsh Government welcomed the decision by S4C to relocate their headquarters to Carmarthenshire. The move will see a major institution relocating its operations outside of the capital, creating job opportunities locally in a specialist area and boosting the wider economy. We are confident this will encourage more creative industries to follow suit, again benefiting the local economy in the way that Peter Black outlined. I think it is worth reiterating the value of the creative industries to the economy and to pay tribute to the way that the Minister for Economy, Science and Transport has delivered unprecedented growth in this area. The creative industries are growing faster here in Wales than any other part of the UK bar London.

Presiding Officer, our position is therefore clear. The Welsh Government will continue to make the necessary representations to the UK Government to ensure that S4C's funding is protected and that it maintains its editorial, managerial and operational independence.

Mae gan S4C swyddogaeth hollbwysig yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru tuag at y Gymraeg. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag S4C ar nifer o fentrau. Mae gan S4C ran bwysig i'w chwarae yn cyflawni'r weledigaeth a amlinellwyd yn strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, a bydd hynny'n parhau. Fel y nododd Kirsty Williams, gan fod cynnwys S4C bellach ar gael fel sianel ffrydio iPlayer yn ogystal â thrwy Clic, drwy blatfformau rhyngweithiol megis tabledi a ffonau, dylai gynyddu a dylid cydnabod hynny. Mae cynnwys S4C yn amhrisiadwy i ysgolion i gefnogi addysgu a dysgu Cymraeg fel iaith a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae uned Cymraeg mewn addysg Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth gydag S4C i ddarparu ap i gefnogi gwasanaeth dysgwyr S4C, 'Dal Ati'. Croesawodd Llywodraeth Cymru benderfyniad S4C i adleoli eu pencadlys i Sir Gaerfyrddin. Bydd y symud yn golygu bod sefydliad mawr yn adleoli ei weithrediadau y tu allan i'r brifddinas, gan greu cyfleoedd gwaith yn lleol mewn maes arbenigol a rhoi hwb i'r economi ehangach. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn annog mwy o'r diwydiannau creadigol i wneud yr un peth, a bydd hyn, unwaith eto, o fudd i'r economi leol yn y ffordd yr amlinellodd Peter Black. Credaf ei bod yn werth ailadrodd gwerth y diwydiannau creadigol i'r economi a thalu teyrnged i'r modd y mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi sicrhau twf digyffelyb yn y maes hwn. Mae'r diwydiannau creadigol yn tyfu'n gyflymach yma yng Nghymru nag yn unrhyw ran arall o'r DU ar wahân i Lundain.

Lywydd, mae ein safbwynt yn glir felly. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddwyn y sylwadau angenrheidiol i sylw Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod cyllid S4C yn cael ei ddiogelu a'i bod yn cadw ei hannibyniaeth olygyddol, rheolaethol a gweithredol.

16:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Peter Black to reply to the debate.

Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:51 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. There is a sad irony in the fact that, over 30 years after S4C was established by a Conservative Government, after a long struggle by Welsh language campaigners and a u-turn by the then Prime Minister, Margaret Thatcher, we are here today fighting for the future of this channel, which is at threat from the austerity measures of the new Tory administration. What they gave with one hand they are seemingly now trying to take away with the other. With no guarantees of DCMS funding beyond this financial year, and Tory plans to further freeze or scrap the BBC licence fee altogether, this makes it very difficult for S4C to thrive and invest without stability.

Diolch i chi, Lywydd. Dros 30 mlynedd wedi i S4C gael ei sefydlu gan Lywodraeth Geidwadol, ar ôl brwydr hir gan ymgyrchwyr iaith Gymraeg a thro pedol gan y Prif Weinidog ar y pryd, Margaret Thatcher, mae yna eironi trist yn y ffaith ein bod ni yma heddiw yn ymladd dros ddyfodol y sianel hon, sydd dan fygythiad yn sgil mesurau caledi'r weinyddiaeth Doriaidd newydd. Maent wedi rhoi gydag un llaw a bellach, mae'n ymddangos eu bod yn ceisio ei gymryd yn ôl gyda'r llall. Heb unrhyw sicrwydd o gyllid yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon, a chynlluniau'r Torïaid i rewi ymhellach neu gael gwared ar ffi trwydded y BBC yn gyfan gwbl, mae'n anodd iawn i S4C ffynnu a buddsoddi heb sefydlogrwydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Liberal Democrats have always recognised the importance of S4C to Wales's cultural life, and as a vital contributor to Wales's plural media environment. S4C is crucial to the continued health of the Welsh language, and I'm glad to hear of new and inventive services, such as Dal Ati, which has just been referred to by the Deputy Minister, serving to expand the Welsh language for everyone. S4C supports a whole range of skilled creative industry jobs across Wales and we hope will be an ever more important player in the Welsh economy, particularly in areas such as Ceredigion and Carmarthenshire, where, as the Minister has just referred, S4C is relocating its headquarters. Indeed, the creative industries have been one of the UK's greatest successes over the past five years, and a critical driver of recovery. It is therefore deeply worrying that the present Government appear to have an anti-BBC agenda and want to shrink the service. Just a few weeks ago, Danny Cohen, the director of BBC TV said,

'A smaller BBC is...smaller UK creative industries.'

This would be bad for the UK and devastating for S4C as BBC funding is now integral to its future.

During the debate, Kirsty talked about how S4C is adapting to new technologies and living habits, and reiterated the call made by all four Assembly party leaders for a fundamental review of S4C as discussions are reignited over its future funding and governance. I certainly hope that we can take that forward.

Suzy Davies, though, said that the debate was speculative, but even she can't deny that the future is uncertain and that the record of DCMS is not good in taking account of the importance of S4C and the Welsh language within broadcasting. She says that the Tories' record on funding is good, but it took Danny Alexander to stop the UK Treasury's contribution of 10 per cent to S4C being cut in the last Parliament.

On Bethan Jenkins's amendment 3—we do not support this amendment. We believe the Welsh Government can have a much more proactive role in the governance of broadcasting within Wales, but the risks in devolving S4C in its totality are too great, especially in terms of pressure on our budget. It is not just about the 10 per cent contribution from DCMS because the full devolution of S4C alone would mean we'd have to unpick the current arrangement with the BBC and the licence fee. That means that the £75 million, which the BBC is putting in from the licence fee, would also be called into question. I think that funding gap would have to be met before we could go for that full devolution.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol bob amser wedi cydnabod pwysigrwydd S4C i fywyd diwylliannol Cymru, ac fel cyfrannwr hanfodol i amgylchedd y cyfryngau lluosol yng Nghymru. Mae S4C yn allweddol i iechyd parhaus y Gymraeg, ac rwy'n falch o glywed am wasanaethau newydd a dyfeisgar, megis Dal Ati, y cyfeiriwyd atynt yn awr gan y Dirprwy Weinidog, yn cynorthwyo i gynnig y Gymraeg i bawb. Mae S4C yn cefnogi ystod eang o swyddi medrus yn y diwydiant creadigol ar draws Cymru ac rydym yn gobeithio y bydd yn chwaraewr mwyfwy pwysig yn economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd megis Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, lle y mae S4C wedi adleoli ei phencadlys, fel y mae'r Gweinidog newydd sôn. Yn wir, mae'r diwydiannau creadigol wedi bod yn un o lwyddiannau mwyaf y DU dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn ffactor allweddol sy'n sbarduno adferiad. Felly, mae'n destun pryder mawr ei bod yn ymddangos bod y Llywodraeth bresennol ag agenda gwrth-BBC ac yn awyddus i grebachu'r gwasanaeth. Ychydig wythnosau yn ôl yn unig, dywedodd Danny Cohen, cyfarwyddwr BBC TV,

'A smaller BBC is...smaller UK creative industries.'

Byddai hyn yn ddrwg i'r DU ac yn ddinistriol i S4C gan fod arian y BBC bellach yn rhan annatod o'i dyfodol.

Yn ystod y ddadl, siaradodd Kirsty am y modd mae S4C yn addasu i dechnolegau ac arferion byw newydd, ac ailadroddodd yr alwad a wnaed gan arweinwyr pob un o'r pedair plaid yn y Cynulliad am adolygiad sylfaenol o S4C wrth i'r trafodaethau ailgychwyn ynglŷn â'i hariannu a'i llywodraethu yn y dyfodol. Rwy'n sicr yn gobeithio y gallwn symud hynny yn ei flaen.

Ond dywedodd Suzy Davies mai dadl ddamcaniaethol yw hi, er na all hi hyd yn oed wadu bod y dyfodol yn ansicr ac nad yw hanes yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dda o ystyried pwysigrwydd S4C a'r iaith Gymraeg ym maes darlledu. Mae hi'n dweud fod record y Torïaid mewn perthynas ag ariannu'n dda, ond bu'n rhaid i Danny Alexander atal cyfraniad Trysorlys y DU o 10 y cant i S4C rhag cael ei dorri yn ystod y Senedd ddiwethaf.

Ar welliant 3 Bethan Jenkins—nid ydym yn cefnogi'r gwelliant hwn. Credwn y gall Llywodraeth Cymru gael rôl lawer mwy rhagweithiol yn llywodraethu darlledu yng Nghymru, ond mae'r risgiau o ddatganoli S4C yn ei chyfanrwydd yn rhy fawr, yn enwedig o ran y pwysau ar ein cyllideb. Nid yw'n ymwneud yn unig â'r cyfraniad o 10 y cant o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gan y byddai datganoli S4C yn llawn ynddo'i hun yn golygu y byddai'n rhaid i ni ddatod y trefniant presennol gyda'r BBC a ffi'r drwydded. Mae hynny'n golygu y byddai cwestiynau'n codi hefyd ynghylch y £75 miliwn y mae'r BBC yn ei gyfrannu o ffi'r drwydded. Rwy'n credu y byddai'n rhaid cau'r bwlch ariannu hwnnw cyn y gallem ystyried datganoli'n llawn.

The Deputy Minister re-emphasised the importance of sufficient funding and editorial and managerial independence. I certainly support that. I note he shares my concerns about the need for certainty so as to enable the forward planning of programming for S4C. We certainly welcome the support of the Welsh Government in terms of looking for future clarity and certainty in terms of this channel. It is time for the UK to end this uncertainty over S4C funding, to conduct a full review of S4C and ensure that it is fairly represented in discussions over the charter renewal. I hope that by supporting this motion today, we will be able to set that in motion. Thank you, Presiding Officer.

Ailbwysleisiodd y Dirprwy Weinidog bwysigrwydd ariannu digonol ac annibyniaeth olygyddol a rheolaethol. Rwy'n sic yn cefnogi hynny. Nodaf ei fod yn rhannu fy mhryderon ynghylch yr angen am sicrwydd er mwyn gallu blaengynllunio rhaglenni ar gyfer S4C. Rydym yn sic yn croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i chwilio am eglurder a sicrwydd yn y dyfodol ar gyfer y sianel hon. Mae'n bryd i'r DU roi diwedd ar yr ansicrwydd ynglŷn â chyllido S4C, cynnal adolygiad llawn o S4C a sicrhau ei bod yn cael ei chynrychioli'n deg yn y trafodaethau ar adnewyddu'r siarter. Drwy gefnogi'r cynnig hwn heddiw, rwy'n gobeithio y gallwn roi cychwyn ar hynny. Diolch i chi, Lywydd.

16:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The proposal is to agree the motion without amendment. Does anyone object? No objection. Therefore, the motion without amendment is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That brings today's business to a close. Thank you very much.

Daw hynny â'r trafodion i ben am heddiw. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth y cyfarfod i ben am 16.55.*

*The meeting ended at 16:55.*